

Cronfa Treftadaeth y  
Loteri Genedlaethol

Adroddiad a Chyfrifon  
Blynyddol 2023–2024



# Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Dosbarthiad Loteri Genedlaethol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol  
Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2023–2024  
ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

Wedi'i gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag Adran 34 (3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006), a chyflwynir y cyfrifon i Senedd y DU yn unol ag adran 35 (5) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993

I'w argraffu ar 29 Gorffennaf 2024 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin  
Wedi'i roi gerbron Senedd Yr Alban gan Weinidog Yr Alban  
ar 29 Gorffennaf 2024

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon ar 29 Gorffennaf 2024  
Wedi'i roi gerbron Senedd Cymru ar 26 Medi 2024

HC 79  
SG/2024/143



© Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2024

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall.

I weld y drwydded hon, ewch i:

[nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/official-documents](http://www.gov.uk/official-documents).

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom:

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

4th Floor

Cannon Bridge House

25 Dowgate Hill

Llundain

EC4R 2YA

ISBN 978-1-5286-5082-3

E03151607

07/24

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Wedi'i argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr mwyaf o dreftadaeth y DU. Credwn mewn nerth treftadaeth i danio'r dychymyg, cynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth, ac i ennyn balchder mewn lle a chysylltiad â'r gorffennol.

Mae ein rhwydwaith datganoledig o staff ar draws y DU yn sicrhau bod y gwahaniaethau mewn cymeriad treftadaeth ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu hadlewyrchu yn ein penderfyniadau. Mae ein harbenigedd DU gyfan yn cefnogi ein gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn dosbarthu arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar ffurf grantiau rhwng £10,000 a £10miliwn ac yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth.

Rydym yn darparu arian ychwanegol ar gyfer treftadaeth ar ran llywodraethau ac yn creu partneriaethau gyda sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i gael ein harian i ble y mae ei angen fwyaf.

**Gallwch ddarganfod mwy yn [www.heritagefund.org.uk/cy](http://www.heritagefund.org.uk/cy)**

**Arian y Loteri Genedlaethol**

**£8.6bn**

wedi'i fuddsoddi ers 1994

**47,000**

o brosiectau wedi'u cefnogi

**Cyfanswm yr ariannu a ddosbarthwyd**  
(gan gynnwys cymorth grant)

**£9.1bn**

wedi'i fuddsoddi ers 1994

**52,000**

o brosiectau wedi'u cefnogi

# Cynnwys

<b>Adroddiad perfformiad</b>	<b>3</b>
Trosolwg o berfformiad	4
Dadansoddiad o berfformiad	9
<b>Adroddiad atebolrwydd</b>	<b>15</b>
Adroddiad llywodraethu corfforaethol	16
Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff	27
Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol	37
<b>Datganiadau ariannol</b>	<b>41</b>
Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net	42
Datganiad o Sefyllfa Ariannol	43
Datganiad Llifoedd Arian Parod	44
Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti	44
Nodiadau i'r cyfrifon	45
<b>Cyfarwyddiadau polisi</b>	<b>57</b>
<b>Cynnydd ar brosiectau dros £5miliwn</b>	<b>65</b>

# Adroddiad perfformiad

# Adroddiad perfformiad

## Trosolwg o berfformiad

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am brif amcanion a strategaethau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (Dosbarthiad Loteri), a elwir fel arall yn Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Treftadaeth). Mae'r adran drosolwg yn rhoi gwybodaeth i'r defnyddiwr am ddibenion a gweithgareddau'r sefydliad, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut y mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran dadansoddiad mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiadau sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol o'r datganiadau ariannol.

### Ein perfformiad yn 2023–2024: datganiad gan y Prif Weithredwr

Parhaodd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i chwarae rhan hanfodol eleni wrth gysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth y DU, trwy fuddsoddiadau grant mawr a bach ar hyd a lled y pedair gwlad. Credwn mewn nerth treftadaeth i gynnig llawenydd ac ysbrydoliaeth, i ennyn balchder mewn lle a chysylltiad â'r gorffennol. Trwy gofleidio'r pŵer hwn byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol.

Un o'n blaenoriaethau allweddol yn 2023–2024 oedd gweithredu ein strategaeth 10 mlynedd newydd, Treftadaeth 2033. Lansiodd y strategaeth ym mis Mawrth 2023 gyda'r 12 mis cyntaf yn gyfnod pontio, wrth i ni symud o'n Fframwaith Ariannol Strategol 2019–2024 i'n hegwyddorion buddsoddi newydd a'n huchelgeisiau hirdymor. Ochr yn ochr â chyflawni'r trawsnewidiad, fe wnaethom barhau i ddarparu cefnogaeth lefel uchel i'r sector treftadaeth, gan asesu dros 2,000 o geisiadau grant a buddsoddi mwy na £293m a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol mewn bron i

1,300 o brosiectau ar draws y DU.

Bu hon yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol, na fuasai'n bosibl heb gefnogaeth a gwaith caled y Bwrdd, ein chwe phwyllgor a dros 300 o staff yn gweithio ar draws y DU. Mae eu hymrwymiad wedi ein galluogi i gyflawni'r holl lwyddiannau a nodir yn yr adroddiad blynyddol hwn ac i barhau i gefnogi treftadaeth ar draws y DU. Rwy'n diolch yn fawr i bob un ohonynt.

## Ein blwyddyn bontio a gweithredu Treftadaeth 2033

Gwnaethom gyhoeddi ein cynllun cyflwyno ar gyfer tair blynedd cyntaf Treftadaeth 2033 ym mis Gorffennaf, pan wnaethom ymrwymo i fuddsoddi dros £1bn rhwng 2023 a 2026, cyhoeddi newidiadau i'n rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, a rhoi manylion blaenoriaethau buddsoddi wedi'i dargedu, drwy gyfres o fentrau. Erbyn mis Awst roeddem eisoes wedi derbyn mynegiadau o ddi-ddordeb trawiadol a chyffrous ar gyfer prosiectau fu'n gofyn am symiau mawr o arian gan ddilyn ein penderfyniad i gynnig trothwy grant uwch o £10m ym mis Ionawr. Ym mis Mawrth dyfarnwyd grant datblygu o £412,000 o flaen grant cyflwyno posibl o £9.4m i Amgueddfa Lechi Cymru, yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yng Ngwynedd i'w thrawsnewid yn atyniad ymwelwyr o safon fyd-eang. Dyfarnwyd £730,000 hefyd o flaen grant posibl o £6.6m i atgyweirio, gwarchod a rhannu hanes adfeilion Abaty Sant Edmwnd yn Suffolk.

Ar draws y DU eleni, bu i ni fuddsoddi mewn nifer fawr o brosiectau arwyddocaol, o'n grant o £2.1m i adfywio marchnad Fictoraidd restredig Gradd II\* Caerdydd, a £3m i gysylltu pobl yng ngogledd a gorllewin Belfast ag ardal Divis a'r Mynydd Du eiconig, i £4.3m ar y cyd ar gyfer tair eglwys yng Nghanolbarth a Dwyrain Lloegr i sefydlu eu hunain fel hybiau cymunedol, ac £1.6m i drawsnewid ffatri pibellau ysmygu clai olaf Yr Alban yn ganolfan ddiwylliannol ar gyfer Glasgow. Croesawyd ailagor prosiectau ailddatblygu mawr lle y gwnaethom ddarparu cefnogaeth sylweddol gan y Loteri Genedlaethol, megis Oriol Bortreadau Genedlaethol Llundain, ail-agor Oriolau newydd Yr Alban yn Oriol Genedlaethol Yr Alban, Baddonau Templemore yn Belfast, Hyde Park Picture House ar ei newydd wedd. yn Leeds ac Eglwys Sant Mihangel yn Llanfihangel-y-Creuddyn. Yn erbyn y



cefndir hwn o fuddsoddiadau ac agoriadau, fe wnaethom gryfhau ein cefnogaeth i brosiectau treftadaeth yng nghanol hinsawdd ariannol fwy heriol, trwy ymgysylltiad gweithredol ein timau lleol, cefnogaeth ymgynghorol, grantiau i ariannu cydnerthedd a gwell hyblygrwydd.

Bu'n bleser hefyd i ddathlu effaith ein hariannu ar y rhai sydd wrth wraidd prosiectau treftadaeth, y mae llawer ohonynt yn bobl ifanc. Ym mis Mai fe wnaethom nodi coroni'r Brenin gyda hwb o £1m i'n buddsoddiad yn ein rhaglen Newydd i Natur wych, gan weithio gyda Groundwork UK i greu lleoliadau gwaith ar gyfer bron i 100 o bobl ifanc o gefndiroedd sydd fel arfer heb eu gwasanaethu'n ddigonol gan y sectorau natur ac amgylcheddol. Rhannodd rhai o'r hyfforddeion hynny eu profiadau a'u huchelgeisiau â'r Arglwydd Parkinson, Gweinidog y Celfyddydau, Treftadaeth a Llyfrgelloedd, ASau ac Arglwyddi yn ein digwyddiad seneddol yn San Steffan ym mis Mai.

Eleni nodwyd diwedd ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth pedair blynedd gwerth £4.2m, a ariannwyd ar y cyd â DCMS. Mae'r fenter fuddsoddi £1m hon wedi cyflwyno canlyniadau pellgyrhaeddol trawiadol ar adeg pan fo galw cynyddol am sgiliau digidol ac ymgysylltu: gan ariannu 55 o brosiectau a chefnogi dros 53,000 o unigolion yn gweithio ac yn gwirfoddoli mewn mwy na 6,400 o sefydliadau. O'r prosiectau hynny, nododd 85% gynnydd yn sgiliau a hyder digidol y cyfranogwyr. Bu i ni ddathlu effaith y fenter mewn digwyddiad ym mis Hydref yn yr Amgueddfa Brydeinig, a ddaeth â mwy na 500 o bobl ynghyd wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan gynnwys llawer a oedd wedi elwa o'r ariannu. Bydd yr adnoddau digidol sydd wedi'u datblygu drwy'r fenter yn parhau drwy ein Hyb Treftadaeth Ddigidol a'n harweiniad, megis ein papur briffio diweddar ar y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) yn y sector treftadaeth.

Parhawyd i weld cynnydd cryf o'n Gwobrau Treftadaeth Gorwelion uchelgeisiol gyda thri phrosiect trawsnewidiol yn symud ymlaen i'r cam cyflwyno ym mis Rhagfyr: Parc Morol Cenedlaethol Plymouth Sound (dyfarniad o £11.6m), Great Yarmouth Winter Gardens (£11.8m) a phrosiect Cairngorms 2030 (£10.7m). Ac aeth 17 o'n carfan Cronfa Arloesedd Treftadaeth ymlaen i'r ail gam ariannu gyda grant o hyd at £75,000 yr un i barhau i ddatblygu atebion posibl i'w heriau gweithlu. Mae

eu prosiectau'n amrywio o arbrofi gyda dulliau dysgu a datblygu a yrrir gan AI i harneisio technoleg ddigidol i wella gwaith cadwraeth natur. Unwaith eto, fe wnaethom gefnogi Dinas Diwylliant y DU, gyda grant o £4.95m i Bradford i helpu taflu goleuni ar ei threftadaeth gyfareddol yn 2025. Drwy nifer o flynyddoedd o gefnogaeth i'r Ddinas Diwylliant, rydym wedi gweld o lygad y ffynnon yr effeithiau trawsnewidiol y gall rhaglen dreftadaeth gyffrous eu creu, gan ennyn ymdeimlad dyfnach o gysylltiad a balchder mewn lle a chreu effaith hirdymor.

Drwy gydol y flwyddyn fe wnaethom barhau i weithio gyda sefydliadau ar draws y DU i rannu ein harbenigedd dyfarnu grantiau a mwyafu effaith ariannu ar dreftadaeth. Gan weithio gyda Llywodraeth Yr Alban a NatureScot, fe wnaethom gefnogi 29 o brosiectau gyda chyfanswm buddsoddiad o £2.4m drwy Facility for Investment Ready Nature Scotland i helpu i ddatblygu cynigion ar gyfer buddsoddiad Cyllid Gwyrdd newydd. Bu i ni barhau â'n partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gefnogi adferiad byd natur trwy nifer o raglenni, gan gynnwys Lleoedd Lleol i Natur, Coetiroedd Bach, Y Grant Buddsoddi mewn Coetir a Rhwydweithiau Natur, gan fuddsoddi dros £11m yn 2023–2024. Yn Lloegr, bu i ni gyflwyno Species Survival Fund ar ran Defra, gan ddyfarnu £25m i gefnogi creu ac adfer cynefinoedd llawn bywyd gwyllt. Mae'r holl waith hwn wedi atgyfnerthu ein henw da fel rhoddr grantiau yr ymddiriedir ynom ar draws y DU.

### **Cyflwyno ein mentrau strategol**

Rydym am greu'r effaith a'r budd mwyaf o'n hariannu i dreftadaeth y DU, ac un o'r ffyrdd yr ydym yn gwneud hyn yw drwy'r mentrau strategol wedi'u targedu sydd wedi'u disgrifio yn Treftadaeth 2033. Mae'r mentrau strategol hyn wedi'u dylunio i fynd i'r afael â materion treftadaeth hirsefydlog ar raddfa fawr, cefnogi dulliau cydgysylltiedig traws-tiriogaethol a rhoi syniadau ac arloesiadau newydd ar waith yn gyflym.

Ym mis Hydref, fe wnaethom gyhoeddi'r naw lleoliad cyntaf ar gyfer ein rhaglen Lleoedd Treftadaeth: Dinas Armagh, Banbridge a Craigavon, Swydd Durham, Glasgow, Caerlŷr, Medway, Castell-nedd Port Talbot, Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln, Stoke-on-Trent, a Torbay. Ein huchelgais yw buddsoddi o leiaf £200m mewn 20 o leoedd dros 10 mlynedd ein

# Adroddiad perfformiad (parhad)

strategaeth. Drwy'r ffocws hwn ar waith partneriaeth agos, rydym am roi hwb i falchder mewn lle a chysylltiad â threftadaeth ar draws lleoedd cyfan yn hytrach na phrosiectau unigol.

Ein nod yw gwneud treftadaeth yn rhan annatod o gynlluniau a dulliau a fydd yn gwneud ardaloedd lleol yn lleoedd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â nhw. Mae ein hymrwymiad i Leoedd Treftadaeth yn adeiladu ar ein hanes a'n harbenigedd wrth ariannu creu lleoedd: o'r Grantiau Treftadaeth Gorwelion a'r Ardaloedd Ffocws a gyflwynwyd o dan ein strategaeth flaenorol, i bartneriaethau fel ein Cynllun Great Places. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ymchwilio i ddwy fenter strategol arall gyda phartneriaid: bydd un yn canolbwyntio ar gyflwyno adferiad byd natur trefol trwy barciau hanesyddol a mannau gwyrdd ffyniannus, a'r llall ar gysylltu a gwella natur ar raddfa tirweddau. Disgwyliwn i'r ddwy fenter hyn lansio yn 2024.

Mae gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd yn alluogwyr pwysig i helpu manteisio i'r eithaf ar effaith ein buddsoddiad trwy Treftadaeth 2033. Rydym wedi'n ymrwymo i rannu arbenigedd a galw ar gysylltiadau a rhwydweithiau eraill i sicrhau bod ein hariannu'n cyrraedd y lleoedd sydd ei angen fwyaf. Eleni fe wnaethom ymrwymo £5m i weithio gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaerniol i ddod ag adeiladau treftadaeth segur yn ôl i ddefnydd, bron i £2m i helpu i gynyddu cydnherthedd addoldai gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, a chydweithiodd ein staff â Grwpiau Trefi Ardal Lleol ar draws Lloegr i adfywio lleoedd a sicrhau ffyniant bro. Bu i ni weithio gyda Historic England ar y rhaglen High Street Heritage Action Zones i ddod â diwylliant i galon trefi a chymunedau Lloegr a pharhau i gydweithio ar ein panel ymchwil ar y cyd, Pwls Treftadaeth y DU, i gofnodi mewnwelediadau gwerthfawr o bob rhan o'r sector treftadaeth.

Roedd y flwyddyn hon hefyd yn un bwysig i holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol wrth i ni newid i weithredwr newydd, Allwyn, ym mis Chwefror 2024. Bu i ni weithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a dosbarthwyr eraill i gefnogi pontio llwyddiannus ac i baratoi i ddathlu 30 mlynedd ers sefydlu'r Loteri Genedlaethol ym mis Tachwedd 2024. Chwaraeodd ein staff rôl arwyddocaol wrth gyflwyno digwyddiad seneddol y ben-blwydd yn

29 oed ym mis Tachwedd, a fu'n cynnwys enillwyr gwobrau'r Loteri Genedlaethol fel gwesteion arbennig – llawer ohonynt o brosiectau treftadaeth yr ydym wedi'u hariannu.

## Ein darpariaeth weithredol

Rhoi Treftadaeth 2033 ar waith oedd ein ffocws gweithredol eleni: datblygu'r cyfathrebiadau, y systemau, prosesau a hyfforddiant yr oedd eu hangen i ddod â'r strategaeth newydd yn fyw. Ym mis Ionawr, lansiwyd ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol newydd a symlach. Fe wnaethom symleiddio'r broses o wneud cais am grant, gan ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr grant ddweud wrthym am y prosiect treftadaeth y maent eisiau ei gyflwyno. Gwnaethom hefyd symleiddio ein gofynion ar gyfer ceisiadau am grantiau llai. Mae ein Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol cyntaf o dan yr arweiniad a'r prosesau newydd eisoes wedi'u gwneud. I gefnogi'r strategaeth newydd, rydym hefyd wedi penodi rhestr newydd o ymgynghorwyr i'n fframwaith gwasanaethau cefnogi: rhwydwaith o arbenigwyr a fydd yn chwarae rôl bwysig wrth fonitro'r prosiectau a ariannwn a mentora grantïon a darpar ymgeiswyr.

Yn sgil symud i'n gwasanaeth rheoli buddsoddiadau newydd (y darparwyd manylion amdano yn 2022–2023), eleni fe wnaethom gyfuno ein seilwaith adrodd yn llwyddiannus a dechrau gweld manteision ein buddsoddiad mewn Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), gan gwblhau ein prosiect peilot GIS cyntaf fel rhan o gyflwyno Species Survival Fund. Rydym wedi'n hymrwymo i wella ein hymagwedd at ddefnyddio a rhannu'r data rydym yn ei gasglu a pharhau i gyhoeddi manylion ein grantiau i 360Giving hefyd ar ein gwefan ein hunain ac ar gronfa ddata Grantiau Loteri Genedlaethol DCMS. Rydym yn cydweithio'n agos â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i wella ansawdd a defnyddioldeb y data a gedwir gan bob sefydliad sy'n gysylltiedig â grantiau'r Loteri Genedlaethol.

## Edrych tuag at y dyfodol

Gyda'n strategaeth Treftadaeth 2033 bellach yn gweithredu'n dda, ein huchelgais ar gyfer y flwyddyn i ddod yw sicrhau bod ein fframwaith wedi'i symleiddio o egwyddorion buddsoddi – achub treftadaeth; diogelu'r amgylchedd; cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad; a

chynladwyedd sefydliadol – yn galluogi prosiectau arloesol ac uchelgeisiol o bob maint, a fydd yn gwireddu ein gweledigaeth. Trwy ein mentrau strategol, byddwn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau mewn treftadaeth a threftadaeth mewn angen, lle y bu ceisiadau yn hanesyddol heb gael eu cyflwyno i'n rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Trwy gydol ein darpariaeth byddwn yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyblygrwydd ac ymateb yn gyflym pan fydd angen: o achub treftadaeth sydd mewn perygl a chefnogi caffael treftadaeth eithriadol, i ymateb i gyfleoedd, argyfyngau a dathlu digwyddiadau arwyddocaol.

Dim ond diolch i waith caled y rhai sy'n gofalu am dreftadaeth ac yn cydweithio gydag angerdd a phwrpas dros dreftadaeth ar draws y DU y mae'r holl ymdrechion hyn eleni – a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol – yn bosibl.

## Ein diben a gweithgareddau

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) wedi'i breinio mewn a'i gweinyddu gan gorff corfforedig sydd wedi'i adwaen fel Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys Cadeirydd ac uchafswm o 14 o aelodau eraill sydd wedi'u penodi gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd CGDG ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 (Deddf 1980) yn olynol i'r Gronfa Tir Cenedlaethol fel coffâd i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y Deyrnas Unedig. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan lywodraeth y DU i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (Deddf 1993), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 (Deddf 1997) a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998 (Deddf 1998).

O dan Ddeddf 1993, daeth CGDG yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a ddyrannir i dreftadaeth. Mae'n rhaid i CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer ei gweithrediad fel dosbarthwyr arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannir o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer

cyllid a dderbynnir o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adran 21(1) Deddf 1993, cynhelir cronfa a adwaenir fel Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) o dan reolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Telir yr holl symiau a dderbynnir gan drwyddedai'r Loteri Genedlaethol o dan adran 5(6) i Ysgrifennydd Gwladol DCMS a'u rhoi yn CDLG. Mae CGDG yn gwneud cais i CDLG am gyllid i gwrdd â'r rhwymedigaethau o ran taliadau grant a threuliau gweinyddu'r Loteri Genedlaethol.

O dan adran 22 Deddf 1993, bydd Ysgrifennydd Gwladol DCMS yn dyrannu 20% o'r swm a delir i CDLG ar gyfer gwariant ar, neu'n gysylltiedig â'r dreftadaeth genedlaethol. Mae adran 23(3) yn sefydlu Ymddiriedolwyr CGDG fel dosbarthwyr y gyfran honno.

Mae'r cyfrifon hyn ar gyfer gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn unig wedi cael eu paratoi ar ffurf a bennwyd gan Ysgrifennydd Gwladol DCMS gyda chydsyniad Trysorlys EF yn unol ag Adran 35(3) Deddf 1993.

O dan adrannau 3 a 3a Deddf 1980, gall CGDG wneud grantiau a benthyciadau at ddiben caffael, cynnal neu ddiogelu:

1. unrhyw dir, adeilad neu adeiledd sydd, ym marn yr ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, archeolegol, pensaernïol neu wyddonol eithriadol
2. unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol
3. unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sef casgliad neu grŵp sydd, yn ei gyfanrwydd, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy

Mae adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd wedyn) yn ymestyn pwerau ymddiriedolwyr i wella'r ffordd y caiff eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol eu harddangos. Gwneir hyn drwy ddarparu cymorth ariannol i adeiladu, addasu neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a ddyluniwyd i hybu mwynhad y cyhoedd, neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1997, gall yr ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau a anelir at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r

# Adroddiad perfformiad (parhad)

dreftadaeth ac at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Rhoddodd Deddf 1998 y pŵer i ymddiriedolwyr wneud grantiau refeniw i ehangu mynediad i dreftadaeth ac i ddirprwyo penderfyniadau ar grantiau Loteri Genedlaethol i staff a hefyd i bwyllgorau sy'n cynnwys rhai aelodau nad ydynt yn ymddiriedolwyr.

Gan ddefnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn darparu adnoddau ar gyfer prosiectau treftadaeth ar draws y DU. Rydym wedi adeiladu cofnod cadarn o wneud grantiau dros dreftadaeth, gyda phrofiad sylweddol o ddsbarthu arian y Loteri Genedlaethol, a thimau arbenigol a leolir ar draws y DU. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn un o ffynonellau ariannu treftadaeth pwysigaf y DU.

## Ein risgiau allweddol

Drwy gydol y flwyddyn, daeth ein gweithrediadau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ar draws risgiau amrywiol, ac ymdriniwyd â phob un ohonynt yn llwyddiannus ac yn effeithlon i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar ein hymgeiswyr/grantion, rhanddeiliaid, a'r Gronfa Treftadaeth. Hysbyswyd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a rhoddwyd sicrwydd iddynt am ein mesurau lliniaru i'r risgiau hyn trwy eu hadolygiad eu hunain yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a gyda'r archwiliad trylwyr a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar eu rhan.

## Risgiau allanol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu i ni wynebu risgiau allanol yn deillio o ansicrwydd economaidd a gwleidyddol, a hynny yn y DU a thu hwnt. Yn benodol, effeithiodd chwyddiant a phwysau cost cynyddol ar ein hymgeiswyr, grantion, a'r prosiectau y gwnaethom eu hariannu.

O ganlyniad i'r pwysau economaidd hyn roedd angen i ni reoli'r ymchwydd mewn ceisiadau am gynnydd mewn grantiau, yn bennaf oherwydd costau deunyddiau uwch, o fewn y gronfa ariannu oedd ar gael ar gyfer yr holl brosiectau. Cyflawnwyd hyn heb unrhyw effaith andwyol ar ein gallu i ariannu gweithgarwch newydd, yn rhannol trwy'r penderfyniad i gynyddu ymrwymadau grant yn gyffredinol eleni trwy ddefnyddio cronfeydd arian wrth gefn.

Risg allanol sylweddol arall oedd ansicrwydd o ran incwm gan y Loteri Genedlaethol. Mae hyn yn ymwneud â gostyngiad posibl yn incwm y loteri sy'n deillio o amodau economaidd ehangach sydd wedi lleihau gwerthiannau ac o bontio o weithredwr blaenorol y Loteri Genedlaethol (Camelot) i'r gweithredwr newydd (Allwyn) ym mis Chwefror 2024. Gostyngodd incwm ychydig ar gyfer y flwyddyn adrodd, ond dim ond o fewn paramedrau amrywiad blynyddol arferol.

Rydym yn llawn ymwybodol o risg ymosodiadau seibr. Mae seiberddiogelwch yn her gynyddol, ac rydym wedi cryfhau ein mesurau rheoli a'n prosesau'n gyson i liniaru'r risg hon. At hynny, mae'r Gronfa Treftadaeth wedi cynnal achrediad at y safon seiberddiogelwch a argymhellir gan y Cyngor Seiberddiogelwch Cenedlaethol, Cyber Essentials Plus.

## Risgiau mewnol

Roedd adnoddau staff, yn enwedig recriwtio, yn parhau i fod yn her mewn marchnad swyddi iach, yn enwedig i'r rhai â sgiliau TG a data. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar y cynnig gwerth ehangach i gyflogeion er mwyn denu doniau newydd tra'n canolbwyntio ar gadw staff a chyfleoedd mewnol i leihau ein cyfradd trosiant staff.

Rydym yn parhau i fod yn effro i'r posibilrwydd o dwyll mewnol ac allanol mewn perthynas â gweithgareddau gwneud grantiau. I liniaru'r risg hon, mae'n ofynnol i bob aelod o staff gymryd rhan mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll, gan gynnwys sesiynau a ddarperir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae ein timau a swyddogion buddsoddi'n wylidwyrus yn erbyn twyll a byddant yn nodi ac yn adrodd yn brydlon ar unrhyw bryderon neu ddangosyddion twyll posibl sy'n gysylltiedig â grantiau a ddyfarnwyd.

Yn olaf, bu i ni reoli'r gwaith parhaus o bontio o'n system rheoli grantiau etifeddol i'n system rheoli buddsoddiadau newydd mewn ffordd effeithiol. Eleni, cyflwynwyd swyddogaethau arwyddocaol mewn pryd i wahodd ceisiadau o dan ein dull buddsoddi Treftadaeth 2033 newydd. Mae gwaith datblygu pellach i'w wneud mewn perthynas â dyfarnu a monitro grantiau, a bydd hyn yn parhau i fod yn risg sylweddol yn y flwyddyn fusnes nesaf.

## Treftadaeth 2033

Ers cyhoeddi Treftadaeth 2033 rydym wedi bod yn gweithio i weithredu'r weledigaeth 10 mlynedd uchelgeisiol hon i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol. Yn y cyntaf o'n cynlluniau cyflwyno tair blynedd, gwnaethom nodi sut rydym yn bwriadu buddsoddi dros £1bn rhwng 2023 a 2026; newidiadau i'n Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol; a'n blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi, gan gynnwys mentrau strategol.

Yn ystod 2023–2024 gwnaethom gyflwyno trothwy buddsoddi uwch o £10m er mwyn buddsoddi mewn prosiectau treftadaeth uchelgeisiol sy'n rhannu ein cred yng ngrym treftadaeth i ddod â phobl ynghyd, meithrin balchder yn eu lle a chysylltu â'r gorffennol.

Ym mis Ionawr, fe wnaethom gyrraedd carreg filltir Treftadaeth 2033 fawr drwy lansio ein Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol newydd a symlach ynghyd â phroses symlach i ymgeiswyr. Mae Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wrth wraidd yr hyn a wnawn – rhoi'r cyfle mwyaf posibl i wneud cais am arian treftadaeth. Eleni, rhwng y fframwaith blaenorol a Threftadaeth 2033, cawsom dros 2,000 o geisiadau, ac roeddem yn falch o gefnogi bron i 1,300 o brosiectau gyda dros £293m a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gwnaethom gyflwyno trydedd flwyddyn o'r Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, sydd â'r nod o adfer cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau sydd o dan fygythiad a gwella mannau gwyrdd lleol i bobl mewn ardaloedd difreintiedig. At hynny, bu i ni greu partneriaeth â Defra i ddarparu Species Survival Fund, menter gwerth £25m sydd â'r nod o helpu atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn toreth y rhywogaethau drwy warchod cynefinoedd naturiol.

Bu i ni gyflwyno cytundebau ariannu newydd gyda phartneriaid treftadaeth megis y Gronfa Treftadaeth Bensaerniol a'r Ymddiriedolaeth Eglwys Genedlaethol, gan fuddsoddi mewn adeiladu gallu sefydliadau treftadaeth a lle y gwelir anghenion sylweddol o ran treftadaeth.

## Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu bod gan lywodraeth y DU unrhyw gynlluniau i newid canran arian achosion da'r Loteri Genedlaethol y mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) yn ei dderbyn nac i newid dosbarthwyr yr arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol.

Mae llywodraeth y DU yn parhau i gymeradwyo ein rôl dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a'r gwerth y mae hynny'n ei greu ar gyfer eu hagenda polisi mewn meysydd fel Ffyniant Bro.

Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu na fydd eu prif ffynhonnell incwm – Y Loteri Genedlaethol – yn parhau i gynhyrchu symiau rhesymol ar gyfer y Gronfa Treftadaeth. Mae ein rhagamcanion o ran y balans yng Nghronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) ac incwm gan y loteri'n parhau'n uchel a sefydlog. Gan hynny, nid oes gan y Bwrdd unrhyw reswm dros gredu na fydd y Gronfa Treftadaeth yn parhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

## Dadansoddiad o berfformiad

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa: ei chronfa cymorth grant (CGDG) a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (y Gronfa Treftadaeth). Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol iddi gyfrif am y gweithgareddau hyn ar wahân ac ni pharatoir cyfrifon cyfunol.

Mae'r adroddiad hwn yn trafod gwaith dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn unig. Diben yr adran hon yw trafod perfformiad CGDG wrth ddosbarthu arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol yn 2023–2024. Mae'r dadansoddiad isod yn trafod uchafbwyntiau ariannol y flwyddyn gan gynnwys symudiad sylweddol ar y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn ogystal ag ar rai dangosyddion perfformiad allweddol.

Yn 2023–2024, ein hincwm gan y Loteri Genedlaethol oedd £344.7m. Roedd hyn £16.3m yn llai na'r rhagamcaniad ar gyfer y flwyddyn. Cododd ein cyfran o incwm buddsoddi o CDLG o £7.1m i £16.8m. Yr enillion o fuddsoddiadau oedd 5.16% o gymharu â 2.32% yn 2022–2023. Cododd

# Adroddiad perfformiad (parhad)

ein balansau arian parod cyffredinol (arian parod yn y banc ac arian parod yng CDLG) o £531.8m i £630.7m. Rydym yn parhau i reoli'r balans CDLG i sicrhau ein bod yn gwneud taliadau arian parod amserol i achosion da tra'n sicrhau balansau digonol yn CDLG i gwrdd â rhwymedigaethau presennol. Mae ein rhwymedigaethau grant yn cynnwys prosiectau refeniw â therfyn amser a phrosiectau cyfalaf. Mae'r rhwymedigaethau grant yn cael eu cydnabod yn llawn ar adeg ymrwymo iddynt, ond bydd taliadau grant ar gyfer cynlluniau cyfalaf yn cael eu gwneud dros nifer o flynyddoedd wrth i'r prosiectau gael eu cyflwyno. O ganlyniad, mae'n angenrheidiol i'r Gronfa Treftadaeth gadw balansau arian parod sylweddol.

Cododd balans y rhwymedigaethau grant o £551.8m ar ddechrau'r flwyddyn i £657.8m ar ddiwedd y flwyddyn wrth i werth y dyfarniadau newydd net fynd yn uwch na gwerth y taliadau grant. Cododd lefel y rhwymedigaethau grant newydd a grëwyd o £199.2m i £338.1m. Cymeradwyodd y Bwrdd gynnydd i'r gyllideb grantiau ym mis Rhagfyr 2023 er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol o dan Treftadaeth 2033. Fe wnaethom drosi llawer o'n rhwymedigaethau amodol a grëwyd mewn blynyddoedd blaenorol i rwymedigaethau grant llawn. Ar gyfer 2023–2024, y ffigur hwn oedd £118.6m (£68.1m yn 2022–2023).

Roedd lefel y dadymrwymiaid yn 2023–2024 yn is nag yn 2022–2023 (£6.6m yn 2023–2024; £11.0m yn 2022–2023). Roedd lefel y taliadau grant a wnaed yn 2023–2024 hefyd yn is nag yn 2022–2023 (£234.5m yn 2023–2024; £252.7m yn 2022–2023).

Ar 31 Mawrth 2024 roedd gennym £1.06bn (2022–2023: £882.1m) o ymrwymiaidau sy'n weddill mewn perthynas â rhwymedigaethau grant (gan gynnwys rhwymedigaethau amodol) ac roedd gennym £628.9m (2022–2023: £526.8m) yn CDLG i'w talu. Felly mae gennym ymrwymiaidau o £434.7m (2022–2023: £355.3m) uwchlaw ein balans CDLG presennol. Mae hyn gyfwerth ag oddeutu pymtheg mis o incwm y Loteri Genedlaethol yn y dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcanion incwm presennol.

Cododd ein costau gweithredu 4.71% o £26.3m yn 2022–2023 i £27.6m yn 2023–2024, wrth i ni bontio i'n strategaeth Treftadaeth 2033 newydd

## Dangosyddion perfformiad allweddol

Yn 2023–2024 ein costau gweithredu ar gyfer gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol oedd 6.87% o incwm y Loteri Genedlaethol a 6.53% dros gyfartaledd treigl tair blynedd. Mae hyn o fewn y targed trothwy DCMS dros dro presennol o 8.00% (targed o 8.00% yn 2023–2024 a 2024–2025, gan ddychwelyd i 7.75% yn 2025–2026).

Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 9 i'r cyfrifon.

## Symiau taladwy

Mae CGDG yn glynu wrth y safon llywodraeth gyfan ar dalu anfonebau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n nodi y dylid talu pob anfoneb ddilys o fewn 30 niwrnod. Talwyd dros 95% o anfonebau o fewn 30 niwrnod calendr yn 2023–2024 (2022–2023: 91%).

Rydym hefyd yn mesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr gan ddefnyddio'r gymhareb dyddiau credydwr. Dyma gymhareb y symiau taladwy masnachol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth y pwrcasiadau yn y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau calendr. Ar 31 Mawrth 2024, y ffigur oedd 24 diwrnod (2021–2022: 38 diwrnod).

## Polisiâu amgylcheddol ac adrodd am gynladwyedd

Eleni fe wnaethom barhau i gyflwyno yn erbyn ein cynllun datgarboneiddio i gyrraedd sero net ar gyfer ein gweithrediadau erbyn 2030. Fe wnaethom wella ansawdd ein data teithio trwy benodi cyflenwr newydd sy'n ein galluogi i ddeall ein patrymau teithio ar sail fisol.

Gwnaethom hefyd wella'r broses o gofnodi mathau o gerbydau, gan ei gwneud hi'n haws mesur y defnydd o gerbydau trydan. Fe wnaethom gynnal adolygiad o'n swyddfeydd i sicrhau bod y gofod sydd gennym wedi'i optimeiddio. Ar yr un pryd, fe wnaethom gyflwyno dulliau newydd o weithio sy'n galluogi staff i gyrchu gofodau cydweithio yn ogystal â'n swyddfeydd.

Yn unol â'n cynllun cyflwyno strategaeth, fe wnaethom ymwreiddio cynladwyedd amgylcheddol ymhellach yn ein diwylliant sefydliadol. Cyflwynwyd cynladwyedd a'n hymagwedd sefydliadol tuag ato i'n proses recriwtio a chroesawu staff. Trwy

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

		2023–24	2022–23	2021–22
Allyriadau nwyon tŷ gwydr	Allyriadau Cwmpas 1 (tCO <sub>2</sub> e)	1.9	2	26
	Allyriadau Cwmpas 2 (tCO <sub>2</sub> e)	26	33	44
	Allyriadau Cwmpas 3 (tCO <sub>2</sub> e)	101	94	70
	Cyfanswm allyriadau gros (tCO <sub>2</sub> e)	129	130	140
Defnydd o ynni a dŵr	Trydan (kWh)	126,783	169,109	207,051
	– o ffynonellau adnewyddadwy (kWh)	59,895	19,211	27,777
	– o ffynonellau anadnewyddadwy (kWh)	66,888	149,898	179,274
	Nwy (kWh)	10,510	13,588	140,457
	Dŵr (m <sup>3</sup> )	559	436	1,530
Gwariant (£'000)	Cyfleustodau (gan gynnwys rhent a thaliadau gwasanaeth)	1,030	624	329
	Teithio busnes (gan gynnwys llety)	380	422	172

## Isafu a rheoli gwastraff

		2023–24	2022–23	2021–22
Gwastraff (tunelli)	Peryglus – gan gynnwys WEEE*	0.011	0.001	0
	Tirlenwi	0.037	0	0
	Ynni o wastraf	59	1.92	0.77
	Ailgylchu cymysg	33	1.15	0.43
	Cyfanswm gwastraff	92	3.25	1.20
Gwariant ar wastraff (£'000)	Cyfanswm gwastraff (gan gynnwys glanhau yn 2020–21)	wedi'i gynnwys mewn cyfleustodau	wedi'i gynnwys mewn cyfleustodau	26

\* WEEE = cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

## Defnydd meidraidd o adnoddau

		2023–24	2022–23	2021–22
Adnoddau meidraidd	Dŵr (m <sup>3</sup> )	559	436	1,530
	Defnydd o bapur (taflenni)	31,000	33,340	6,903
	Defnydd o bapur (kgCO <sub>2</sub> e)	140	152*	31

\* Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â defnyddio papur yn 2022–2023 wedi'u hailddatgan oherwydd gwall cyfrifo. Fe'i nodwyd yn flaenorol fel 3.5.

ein Hyrwyddwyr Diwylliant a'n Cynllun Effaith Werdd i'r sefydliad cyfan, fe wnaethom barhau i ymgysylltu â staff.

Mae ein strategaeth Treftadaeth 2033 yn ein hymrwymo i leihau ôl troed carbon y prosiectau a ariannwn. Er mwyn symud ymlaen gyda'r uchelgais hwn, cwblhawyd prosiect ymchwil a wellodd ein dealltwriaeth o sut y gallwn fesur effaith amgylcheddol ein portffolio ac archwilio llwybrau tuag at ddatgarboneiddio. Gobeithiwn y bydd y darn arloesol hwn o waith yn cefnogi gwaith cyrff

hyd braich eraill, arianwyr a'r sector treftadaeth ehangach.

Yn ogystal â'n hymrwymiad sero net erbyn 2030 i'n gweithrediadau, bu i ni ymrwymo i leihau effaith carbon ein buddsoddiadau erbyn 2050.

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Er gwaethaf lleihau effaith amgylcheddol ein hystâd o swyddfeydd, rydym wedi allyrru lefel debyg o nwyon tŷ gwydr â'r llynedd. Roedd hyn oherwydd effaith amgylcheddol ein teithiau busnes:

# Adroddiad perfformiad (parhad)

gwnaethom deithio 60,000km yn fwy eleni nag yn 2022–2023, (gweler y tabl ar dudalen 11).

Fe wnaethom barhau i adolygu ein swyddfeydd, gan sicrhau eu bod yn bodloni ein hanghenion busnes a nodi cyfleoedd i leihau ein heffaith amgylcheddol. Eleni fe wnaethom leihau cyfanswm arwynebedd ein swyddfeydd o 858m<sup>2</sup> i 803m<sup>2</sup> a dewis gofodau mwy ynni-effeithlon gyda darparwyr swyddfeydd sy'n blaenoriaethu cynaladwyedd amgylcheddol. Fe wnaethom adleoli ein swyddfeydd yng Nghaeredin a Chaerwysg, gan arbed 3.3 tonnelli o CO<sub>2</sub>e trwy ddewis mannau mwy effeithlon neu lai o ran maint. Drwy weithio gyda landlordiaid, gwnaethom hefyd gynyddu'r defnydd o ddarparwyr ynni adnewyddadwy. Daeth tua 47% o'r trydan a ddefnyddiwyd gennym mewn swyddfeydd y llynedd o ffynonellau adnewyddadwy.

Gan mwyaf, roedd landlordiaid yn gallu darparu data wedi'i ddosrannu am y defnydd o nwy a thrydan mewn saith o'n 11 o swyddfeydd, sef 44% o gyfanswm yr ystâd. Lle nad oedd y data ar gael, defnyddiwyd data EPC fel procsi, yn unol â blynyddoedd blaenorol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn fwy ceidwadol na'r defnydd gwirioneddol.

Mae'r data gwariant a ddarperir yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rhedeg a rheoli'r gofod swyddfa. Mewn blynyddoedd blaenorol bu'n bosibl i raddau helaeth i ni wahanu costau cyfleustodau oddi wrth gostau rhent. Fodd bynnag, 2023–2024 oedd y flwyddyn ariannol gyntaf pan oedd ein holl swyddfeydd yn ofodau a wasanaethir. Mewn perthynas â chyfleustodau mae'n llawer uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol gan ei fod yn adlewyrchu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â gofodau swyddfa. Yn ogystal â'r gwahaniaeth adrodd hwn, mae costau sy'n gysylltiedig â swyddfeydd wedi codi'n sylweddol dros y 18 mis diwethaf.

Ni fu i ni gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithio gartref yn ein hadroddiad am fod y rhain y tu hwnt i gwmpas y canllawiau adrodd ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arfer gorau. Ar yr un pryd, rydym yn monitro defnydd trydan amcangyfrifedig dyfeisiau gan mai hyn sydd fwyaf tebygol o gyfrannu'n ychwanegol at effaith amgylcheddol gweithio gartref, a byddwn yn defnyddio'r data hwnnw i gyfeirio caffael yn y dyfodol.

Wrth adrodd ar ein teithiau busnes, fe wnaethom gynnwys gorfodi ymbelydrol wrth gyfrifo effaith ein hedfan, i adlewyrchu gwir effaith amgylcheddol y gweithgaredd hwn. Erbyn hyn mae gennym well mewnwelediad i'n teithiau ar y ffyrdd a gallwn nodi y cwblhawyd 10% o'r pellter a deithiwyd mewn cerbydau mewn cerbydau trydan neu hybrid. Byddwn yn parhau i olrhain y duedd hon yn y dyfodol.

## Lleihau a rheoli gwastraff a'r defnydd o adnoddau meidraidd

Yn dilyn ailagor ein swyddfeydd ar ôl y pandemig, gwelsom ostyngiad enfawr mewn gwastraff drwy ein swyddfeydd. Gellir cyfrif am hyn yn rhannol oherwydd symud i waith hybrid a swyddfeydd llai, ond roeddem hefyd yn ymwybodol o heriau o ran adrodd ac rydym wedi bod yn gweithio gyda'n landlordiaid dros y 12 mis diwethaf i fynd i'r afael â hyn. Mae ein data gwastraff ac ailgylchu cyffredinol yn gyfyngedig gan ei fod yn dibynnu ar ddata a adroddir gan landlordiaid. Lle darparwyd data wedi'i ddosrannu, defnyddiwyd hwn i bennu gwerth cyfartalog fesul m<sup>2</sup> wedi'i allosod ar gyfer yr ystâd gyfan. Darparwyd data gwirioneddol ar gyfer 44% o'r ystâd, defnyddiwyd amcangyfrif ar gyfer 56%. Mae'r dull hwn o gyfrifo yn welliant o flynyddoedd blaenorol, gan arwain at gynydd yn y gwastraff a adroddir. Fe wnaethom ddefnyddio dull tebyg o gyfrifo'r defnydd o ddŵr, (gweler y tabl ar dudalen 11).

Fe wnaethom barhau i weithio i wella arferion yn y swyddfeydd a ddefnyddiwn. Er enghraifft, drwy ymgysylltiad staff â'n landlord yng Nghaerdydd, cyflwynwyd casgliad gwastraff bwyd. Bu i ni barhau i redeg Cynllun Effaith Werdd ar draws y sefydliad sydd, ymhlith meysydd eraill, wedi canolbwyntio'n allweddol ar isafu a gostwng gwastraff plastigau untro, gan gydnabod bod lleihau gwastraff yn ddibynnol ar newid diwylliant ac ymddygiad ein staff.

Mae'r defnydd o bapur wedi aros ar lefel debyg i'r llynedd ac mae'n llawer uwch nag a welwyd pan oedd y swyddfeydd ar gau yn 2020–2021 a 2021–2022. Fodd bynnag, mae'n chwarter y gyfradd ddefnyddio a gofnodwyd yn 2019–2020 gan fod newid mewn arferion gwaith wedi arwain at gynydd mewn dogfennau digidol yn hytrach na rhai ffisegol. Bu i ni gyflwyno porth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor a bwrdd i hwyluso gostyngiad yn y dyfodol.



Gwnaethom barhau i flaenoriaethu ailwerthu ac ailddefnyddio ein hen ddyfeisiau, a nodwyd 79 ohonynt i'w hailwerthu eleni drwy bartner trydydd parti. Fe wnaethom adnewyddu ein ffonau symudol hynaf i sicrhau ein bod yn cynnal lefel uchel o ddiogeledd. O ystyried oedran y dyfeisiau hyn nid oedd yn ymarferol eu haildefnyddio, a gwnaethom sicrhau eu bod yn cael eu hailgylchu'n briodol.

### **Cynllunio gweithredu adferiad byd natur a bioamrywiaeth**

Nid ydym yn berchen ar unrhyw dir nac amgylcheddau naturiol. Ein heffaith fwyaf ar fydd natur yw trwy roi grantiau. Mae ein strategaeth newydd wedi cyflwyno ffocws ar adferiad byd natur yn ogystal ag ymwreiddio natur yn ein mentrau strategol. Gofynnwn i bob prosiect adrodd ar eu perfformiad amgylcheddol. Mae ein harweiniad ar gael ar ein gwefan.

### **Caffael cynaliadwy**

Yn 2023–2024 fe wnaethom dendro am fframwaith newydd o'n Cofrestr Gwasanaethau Arbenigol (RoSS). Sicrhawyd bod effaith amgylcheddol wedi'i hymwreiddio drwy gydol y broses, gan ofyn i bob cyflenwr leihau eu heffaith amgylcheddol. Rhoddwyd arweiniad i gydweithwyr i gefnogi asesu'r tendrau a chyflawni cysondeb.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu ein polisiau caffael cynaliadwy i gyd-fynd â'r Ddeddf Caffael newydd.

### **Addasu i'r newid yn yr hinsawdd**

Mae ein hystâd ffisegol yn fach ac yn ystwyth. Gan nad ydym yn berchen ar seilwaith nac yn ei weithredu, mae'r risg i'n sefydliad o newid yn yr hinsawdd wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ddiogelwch a lles staff a'r risg bosibl i barhad busnes os bydd cynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol. Ymdrinnir â'r risgiau cysylltiedig yn y cofrestrau risg priodol ac nid ydym yn ystyried addasu i newid yn yr hinsawdd ar hyn o bryd, fodd bynnag byddwn yn parhau i adolygu hyn.

### **Lleihau effeithiau amgylcheddol TGCh a digidol**

Gwnaethom gynnydd mawr o ran lleihau effaith amgylcheddol TGCh a digidol. Bu i ni newid ein hymagwedd at asedau ffisegol i leihau'r defnydd o dechnoleg newydd. Roedd hyn yn golygu cyflwyno system optio allan ar gyfer ffonau symudol, a oedd yn arfer cael eu rhoi i bob aelod

o staff fel mater o drefn, a diwygio ein huwchraddiadau technoleg o newid llwyr bob tair blynedd i newidiadau treigl fel y bo angen. Parhawyd i weithio gyda phartneriaid ailwerthu technoleg i'n galluogi i gynnig ein technoleg i'w haildefnyddio unwaith nad oedd modd ei defnyddio mwyach mewn lleoliad gwaith dwys.

Er mwyn lleihau ein hól troed digidol, rydym yn monitro'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o storio ffeiliau ac e-byst. Lleihawyd nifer y systemau etifeddol trwy ddatgomisiynu a mudo ein meddalwedd rheoli grantiau blaenorol a'r rhwydweithiau a'r systemau a oedd yn ei gefnogi. Fe wnaethom wella ein polisiau cadw, gan gymhwyso cadw i negeseuon mewnol a'n llwyfan cyfathrebu â gweithwyr, sy'n ein galluogi i leihau ein gofod storio'n gyffredinol.

### **Amcanion polisi a thargedau**

Rydym wedi gosod targed i gyrraedd allyriadau sero-net ar gyfer ein gweithrediadau erbyn 2030. I wneud hyn, y prif feysydd ffocws yw ein swyddfeydd, seilwaith TG, teithio a'n cadwyn gyflenwi. Bu i ni roi targedau ar waith i gynyddu effeithlonrwydd ynni'r swyddfeydd yr ydym yn eu defnyddio dros y chwe blynedd nesaf hyd at 2030. Cyflawnwyd targed eleni drwy ddewis swyddfeydd llai yng Nghaerwysg a Chaeredin a blaenoriaethu perfformiad ynni wrth ddewis gofodau newydd.

O ran teithio, aethpwyd dros ein targed allyriadau o 77 tunnell CO<sub>2</sub>e, gan gyfrannu 87 tunnell o CO<sub>2</sub>e eleni. Roedd hyn oherwydd cynnydd cyffredinol mewn teithio, yn enwedig teithiau awyr lle aethom 117% dros ein targed. Mae lleihau'r cyfanswm teithio'n parhau i fod yn heriol. Ein nod yw teithio 100,000km yn llai bob blwyddyn gyda tharged ar gyfer 2023–2024 o 1m o gilomedrau (1.28m o gilomedrau oedd y pellter a deithiwyd mewn gwirionedd). Yn y dyfodol, byddwn yn adolygu ein polisi teithio a chynhaliaeth ac yn gweithio i ddarparu canllawiau clir ar deithio cynaliadwy. Hyd yn oed gyda staff sydd wedi'u lleoli'n rhanbarthol, bydd angen rhywfaint o deithio bob amser yn ein gwaith er mwyn i staff ymweld â phrosiectau a derbynyddion grantiau ar eu safleoedd ond rydym am sicrhau bod y teithio hwn mor gynaliadwy â phosibl. Byddwn hefyd yn gweithio gyda thimau sydd â'r lefelau teithio uchaf i nodi rhwystrau i leihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau.

# Adroddiad perfformiad (parhad)

Bu i ni barhau i weithio i ddeall ôl troed carbon y prosiectau a ariannwn ac i bennu targed gostwng seiliedig ar wyddoniaeth, sy'n cynnwys yr allyriadau hyn. Trwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith amgylcheddol y prosiectau rydym yn eu hariannu, gobeithiwn y bydd modd i ni ddarparu cymorth ymarferol i'r sector treftadaeth wrth bontio i ddyfodol cynaliadwy.


## Paratoi ardaloedd gwledig ar gyfer y dyfodol

Mae gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol gyrhaeddiad cenedlaethol, gan gefnogi prosiectau ym mhob cwr o'r DU. Mae llawer o'n prosiectau mewn ardaloedd gwledig ac mae ein buddsoddiadau'n helpu creu swyddi a chefnogi cymunedau. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu, gan gynnwys cynrychiolaeth, mynediad at gludiant cyhoeddus, ac argaeledd a chydaddoldeb gwaith cyflogedig. Trwy ein mentrau strategol: Lleoedd Treftadaeth, Dinasoedd a Threfi Natur, a Chysylltiadau Tirwedd, rydym yn cefnogi cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol ar draws y DU. Mae llawer o'r rhain mewn lleoliadau gwledig ac yn ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn strategaeth Defra i baratoi ardaloedd gwledig ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys Swydd Durham, Castell-nedd Port Talbot a Torbay.

Fel sefydliad rydym yn cefnogi ein cydweithwyr i weithio ledled y wlad ac mae ein polisi gweithio hybrid yn disgrifio sut y gall staff weithio'n hyblyg.

## Adeiladwaith cynaliadwy

Fel sefydliad nid ydym yn gyfrifol am adeiladwaith newydd nac unrhyw asedau cyfalaf.



## Eilish McGuinness

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

23 Gorffennaf 2024

# Adroddiad atebolrwydd

# Adroddiad atebolrwydd

Mae tair adran i'r adroddiad atebolrwydd:

- adroddiad llywodraethu corfforaethol – trafodaeth o'n strwythur llywodraethu a'i gyflawniadau yn y flwyddyn dan sylw
- adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff – mae hwn yn rhoi manylion tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr yn ogystal â threfniadau pensiwn i staff. At hynny, rydym yn trafod ein cyflawniadau o ran cydraddoldeb yn y gweithle ac amrywiaeth staff.
- adroddiad atebolrwydd seneddol – adroddiad gan ein harchwilwyr ar ganlyniadau eu harchwiliad o'n cyfrifon ar gyfer 2023–2024 yn unol â safonau cyfrifyddu ac archwilio. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys datgeliadau ychwanegol sy'n ofynnol gan Senedd y DU ar faterion megis rheoleidd-dra gwariant a sut y gwariwyd cyllid.

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu'r Gronfa Treftadaeth a sut y maent yn cefnogi cyflawni ein hamcanion.

## Adroddiad y cyfarwyddwyr

### Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG

Cadeirydd

Dr Simon Thurley CBE

Ymddiriedolwyr

Maria Adebowale-Schwarte  
tan 15 Chwefror 2024

Anna Eavis  
o 16 Chwefror 2024

Dr Claire Feehily  
tan 30 Tachwedd 2023

Julian Glover

Roisha Hughes  
tan 30 Tachwedd 2023

Denise Lewis-Poulton

Ray Macfarlane

Taryn Nixon

Carol Pyrah

Mukesh Sharma MBE DL

Dr David Stocker  
tan 15 Chwefror 2024

James Twining  
o 1 Rhagfyr 2023

Prif Weithredwr

Eilish McGuinness

Roedd y rhaniad o'n staff o ran rhywedd (gan gynnwys y rhai ar gontractau cyfnod penodol) sy'n gweithio ar weithgareddau'n ymwneud â'r Loteri Genedlaethol, a'n hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2024, fe a ganlyn:

	Gwrywaidd	Benywaidd	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr anweithredol	1	3	4
Staff	87	261	348
Ymddiriedolwyr	6	7	13

### Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r ymddiriedolwyr ac aelodau Pwyllgorau Ardal a Gwlad yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â'r Gronfa Treftadaeth ac yn diarddel eu hunain o'r prosesu arfarnu, trafod a gwneud penderfyniad ar y grant perthnasol gyda'r Gronfa Treftadaeth. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau cyfranogiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Ceir

trefniadau cyfatebol er mwyn i staff adrodd buddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – [www.heritagefund.org.uk/cy..](http://www.heritagefund.org.uk/cy..)

## Datblygiadau'r dyfodol

Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd y Gronfa Treftadaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ddenu a buddsoddi mewn prosiectau treftadaeth uchelgeisiol drwy Treftadaeth 2033, o dan y pedair egwyddor buddsoddi, yn ogystal â datblygu a chyflwyno'r mentrau strategol.

Yn 2024–2025 byddwn yn parhau i gyflwyno'r Gronfa Arloesedd Treftadaeth yn ei 'Cham Tyfu' terfynol, gan gyflwyno atebion i heriau gweithlu a wynebir gan y sector treftadaeth. Gan weithio gyda theulu ehangach y Loteri Genedlaethol, byddwn yn dathlu pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 oed yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i gefnogi Blwyddyn Diwylliant Bradford.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein partneriaethau gyda llywodraethau, awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol ac yn creu partneriaethau newydd gyda'r rhai sy'n rhannu ein gweledigaeth. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiant wrth ddarparu arian cymorth grant drwy'r pandemig a'r tu hwnt, gan ddarparu ariannu ychwanegol ar gyfer treftadaeth ar ran llywodraethau a chyrrff eraill i gyflawni ein nodau a rennir.

## Mentrau strategol

Rydym am greu'r effaith a'r budd mwyaf i dreftadaeth y DU o'n hariannu. Mae Treftadaeth 2033 yn disgrifio set o fentrau strategol sydd wedi'u dylunio i fynd i'r afael â materion treftadaeth hirsefydlog ar raddfa fawr, cefnogi dulliau cydgysylltiedig traws-tiriogaethol a rhoi syniadau ac arloesiadau newydd ar waith yn gyflym. Wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023, disgrifiodd y cyntaf o'n cynlluniau cyflwyno tair blynedd set gychwynnol o ymyriadau yr ydym wedi'u datblygu eleni.

Ym mis Hydref, fe wnaethom gyhoeddi'r naw cyntaf o hyd at 20 o Lleoedd Treftadaeth ar draws y DU lle byddwn yn buddsoddi £200m. Trwy Lleoedd Treftadaeth rydym am roi hwb i falchder mewn lle a chysylltiad â threftadaeth ar draws lleoedd cyfan yn hytrach na phrosiectau unigol. Ein nod yw gwneud treftadaeth yn rhan annatod o

gynlluniau a dulliau sy'n gwneud ardaloedd lleol yn lleoedd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â nhw. At hynny, drwy gydol y flwyddyn, bu i ni gydweithio â phartneriaid i gwmpasu rhaglen waith i gefnogi dinasoedd a threfi ar draws y DU i sicrhau adferiad byd natur trefol trwy barciau a mannau gwyrdd hanesyddol sy'n ffynnu.

Rydym wedi bod wrthi'n datblygu ein hymagwedd at gefnogi prosiectau ar raddfa fawr sy'n adfywio tirweddau, yn cefnogi adferiad natur ac yn gwella cysylltedd pobl a bywyd gwyllt. Disgwyliwn lansio menter yn ddiweddarach yn 2024.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyblygrwydd ac ymateb yn gyflym pan fydd angen. Gallai hyn olygu cefnogi caffael treftadaeth eithriadol, nodi digwyddiadau arwyddocaol neu gefnogi meysydd o dreftadaeth a sefydliadau sy'n delio ag argyfwng nas rhagwelwyd. Rydym hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer ariannu wedi'i dargedu ar gyfer treftadaeth sydd mewn perygl ac sydd angen cadwraeth. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r mentrau a'r cyfleoedd hyn dros y flwyddyn nesaf.

## Data ac ymchwil

Eleni rydym wedi llwyddo i atgyfnerthu ein seilwaith adrodd yn sgil mudo'r system rheoli grantiau ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaethom hefyd osod Systemau Gwybodaeth Ddaeryddol (GIS) yn seilwaith y Gronfa Treftadaeth i reoli a delweddu data gofodol, cwblhawyd ein prosiect peilot GIS cyntaf; a chyhoeddwyd ein hymchwil Data ar gyfer Lleoedd Treftadaeth, sef y man cychwyn ar gyfer nodi'r naw Lle Treftadaeth cyntaf gan bwyllgorau.

Fe wnaethom barhau i gydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill ar brosiectau ymchwil a gwerthuso megis Pwls Treftadaeth a'r Her Adferiad Gwyrdd. Mae ein hymrwymiad i ddata agored a thryloywder wedi'i ddangos trwy ein cyhoeddiad parhaus o ddata i 360Giving yn ogystal ag i'n gwefan ein hunain ac i gronfa ddata Grantiau'r Loteri Genedlaethol DCMS. Rydym hefyd ar flaen y gad o ran ymdrechion ar draws teulu dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol i wella ansawdd a defnyddioldeb y data a gedwir gan bob sefydliad.

I gefnogi ein strategaeth Treftadaeth 2033, rydym yn datblygu fframwaith effaith sy'n nodi'r mesurau allweddol y byddwn yn eu defnyddio i olrhain

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

cynnydd ar y strategaeth. Rydym yn gwneud hyn mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol a DCMS – gan rannu ein proses i helpu i gefnogi mesur a dysgu yn y sector treftadaeth. Bydd ein gwerthusiadau strategol hefyd yn gweithredu fel 'meysydd prawf' ar gyfer treialu dulliau mesur arloesol, megis y gwerthusiad Lleoedd Treftadaeth.

Mae ein huchelgais ar gyfer y flwyddyn i ddod yn canolbwyntio ar wella'r defnydd o ymchwil a data o fewn ein gwaith ein hunain trwy gwblhau'r broses o gyflwyno GIS, adnewyddu'n rhannol y mynegai Lleoedd Treftadaeth a gwerthusiadau o fentrau strategol seiliedig ar le, a diogelu'r amgylchedd. Trwy weithredu ein fframwaith mesur effaith a chreu astudiaethau achos mewn partneriaeth ag Allwyn byddwn yn parhau i ddyddu a rhannu ein gwaith gyda'r sectorau treftadaeth ac ariannu ehangach.

## Penodi archwilwyr

Mae Deddf 1980 yn gwneud darpariaeth i gyfrifon blynyddol CGDG gael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yr ymddiriedolwyr.

## Rhanddeiliaid allweddol

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid ac yn ymgynghori'n helaeth â nhw wrth ddatblygu ein fframweithiau strategol a pholisïau ac arfer gwneud grantiau. Yn eu plith mae DCMS, y cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, ymgeiswyr a grantion, asiantaethau strategol a chyrrff treftadaeth arweiniol ynghyd â meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n cyllid ar draws y DU, yn ogystal ag aelodau etholedig llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae DCMS yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi DU gyfan (gweler yr adran Cyfarwyddiadau polisi tua diwedd yr adroddiad hwn) ac yn rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) sy'n buddsoddi'r arian a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraeth Yr Alban a Senedd Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi hefyd.

## Ychwanegedd

Yn unol â chyfarwyddyd ariannol yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol roi ystyriaeth i egwyddorion ychwanegedd. Ein gofyniad ar gyfer grantiau'r Loteri Genedlaethol yw y dylai ein cyllid fod yn ychwanegol at y cyllid sydd ar gael

gan lywodraeth yn hytrach na'i ddisodli. Ni fyddwn yn rhoi grantiau i brosiectau y tybiwn yr oedd cyllid gan lywodraeth ar gael iddynt ar adeg y penderfyniad. Fel rhan o'n proses asesu grantiau rydym yn gofyn i ymgeiswyr wneud achos clir dros fuddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol gan gynnwys dweud wrthym ba ffynonellau ariannu eraill sydd wedi cael eu hystyried.

## Data personol

Cafodd CGDG wyth achos lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), nid oedd angen adrodd ar unrhyw un o'r digwyddiadau hyn i'r ICO. Dysgwyd gwersi a chymerwyd camau adferol i leihau'r posibilrwydd y byddai'n digwydd eto. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi ac ymdrin ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus ei systemau.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyda chydsyniad Trysorlys EF. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa Treftadaeth ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â Llawlyfr Adrodd Ariannol (LIAA) Trysorlys EF ac yn benodol:

- glynu wrth y cyfarwyddiadau cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu priodol yn gyson
- ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u hamlinellir yn LIAA wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wriadau materol yn y datganiadau ariannol

- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

Mae DCMS wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu CGDG.

Mae cyfrifoldebau swyddog cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r swyddog cyfrifyddu'n atebol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau CGDG, wedi'u hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

### Cadarnhad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr DCMS yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr DCMS yn ymwybodol ohoni.

Mae'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'r barn sydd ei hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

### Datganiad Llywodraethu

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn ar draws y sefydliad cyfan sy'n cefnogi cyflawni diben CGDG tra'n diogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

Mae'n ofynnol i CGDG baratoi datganiad llywodraethu blynyddol i ddisgrifio system rheolaeth fewnol y sefydliad, cofnodi'r sicrwydd a dderbyniwyd a darparu asesiad o broffil risg y sefydliad a'i effeithiolrwydd wrth reoli'r risgiau hynny.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu sut yr wyf i, fel Swyddog Cyfrifyddu, wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli a rheoleiddio adnoddau CGDG yn ystod y flwyddyn. Mae'n galw ar waith Bwrdd Ymddiriedolwyr CGDG, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl

Cydnabyddiaeth a Phobl, yn ogystal â'r cyfarwyddwyr gweithredol fel ei gorff gweithredol. Rwyf hefyd wedi adolygu ac ystyried yr adroddiad sicrwydd blynyddol a baratowyd gan archwilio mewnol.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mae'n ofynnol i mi, yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant a chyllid gan y Loteri Genedlaethol. Rwy'n atebol hefyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisiau, nodau ac amcanion CGDG, ac ar yr un pryd diogelu'r cyllid ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt. Mae hyn yn gweddu i'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gweithredu fel endid unigol gan i mi gredu bod hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gan hynny, dim ond un strwythur llywodraethu sydd yn y datganiad hwn, y mae'n cwmpasu dosbarthiad dyfarniadau cymorth grant a grantiau'r Loteri Genedlaethol. Er i ni weithredu un strwythur llywodraethu cyffredinol, rydym wedi addasu ac ystwytho ein llywodraethu i fodloni gofynion ein rhaglenni cymorth grant. Bu hyn drwy ddefnyddio paneli bach o ymddiriedolwyr a darparu hyblygrwydd i rai o'n prosesau gwneud penderfyniadau wedi'u dirprwyo..

### Strwythur llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu CGDG wedi'i amlinellu yn y diagram isod. Mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau fel y'u disgrifir, ochr yn ochr â'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad.



### Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol
- cymeradwyo mecanweithiau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

- cymeradwyo cyllidebau buddsoddi a gweinyddu
- goruchwyllo rheolaeth gyffredinol gweithgareddau CGDG
- adrodd ar stiwardiaeth cyllid cyhoeddus

Cynhaliodd y Bwrdd, sy'n gweithredu fel grŵp, chwe chyfarfod yn ystod y flwyddyn i bennu polisi CGDG a gwneud penderfyniadau'n unol â'r polisi hwnnw. Mae'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr gweithredol yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.

Dr Simon Thurley CBE yw Cadeirydd CGDG a thrwy gydol y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhyngddo ef, y Prif Weithredwr a staff uwch. Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol hyd at uchafswm o 15 o ymddiriedolwyr gan gynnwys y Cadeirydd. Yn 2023–2024, ailbenodwyd dau ymddiriedolwr, ymddeolodd tri ymddiriedolwr a phenodwyd tri ymddiriedolwr newydd.

Cyfradd bresenoldeb gyffredinol ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 97%. Mae ymddiriedolwyr wedi dirprwyo rhai o'u tasgau i'r tri phwyllgor a ddangosir uchod hefyd – mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwyllo gweithgareddau rheolwyr ac yn darparu arweiniad a chefnogaeth i staff uwch. Mae cofnodion cyfarfodydd pwyllgor yn eitemau sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae cadeiryddion pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau hefyd.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd trwy gydol 2023–2024 fel a ganlyn:

Ymddiriedolwr	Cyfarfodyd cymwys	Cyfarfod(ydd) a fynychwyd
Dr Simon Thurley CBE (Cadeirydd)	6	6
Maria Adebawale-Schwarte tan 15 Chwefror 2024	5	4
Anna Eavis o 16 Chwefror 2024	1	0
Dr Claire Feehily tan 30 Tachwedd 2023	4	4
Julian Glover	6	6
Roisha Hughes o 16 Chwefror 2024	1	1
Denise Lewis-Poulton	6	6
Ray Macfarlane	6	6
Taryn Nixon	6	6
Carol Pyrah	6	6

Mukesh Sharma MBE DL	6	6
Dr David Stocker tan Chwefror 2024	5	5
James Twining o 1 Rhagfyr 2023	2	2

## Cyfansoddiad y Bwrdd

O'r 13 o ymddiriedolwyr a fynychodd y Bwrdd trwy gydol y flwyddyn, roedd 54% yn fenywod a 46% yn ddynion. Daeth dau (15%) o gefndiroedd ethnig amrywiol.

## Gwrthdaro buddiannau

Mae ymddiriedolwyr a staff yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir ac y diwedderir eu cofnodion yn y Gofrestr Buddiannau fel y bo angen. Mae'r tîm Cyfreithiol a Llywodraethu yn goruchwyllo proses i sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu diweddarau bob blwyddyn. Ar ddechrau pob cyfarfod bwrdd mae pob ymddiriedolwr yn datgan buddiannau. Nodir y rhain yn y cofnodion pan bennir bod y mater yn gyfystyr â gwrthdaro a bydd ymddiriedolwyr a staff yn tynnu allan o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu her adeiladol ar brosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau ariannol CGDG. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i'r adroddiad ariannol a'r cyfrifon.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024 fe'i cadeiriwyd gan James Twining (un o ymddiriedolwyr y Bwrdd) a gymerodd drosodd o'r cadeirydd blaenorol, Dr Claire Feehily, o fis Ionawr 2024. Mae aelodaeth yn cynnwys dau ymddiriedolwr y Bwrdd, y mae un ohonynt yn cael ei benodi'n gadeirydd, a dau aelod annibynnol. Mae'r Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr gweithredol Cyflwyno Busnes a Gwasanaethau Busnes, a gweithwyr eraill CGDG sy'n mynychu fel y bo angen, hefyd yn bresennol.

Mae swyddogion o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (archwilwyr allanol), BDO (archwilwyr mewnol) a DCMS hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau yn y dirgel a thrafodaethau preifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn y cyfarfodydd.

Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor yn adolygu Cofrestr Risg Gorfforaethol CGDG ac yn derbyn diweddariadau ar gynnydd yn erbyn canfyddiadau archwilio mewnol, eithriadau caffael, atal twyll a



chwythu'r chwiban. Mae'r Pwyllgor yn adolygu Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd. Yn ystod 2023–2024, ystyriodd y Pwyllgor y canlynol hefyd:

- diweddariadau ar gynnydd y system rheoli buddsoddiadau
- diweddariadau ar ymagwedd CGDG at seiberddiogelwch
- diwygiadau i bolisi rheoli risg CGDG ac adroddiadau risg corfforaethol

Mae cofnodion cyfarfod y Pwyllgor, ac adroddiadau cryno yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd ac mae cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi diweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r Pwyllgor.

Mae cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn mynychu Fforwm Cadeiryddion Archwilio DCMS gan roi adborth a sicrwydd pellach i'r Swyddog Cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgor trwy gydol 2023–2024 fel a ganlyn:

	Cyfarfodyd cymwys	Cyfarfod(ydd) a fynychwyd
Dr Claire Feehily (Cadeirydd) tan 30 Tachwedd 2023	3	3
James Twining (Cadeirydd) o 1 Rhagfyr 2023	1	1
Maria Adebowale-Schwarte tan 15 Chwefror 2024	4	3
Taryn Nixon o 17 Hydref 2023	2	2
Warren Mead Aelod Annibynnol	4	4
Robert Milburn Aelod Annibynnol	4	4

### Pwyllgorau Ardal a Gwlad (penderfyniadau grant dirprwyedig)

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud grantiau ar gyfer mathau a gwerthoedd penodol o grantiau'r Loteri Genedlaethol i'r gwledydd ac i ardaloedd o Loegr. Mae chwech o'r pwyllgorau ardal a gwlad hyn (tair gwlad: Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, a thair ardal yn Lloegr: Llundain a De Lloegr, Canolbarth a Dwyrain Lloegr, a Gogledd Lloegr) a chadeiriwyd pob un gan ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau grant, mae'r pwyllgorau hyn yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau

yn eu hardal ac yn gweithredu fel eiriolwyr dros waith y sefydliad fel corff dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor ar gyfer pob ardal a gwlad drwy gydol y flwyddyn lle bo modd.

Hefyd, mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau am grantiau o dan £250,000 i staff, yn benodol cyfarwyddwyr gwlad ac ardal. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar effaith grantiau wedi'u dirprwyo ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd. Adroddir yr holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau a staff i'r Bwrdd.

### Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phobl

Cafodd y Pwyllgor ei ailgyfansoddi yn ystod blwyddyn fusnes 2023–2024, a'i ailenwi o'i deitl blaenorol, y Pwyllgor Enwebiadau a Thâl Cydnabyddiaeth. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar ymddiriedolwr Bwrdd. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes yn mynychu pob cyfarfod, gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu fel y bo angen.

Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith yn ystod 2023–2024, i ystyried y dyfarniad cyflog gweithredol ar gyfer 2023 ac i dderbyn diweddariadau ar y setliadau cyflog i gyflogeion a chanlyniadau'r arolwg staff blynyddol.

	Cyfarfodyd cymwys	Cyfarfod(ydd) a fynychwyd
Mukesh Sharma MBE DL (Cadeirydd)	1	1
Dr Simon Thurley CBE	1	1
Carol Pyrah	1	1
Denise Lewis-Poulton	1	1

### Gweithrediaeth a Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (GSP)

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rheolaeth CGDG o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

Mae'r Weithrediaeth yn cynnwys y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr gweithredol y tair adran (Cyflwyno Busnes, Arloesedd Busnes a Mewnwelediad a Gwasanaethau Busnes). Mae'r Weithrediaeth hon yn gyfrifol am reoli strategol ehangach a'r ddarpariaeth fusnes yn CGDG. Mae'r Weithrediaeth yn cwrdd bob wythnos neu bythefnos yn unol ag anghenion busnes gydag isafswm o un cyfarfod ffurfiol bob mis.

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

Mae'r GSP yn cynnwys cyfarwyddwyr a staff uwch o'r tair adran. Maent wedi dirprwyo cyfrifoldeb gan y Weithrediaeth i fonitro a rheoli darpariaeth weithredol ac mae ganddynt gyfrifoldeb dros sganio'r gorwel, rheoli perfformiad o ddydd i ddydd a chynllunio corfforaethol. Mae'r GSP yn cyfarfod yn fisol ac yn cynnal cyfarfodydd ar y cyd â'r Weithrediaeth ddwywaith y flwyddyn.

Mae pob cyfarwyddwr gweithredol yn darparu adroddiadau i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion sydd o fewn eu cylch gwaith.

At hynny, ar ddechrau pob blwyddyn, rwy'n cyhoeddi Llythyr o Gyfrifoldeb i bob cyfarwyddwr gweithredol yn nodi eu cyfrifoldebau a'r angen i weithredu o fewn canllawiau a rheolau CGDG, Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EF. Ar ddiwedd pob blwyddyn rwy'n derbyn Memoranda Sicrwydd wedi'u llofnodi gan bob cyfarwyddwr gweithredol yn cadarnhau eu cydymffurfiaeth neu'n nodi unrhyw dor rheolau. Adroddwyd cydymffurfiaeth lawn ar gyfer 2023–2024.

## Rheoli risgiau a rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd a'r Weithrediaeth yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol gan gynnwys rheoli risgiau yn CGDG. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i dylunio i nodi a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion CGDG; gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu; a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae CGDG o'r farn nad yw lliniaru pob risg yn gyfan gwbl yn bosibl nac yn ddymunol. Credwn ei bod yn bwysig i ni gefnogi ac annog arloesedd ac y gallwn gymryd risgiau rheoledig i gefnogi ein hamcanion strategol. Rydym yn nodi ac yn rheoli risgiau ar dair lefel:

- corfforaethol: y prif risgiau, cyfleoedd ac ansicrwydd sy'n effeithio ar gyflawni ein cenhadaeth a'n canlyniadau strategol, dan oruchwyliaeth y Weithrediaeth
- gweithredol: risgiau i gyflwyno'r themâu a nodir yn ein cynllun cyflwyno, dan reolaeth adrannau a'r GSP

- risgiau rhaglenni/prosiectau: risgiau i gyflwyno rhaglen a phrosiectau unigol ac i feysydd penodol o'n gwaith, dan reolaeth byrddau rhaglen.

Mae ein system rheoli risgiau a rheoli mewnol wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion. Mae awydd CGDG am risg yn amrywio yn ôl natur y gweithgaredd. Mae lefel y risg yr ydym yn fodlon ei hysgwyddo'n un o'r ffactorau allweddol a ystyriwn wrth wneud penderfyniadau ar y ffordd orau o fuddsoddi, datblygu a hyrwyddo treftadaeth.

Rydym yn ceisio lleihau amlygiad i risgiau ariannol, cyfreithiol, cydymffurfio ac enw da.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd CGDG, gyda chefnogaeth ei harchwilwyr mewnol, adolygiad trylwyr o bolisi rheoli CGDG a'i dull o adrodd a rheoli risgiau corfforaethol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys nifer o weithdai gyda'r Weithrediaeth yn ogystal â thrafodaethau gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Ystyriwyd y dull diwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Chwefror 2024 ac fe'i cyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2024.

Cafodd nifer o risgiau corfforaethol eu hailddatgan a'u hailwerthuso i ystyried strategaeth Treftadaeth 2033 CGDG a'i chynllun cyflwyno busnes tair blynedd diwygiedig. Rhoddwyd tag risg i risgiau, gan gysylltu'r risg ag un o chwe thema sydd wedi'u nodi fel:

- ariannol
- cyflwyniad strategol
- amgylcheddol
- TG a seiber
- tirwedd treftadaeth
- pobl

Mae'r gofrestr hefyd yn gwahaniaethu rhwng y lefel risg 'gynhenid' a'r lefel risg "weddillio" fel ei fod yn bosibl barnu effeithiolrwydd y mesurau rheoli a mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer lliniaru'r risg. Mae'n defnyddio grid tebygolrwydd/effaith 5 x 5 i sgorio'r safleoedd cyn ac ar ôl lliniaru.

Ar y lefel weithredol caiff perchennog risg ei aseinio i bob risg gorfforaethol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno'n effeithiol.

Risg allweddol	Archwilio	Gradd sicrwydd – dyluniad	Gradd sicrwydd – effeithiolrwydd
Cyflwyniad strategol	Strategaeth newydd	Cyfyngedig	Cymedrol
Ariannol	Mesurau rheoli ariannol craidd	Cyfyngedig	Cymedrol
Amgylcheddol	Cynladwyedd	Cymedrol	Cymedrol
Pobl	Ffyrdd newydd o weithio	Sylweddol	Sylweddol
TG a seiber	Seiberddiogelwch*	Cymedrol	Cymedrol
TG a seiber	System rheoli buddsoddiadau (IMS) – proses, swyddogaethau a chyfanrwydd y broses o'r dechrau i'r diwedd	Cymedrol	Cymedrol

\* Dros dro

Mae ein mesurau rheoli twyll yn cynnwys polisi gwrth-dwyll clir a pholisi chwythu'r chwiban, ynghyd â ffordd i'r cyhoedd gyfeirio pryderon yn uniongyrchol i'n tîm Archwilio ac Ymchwiliadau.

Mae rhaglen waith archwilio mewnol yn cael ei pharatoi bob blwyddyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'i chytuno gyda'r Weithrediaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Dylunnir y rhaglen hon i roi sicrwydd bod mesurau rheoli priodol wedi cael eu dylunio a'u bod yn gweithredu'n gywir mewn perthynas â'r holl risgiau sylweddol y mae CGDG yn eu hwynebu.

Yn ystod y flwyddyn, ymdriniodd adroddiadau archwilio mewnol â meysydd risg allweddol yn y rhaglen waith archwilio a nodir ar dudalen 23.

Trafodir yr holl adroddiadau archwilio mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg gydag aelodau staff uwch yn bresennol, gan gynnwys y rhai yr adroddwyd ar eu hadrannau. Mae hyn yn rhoi cyfle i mi a'r Pwyllgor drafod y canfyddiadau, argymhellion a chymau gweithredu rheoli arfaethedig yn fanwl. Pan dderbynnir argymhellion i wella neu gywiro, bu'n rhaid i gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Cafodd gweithrediad yr argymhellion hyn ei dracio a'i fonitro gan yr Adran Gwasanaethau Busnes a'r archwilwyr mewnol. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried bod y rhestr reoli honno'n eitem sefydlog hefyd.

## Ymagwedd gwrth-dwyll

Mae fframwaith rheoli gwrth-dwyll CGDG wedi'i ddylunio i leihau'r risg o dwyll ac mae'n cynnwys polisi a strategaeth atal twyll gydag allbynnau allweddol. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd CGDG ei hymagwedd yn erbyn Safon Weithredol y Llywodraeth ar gyfer Atal Twyll (GovS 013) a chynhaliodd ddadansoddiad o fylchau yn erbyn y rhestr wirio sefydliadol a ddarparwyd. O ganlyniad, cryfhawyd ein polisi gwrth-dwyll ac rydym yn y broses o ddatblygu cynllun gweithredu i ymwreiddio ddull atal twyll ymhellach ar draws y sefydliad.

Ar y cyd â'r adolygiad hwn, darparwyd rhaglen ddiwygiedig o hyfforddiant atal twyll a gwrth-lwgrwobrwyo gorfodol i'r holl staff ac rydym yn adolygu ein hyfforddiant ar gyfer staff sy'n cynnal asesiadau ceisiadau grant i gyd-fynd â'r system rheoli buddsoddiadau newydd.

## Diddymiadau

Fel y gellir ei weld o nodyn 19 yn adran y datganiadau ariannol, mae lefel y grantiau a ddiddymir yn fach iawn o gymharu â lefel y grantiau rydym yn eu dosbarthu bob blwyddyn. Hefyd, mae'r lefel uchel o foddhad a ddangosir mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gweithio'n ormod o faich ar ymgeiswyr.

O ganlyniad i hyn, gallaf ddod i'r casgliad na cheir testun pryder ynghylch lefel y risg sy'n rhan ymhlyg o'n prosesau rhoi grantiau.

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

## Rheoli a diogeled gwybodaeth

Parhaodd CGDG i gynnal ei pherfformiad o ran ymateb yn effeithiol i geisiadau am wybodaeth, nodi cyfleoedd i ddatgelu gwybodaeth yn rhagweithiol, ac ymwreiddio ymddygiadau trin gwybodaeth da ar draws y sefydliad.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau diogeled sylweddol yn ymwneud â data yn y Gronfa Treftadaeth yn ystod 2023–2024. Yn ystod y cyfnod hwn, adroddwyd am wyth achos o dorri diogeled data personol. Ni adroddwyd am unrhyw achosion o dorri rheolau data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ymdriniodd CGDG â phob digwyddiad ar unwaith; ymchwiliwyd i bob un i weld a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'n systemau a'n prosesau.

Mae ein huwch berchennog risg gwybodaeth, y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes, yn cadeirio'r Grŵp Llywodraethu Technoleg a Gwybodaeth (TIGG) sy'n goruchwyllo'r fframwaith a'r prosesau sydd ar waith i fonitro asedau gwybodaeth a risgiau cysylltiedig. Mae TIGG hefyd yn gyfrifol am ddatblygu diwylliant o ymwybyddiaeth ymhlith yr holl staff.

Cefnogir y Grŵp yn ei waith gan y Swyddog Diogelu Data sy'n cynorthwyo'r sefydliad i fonitro cydymffurfiaeth GDPR fewnol ac yn hysbysu ac yn cynghori ar ein rhwymedigaethau diogelu data.

Mae'r holl staff newydd yn derbyn arweiniad mewn diogeled gwybodaeth, diogelu data a Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o'u cynefino ac mae hyfforddiant gloymi'n rhan o lwyfan eDdysgu orfodol CGDG.

## Trefniadau chwythu'r chwiban

Mae polisi chwythu'r chwiban CGDG yn deillio o Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (PIDA) sy'n bodoli i ddiogelu unrhyw aelod o staff sy'n gwneud datgeliadau'n ddiwyll am gamarfer neu weithgarwch sydd yn erbyn budd y cyhoedd. Mae ein gweithdrefnau polisi ar gyfer codi pryderon yn hygyrch i holl gyflogeion CGDG ac rydym yn cynnig sawl llwybr i staff leisio eu pryderon gan gynnwys defnyddio llinellau cymorth chwythu'r chwiban allanol.

Yn ystod y flwyddyn, ni chodwyd unrhyw bryderon o dan drefniadau chwythu'r chwiban. Mae staff yn codi materion ac yn gwneud awgrymiadau fel rhan o waith bob dydd yn unol â'n diwylliant.

## Safonau swyddogaethol

Mae Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yn gyfres o 15 o safonau rheoli sy'n gosod disgwyliadau ar gyfer gwaith swyddogaethol ar draws holl adrannau'r llywodraeth, gan gynnwys cyrff hyd braich, ac yn darparu sail gyson a chydlynus ar gyfer sicrwydd, rheoli risg a gwella galluoedd. Yn ystod 2023–2024, gwnaethom gydymffurfio â holl ofynion gorfodol y safonau hyn sy'n berthnasol i'n gweithrediadau. Bu i'n hadran noddi ofyn am ac adolygu safbwynt datganedig CGDG ar gyfer pedair o'r Safonau Gweithredol (Grantiau, Gwrth-dwyll (Troseddau Economaidd), Dadansoddi a Diogeled) a chydabod ein hasesiad..

## Modelau hollbwysig i fusnes

Rwy'n ystyried ein bod mewn cydymffurfiaeth â'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Macpherson, Rwy'n barnu ein bod yn defnyddio un model sy'n hanfodol i'r busnes – y rhagamcaniad llif arian parod a ddefnyddir i bennu cyllidebau grant blynyddol allan o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn dyfarnu'r swm mwyaf posibl o ran lefel y grantiau heb beri'r risg o redeg allan o arian parod neu or-estyn ein hunain. Mae'r model wedi cael ei ddefnyddio yn erbyn sefyllfaoedd o lefelau gwahanol o incwm gan y Loteri Genedlaethol, cyfraniadau untro i Gemau Olympaidd Llundain 2012, a rhaglenni grant arwyddocaol newydd ac rydym wedi gweld ei fod yn darparu rhagamcaniad rhesymol o'n cynaladwyedd ariannol.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Bwrdd ein fframwaith ariannol. Mae'r fframwaith yn disgrifio cymarebau targed ar gyfer cyfanswm lefel yr ymrwymadau, rhwymedigaethau gwirioneddol a gymeradwywyd, incwm gan y Loteri Genedlaethol a'n balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG). Ystyriodd y Bwrdd y cymarebau grant a chymeradwyodd fân newidiadau i leihau cymhareb y balans CDLG i ymrwymadau er mwyn lleihau'r gwaged sylweddol a gronnwyd yn ystod y pandemig COVID-19.

Credwn fod y model a'r fframwaith ariannol yn parhau i ddarparu sail gadarn ar gyfer ein gweithgarwch rhoi grantiau, a byddwn yn parhau i fonitro ein lefelau incwm a'n cymarebau ymrwymiad yn agos er mwyn sicrhau cynaladwyedd ariannol parhaus CGDG.

## Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Y gweithgaredd mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd fu goruchwyllo ymateb CGDG i ailagor rhaglenni agored y Loteri Genedlaethol a'r cynnydd yn y gweithgarwch cymorth grant. Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariadau manwl a rheolaidd ar yr holl ymyriadau; a gwnaeth is-setiau o'r ymddiriedolwyr benderfyniadau yn y rhaglenni a ariennir gan gymorth grant yng Nghymru a Lloegr.

Ni ddeilliodd unrhyw beth sy'n peri pryder o unrhyw un o'r pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi'i fodloni ei fod yn parhau i fodloni gofynion côd llywodraethu corfforaethol Trysorlys EF.

Ni chyflwynodd yr archwilwyr unrhyw faterion i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, yn gweithredu ar ran y Bwrdd, a fu'n peri pryder iddo. O ganlyniad i hyn, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar yr wybodaeth a sicrwydd a ddarperir gan reolwyr o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Mae pob ymddiriedolwr a benodir o'r newydd yn derbyn cynefino ar adeg ei benodiad sy'n disgrifio ei rwymedigaethau a dyletswyddau fel ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau/prosesau, gan ei helpu i wneud cyfraniad llawn at weithrediad y Bwrdd. Parheir â'r rhaglen cynefino ffurfiol hon trwy'r raglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant eraill i ymddiriedolwyr. Arfarnir effeithiolrwydd ymddiriedolwyr gan y Cadeirydd ar sail reolaidd. Mae perfformiad y Cadeirydd yn cael ei oruchwyllo ar hyn o bryd gan yr uwch ymddiriedolwr annibynnol (Mukesh Sharma MBE DL).

## Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisiau, nodau ac amcanion CGDG i ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau CGDG.

Mae fy adolygiad yn cael ei gyfeirio, ond ddim yn gyfan gwbl, gan sicrwydd a gafwyd ac a dderbyniwyd o'r ffynonellau canlynol:

### 1. Adroddiad archwilio allanol diwedd blwyddyn

Ni wnaed unrhyw argymhellion blaenoriaeth uchel ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

Mae gwaith archwilio allanol ar drafodion yn rhoi sicrwydd archwilio bod mesurau rheoli digonol yn eu lle, yn ogystal â sicrwydd rheoli a gafwyd o fesurau rheoli a goruchwyliaeth dros ddyfarniadau grant a gwariant i ddangos priodoldeb a rheoleidd-dra ein gweithgarwch ariannu.

## 2. Datganiad sicrwydd blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ac adroddiadau archwilio mewnol

O ganlyniad i'w rhaglen waith mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif sicrwydd flynyddol mewn perthynas â digonolrwydd systemau a gweithrediad mesurau rheoli mewnol CGDG. Mae'r farn hon, sef gradd Cymedrol, yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn bodoli i ymdrin â'r risg na chaiff amcanion rheolwyr eu cyflawni'n llawn. Rwyf wedi adolygu'r adroddiad hwn yn fanwl, ac er bod hyn yn cynrychioli sgôr sy'n is yn gyffredinol na'r farn Sylweddol y llynedd, rwy'n fodlon bod hyn o ganlyniad i ffocws penodol ar feysydd llywodraethu a rheolaeth fewnol a nodwyd fel meysydd o wendid posibl a lle mae arweiniad a gofynion cydymffurfio newydd ac ychwanegol wedi'u rhyddhau. Rwy'n fodlon bod unrhyw feysydd materol a nodwyd naill ai wedi derbyn sylw eisoes neu fod cynlluniau gweithredu diffiniedig yn eu lle ar gyfer gwella.

## 3. Datganiadau sicrwydd blynyddol gan gyfarwyddwyr gweithredol

Fel rhan o'r broses lywodraethu, derbynnir datganiadau sicrwydd gan y cyfarwyddwyr gweithredol yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran sicrhau y cydymffurfiwyd â pholisiau a gweithdrefnau CGDG. Drwy gydol y flwyddyn, derbyniodd cyfarwyddwyr sesiynau cynefino a gloywi lle'r oedd hynny'n berthnasol i amlinellu eu cyfrifoldebau dros sicrwydd blynyddol. Cyflwynir datganiadau sicrwydd blynyddol y cyfarwyddwyr i mi fel Swyddog Cyfrifyddu i'w hadolygu a'u hystyried wrth baratoi'r datganiad llywodraethu hwn.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli CGDG yn darparu'r lefel sicrwydd i mi y mae arnaf ei hangen. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n peri i mi gredu nad yw ein prosesau datgelu ac ymateb i aneffeithlonrwydd, atal gwrthdaro buddiannau, atal a datgelu twyll ac

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

isafu colledion cymorth grant a grantiau Loteri Genedlaethol yn ddigonol.

## 4. Rheoli risgiau

Mae'r cofrestrau risgiau'n cael eu hadolygu'n fanwl bob tri mis. Mae'r cofrestrau risg gweithredol yn cael eu trafod gan y GSP a all argymhell newidiadau i'r gofrestr risg gorfforaethol, neu risgiau y dylid eu hychwanegu ato neu eu dileu ohoni. Wedi hynny, mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei chymeradwyo gan y Weithrediaeth cyn ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i'w hadolygu a'i chraffu.

Mae fframwaith rheoli risg CGDG yn cael ei arwain gan ofynion a argymhellir yn Llyfr Oren Trysorlys EF ac yn mabwysiadu'r model tair llinell o sicrwydd amddiffyn. Yn ystod 2023–2024 cyflwynwyd gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risg a roddodd sicrwydd gwell i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Er bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd trwy ei adolygiad a chraffu ar drefniadau rheoli risg CGDG, y Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod arferion rheoli risg priodol yn eu lle.

## 5. Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod bob chwarter i adolygu a thrafod yr holl ddiweddariadau risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol trwy fesurau rheoli lliniaru a mesurau sicrwydd rheoli. Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar dderbyn sicrwydd ychwanegol gan swyddogion mewn perthynas â materion yn ymwneud â phobl/AD, trefniadau diogelu data a gwybodaeth a threfniadau atal twyll. Darparodd y Pwyllgor heriau a chraffu ar drefniadau cofnodi risg, adrodd a sicrwydd CGDG a hefyd roedd angen sicrwydd ynghylch ymatebolrwydd rheolwyr i weithredu argymhellion archwilio mewnol. Darparwyd y sicrwydd hwn er boddhad i'r Pwyllgor.

## 6. Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad


Mae gan CGDG system gynllunio sydd wedi'i dylunio i nodi blaenoriaethau a chynlluniau corfforaethol ym mhob cyfnod ac i fod yn ganllaw wrth gyflwyno'r strategaeth a gymeradwyir gan y Bwrdd. Datblygir cynlluniau cyfarwyddiaethau ar draws y sefydliad, sy'n bwydo i mewn i'r cynllun corfforaethol cyffredinol ac i'r amcanion personol ar gyfer staff.

Mae gwybodaeth reoli allweddol ychwanegol hefyd yn cael ei choladu a'i dadansoddi ar gyfer y Weithrediaeth trwy gydol y flwyddyn ar ffurfiau

amrywiol. Mae hon yn cyflwyno data ar faterion megis ystadegau cyflogaeth, gwasanaethau dyfarnu grantiau, a data ariannol arall megis ein balans yn CDLG. Mae ein hymagwedd at gynllunio'n parhau i esblygu ac mae wedi cefnogi ein cynlluniau a'n cyllideb ar gyfer 2024–2025. Mae hyn yn cynnwys gosod blaenoriaethau datblygu penodol yn erbyn ein pedwar nod strategol.

## Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheoli mewnol

Yn fy marn i, wrth ystyried adroddiad sicrwydd y Pennaeth Archwilio Mewnol, mae systemau llywodraethu a mesurau rheoli mewnol CGDG yn ddigonol. Maent yn fy ngalluogi i sicrhau fy hun bod CGDG yn cydymffurfio â Deddfau'r Loteri Genedlaethol a'r holl gyfarwyddiadau polisi, ariannol a chyfrifon sydd o reidrwydd yn berthnasol i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.



## Eilish McGuinness

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

23 Gorffennaf 2024

## Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

Mae'r adroddiad tâl cydnabyddiaeth yn cwmpasu'r sefydliad cyfan ac mae'r costau wedi'u dosrannu i gyfrifon cymorth grant a chyfrifon dosbarthu'r Loteri.

### Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr

Roedd gan bob ymddiriedolwr hawl i dderbyn cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau'r Gronfa Treftadaeth. At hynny, mae'r Gronfa Treftadaeth yn ad-dalu treuliau teithio ymddiriedolwyr wrth iddynt deithio o'u cartrefi i'w swyddfa gyflogaeth.

Mae tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth arnynt, yn cyfateb i'r amrediadau yn y tabl isod. Penodir yr holl ymddiriedolwyr gan y Prif Weinidog.

Penodir ymddiriedolwyr am dair blynedd, gyda'r potensial o'u hadnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaeth y Gronfa Treftadaeth unrhyw gyfraniadau at gynllun pensiwn ar ran yr ymddiriedolwyr.

### Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Dyrannwyd tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar sail 1%:99%. Y cyfanswm tâl cydnabyddiaeth i ymddiriedolwyr yn 2023–2024 oedd £188,290 (2022–2023: £179,088). Trafodir a phennir tâl a chontractau ymddiriedolwyr gan DCMS. Nid yw eu contractau'n cynnwys unrhyw gymalau bonws.

	2023–24 £'000	2022–23 £'000
Dr Simon Thurley CBE (Cadeirydd)	40–45	40–45
Maria Adebowale-Schwarte tan 15 Chwefror 2024	5–10 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)	10–15
Anna Eavis o 16 Chwefror 2024	0–5 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)	–
Dr Claire Feehily tan 30 Tachwedd 2023	5–10 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)	10–15
Julian Glover o 1 Mai 2022	15–20	10–15 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)
Roisha Hughes o 16 Chwefror 2024	0–5 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)	–
Denise Lewis-Poulton o 6 Chwefror 2023	20–25	0–5 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 20–25)
Ray Macfarlane	20–25	20–25
Taryn Nixon o 1 Mai 2022	15–20	10–15 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)
Carol Pyrah o 9 Mai 2022	15–20	10–15 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)
Mukesh Sharma MBE DL	20–25	20–25
Dr David Stocker tan Chwefror 2024	5–10 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)	10–15
James Twining o 1 Rhagfyr 2023	0–5 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15)	–

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

Dangosir tâl cydnabyddiaeth a pensiwn y Weithrediaeth yn y tablau isod.

## Tâl cydnabyddiaeth y Weithrediaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

	Cyflwg 2023–24 £'000	Cyflwg 2022–23 £'000	Buddiannau pensiwn a gronnyd yn ystod 2023–24 £'000	Buddiannau pensiwn a gronnyd yn ystod 2022–23 £'000	Cyfanswm 2023–24 £'000	Cyfanswm 2022–23 £'000
Eilish McGuiness Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu	145–150	140–145	(172)*	182	(20–25)	320–325
Harnish Hadani Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes tan 30 Mehefin 2023	25–30 (Cyferth blwyddyn lawm: 110–115)	100–105 (Cyferth blwyddyn lawm: 110–115)	11	39	30–40	135–140
Isabel Hunt Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes	125–130	120–125	48	46	175–180	165–170
Anne Jenkins Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes	110–115	105–110	14	201	125–130	305–310
Richard Sydee Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes o 19 Mehefin 2023	90–95 (Cyferth blwyddyn lawm: 115–120)	–	13	–	100–105	–

## Datgeliad pensiwn y Weithrediaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad £'000	Cyfanswm pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a chyfundaliad £'000	Gwerth Trosgrlwyddo Cyferth ag Arian Parod (CETV) ar 31 Mawrth 2024 £'000	CETV ar 31 March 2023 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV a ariennir gan CGDG £'000
Eilish McGuiness Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu	0 plws cyfundaliad o 0	55–60 plws cyfundaliad o 150–155	1,430	1,529	(209)*
Harnish Hadani Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes tan 30 Mehefin 2023	0–2.5	5–10	104	86	8
Isabel Hunt Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes	2.5–5	10–15	217	153	36
Anne Jenkins Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes	0–2.5 plws cyfundaliad o 0	50–55 plws cyfundaliad o 140–145	1,289	1,180	0
Richard Sydee Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes o 19 Mehefin 2023	0–2.5 plws cyfundaliad o 0	40–45 plws cyfundaliad o 100–105	859	800	(3)

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl ymadael â'r cynllun fel aelod gweithredol os ydynt eisoes ar oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu'r oedran pensiwn gwladol ar gyfer aelodau alpha y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill newydd. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillir ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha fel y bo'n briodol. Pan fydd gan y cyfarwyddwr fuddiannau mewn PGPGS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedranau gwahanol.

Adroddwyd am unrhyw aelodau yr effeithiwyd arnynt gan y Cynllun Unioni Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus yng nghynllun 2015 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yn 2022–2023, ond cânt eu hadrodd yn y cynllun etifeddiaeth ar gyfer yr un cyfnod yn 2023–2024.

\* Mae hyn yn ymwneud ag aelod cyflog terfynol (classic/classic plus/premium) sydd wedi trosglwyddo i alpha. Mae pensiwn cyflog terfynol person mewn cyflogaeth yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Os nad oes codiad cyflog neu ond codiad cyflog bychan, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigon i wrthbwysu'r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn ostwng, a dyna pam fod y gwerthoedd yn negyddol.



## Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV)

CETV yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn a aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynnol a delir o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniad pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniad pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi'n unig.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn gwasanaeth sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn budd-daliadau o ganlyniad i dreth lwfans gydol oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob rôl staff uwch gontractau cyflogaeth parhaol, ac eithrio un aelod o staff a oedd ar gontract cyfnod penodol, ac roeddent i gyd yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a CGDG ar sail 99:1 (2022–2023:99:1).

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio canllawiau'r cyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau

cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2024. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddarau ar 27 Ebrill 2023; caiff y canllawiau hyn eu defnyddio o hyd wrth gyfrifo ffigurau CETV 2024–2025.

## Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O fis Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil: Y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfu gydag oedran pensiwn sy'n cyfateb i oedran pensiwn gwladol yr aelod (neu 65 oed os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd ei benodi a'r mwyafrif o'r rhai a fu eisoes mewn gwasanaeth ag alpha.

Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS), sydd â phedair adran: tri sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfu gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan gyllid a bleidleisir gan senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Parhaodd aelodau presennol PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i fod yn rhan o PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Gwnaeth y rhai yr oeddent rhwng 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 newid i alpha rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod Llywodraeth y DU yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, mae'n bosibl y bydd gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i fuddiannau pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler uchod). Bydd buddiannau PGPGS yr holl aelodau a newidiodd i

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

alpha yn cael eu bancio, a bydd y rhai sydd â buddiannau cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol PGPFS yn gweld bod y buddiannau hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniad buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad prynu arian gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Mae cyfraniadau cyfloggeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% o enillion pensiynadwy yn achos aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premium yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig.

I bob pwrpas mae classic Plus yn gynllun hybrid, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillir yr aelod yn cael ei gredu gyda 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Mae buddiannau mewn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos ond mae'r gyfradd gronni'n 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniad pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £44,250 (2022–2023: £45,276) i banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae'r Gronfa Treftadaeth yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddiwynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o'r panel o ddarparwyr. Yn ystod 2018–2019, lleihawyd y panel i un cyflenwr, Legal & General.

Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ar hyn o bryd mae saith aelod staff yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Ceir manylion pellach am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar y wefan [www.civilservicepensionscheme.gov.uk](http://www.civilservicepensionscheme.gov.uk). Er eu bod yn gynlluniau buddiant diffiniedig, mae atebolrwydd am dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar PGPFS neu alpha. Mae adrannau, asiantaethau a chyrrff eraill sy'n dod o dan PGPFS ac alpha yn talu cost y pensiwn a ddarperir ar gyfer y staff y maent yn eu cyflogi ar ffurf taliadau a gyfrifir ar sail gronedig.

Ar gyfer 2023–2024, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £3,096,114 (2022–2023: £2,878,911 ac eithrio symiau a dalwyd i gynlluniau pensiwn partneriaeth, i PGPFS ac alpha ar y cyfraddau a ddisgrifir fel a ganlyn:

Band cyflog	%
£23,000 a llai	26.6
£23,001–£45,500	27.1
£45,501–£77,000	27.9
£77,001 ac yn uwch	30.3

## Cymhareb tâl cydnabyddiaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Y cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf yn 2023–2024 a 2022–2023 oedd y Prif Weithredwr fel y datgelir yn y tabl ar dudalen 28. Roedd band tâl cydnabyddiaeth blynyddol y Prif Weithredwr yn £145,000 i £150,000 (2022–2023: £140,000 i £145,000). Roedd hyn tua 3.7 gwaith (2022–2023: 3.8 gwaith) tâl cydnabyddiaeth canolrif y gweithlu, sef £39,730 (2022–2023: £37,546). Nid oedd unrhyw gyfloggeion a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth uwch na'r cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf. Amrywiodd tâl cydnabyddiaeth o £21,838 i fand o £145,000 i £150,000 (2022–2023: £19,800 i fand o £140,000 i £145,000).

## Datgeliad cyflog teg

Mae'r newid canrannol o 2022–2023 i 2023–2024 mewn perthynas â'r cyfarwyddwr â'r tâl uchaf a'r newid canrannol cyfartalog ar draws yr holl staff (ac eithrio'r cyfarwyddwr â'r tâl uchaf) yn is. Yn 2023–2024, roedd taliadau bonws staff yn uwch na'r flwyddyn flaenorol oherwydd y bu'r cyfanswm cyllideb bonws staff yn uwch.

	Cyfanswm cyflog a lwfansau 2023–24	Taliadau bonws i staff 2023–24	Cyfanswm cyflog a lwfansau 2022–23	Taliadau bonws i staff 2022–23
Cyfartaledd staff	<b>5.32%</b>	<b>25.51%</b>	2.59%	-12.24%
Y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf	<b>3.51%</b>	–	-3.39%	–

Datgelir isod cymhareb cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr o'i gymharu â 25ain, 50ain a 75ain canradd tâl cyfwerth ag amser llawn staff. Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tal ar sail perfformiad anghyfunedig a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

	2023–24 £	2023–24 Cymhareb	2022–23 £	2022–23 Cymhareb
25ain canradd	<b>28,541</b> (28,082 cydran gyflog)	<b>5.2</b>	27,255	5.2
50ain canradd	<b>39,730</b> (39,087 cydran gyflog)	<b>3.7</b>	37,546	3.8
75ain canradd	<b>45,011</b> (44,497 cydran gyflog)	<b>3.3</b>	43,019	3.3

## Pecynnau ymadael (gwybodaeth wedi'iharchwilio)

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet, mae'n ofynnol i'r Gronfa Treftadaeth gyhoeddi manylion pob pecyn ymadael a gytunwyd yn y flwyddyn ariannol dan sylw. Mae pecynnau ymadael yn cynnwys diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeol yn gynnar, digolledu am golli swydd a thaliadau ex-gratia. Ni thalodd y Gronfa am unrhyw becynnau o'r fath yn 2023–2024 (2022–2023: dim).

## Costau staff (gwybodaeth wedi'iharchwilio)

	2023–24 £'000	2022–23 £'000
Cyflogau	<b>13,149</b>	11,159
Taliadau YG y Cyflogwr	<b>1,277</b>	1,165
Taliadau i'r cynllun pensiwn	<b>3,140</b>	2,924
Costau staff dros dro	<b>562</b>	879
	<b>18,128</b>	16,127

Oherwydd y ffordd y mae ein systemau'n gweithredu nid ydym yn gallu darparu dadansoddiad o'r costau rhwng staff ar gontractau parhaol a'r rheini ar gontractau cyfnod penodol. Mewn modd tebyg, nid yw staff dros dro ac asiantaeth wedi'u cynnwys yn y tablau isod gan nad yw ein systemau'n caniatáu cywain a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn. Mae nifer cyfartalog y cyflogeion a fu'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn 2023–24 (gyda chymaryddion y flwyddyn flaenorol) fel a ganlyn:

2023–24	Cyflwyno Busnes	Gwasan-aethau Busnes	Arloesoedd a Mewnwelediad Busnes	Cyfanswm
Staff parhaol	<b>172</b>	<b>44</b>	<b>48</b>	<b>264</b>
Secondeion, staff contract a phrentisiaid	<b>17</b>	<b>12</b>	<b>8</b>	<b>37</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>189</b>	<b>56</b>	<b>56</b>	<b>301</b>


2022–23	Cyflwyno Busnes	Gwasan-aethau Busnes	Arloesoedd a Mewnwelediad Busnes	Cyfanswm
Staff parhaol	157	40	45	242
Secondeion, staff contract a phrentisiaid	25	14	7	46
<b>Cyfanswm</b>	<b>182</b>	<b>54</b>	<b>52</b>	<b>288</b>

## Lefelau absenoldeb

Gostyngodd lefelau salwch yn y Gronfa Treftadaeth i 2% y llynedd, gan symud yn ôl tuag at lefelau cyn y pandemig. Mae hyn yn cymharu'n dda â metrigau absenoldeb cenedlaethol sy'n gosod lefelau salwch cyfartalog y DU ar 2.6% (a hyd yn oed yn uwch mewn cymaryddion sector cyhoeddus yn unig). Fe wnaethom barhau i fuddsoddi mewn cefnogi lles a darparu cyfleusterau rhagorol i staff (gweler yr adran Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith isod). Ar ben hynny, rydym yn parhau i ddarparu

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

cyfleoedd gwaith hybrid ardderchog i helpu staff i gydbwysu ymrwymiadu personol a gwaith, a bu i ni gyflwyno ystod o drefniadau absenoldeb arbennig newydd i gefnogi staff ar adegau pan fydd angen cymorth ychwanegol arnynt.



Ffynhonnell: Absenoldeb oherwydd salwch ym marchnad lafur y DU – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

## Ennyn diddordeb ac ymgynghori â chyflogeion

Bu i ni gynnal arolwg pwls cyfranogiad gweithwyr yn 2023. Roedd hwn yn arolwg interim byr, gan bwysu a mesur ein sefyllfa blwyddyn ymlaen o'n harolwg llawn yn 2022. Roedd y gyfradd ymateb o 83% yn dangos cyfranogiad mawr. Yn gyffredinol, roedd canlyniadau'r arolwg pwls yn debyg i'n harolwg llawn yn 2022. Dywedodd y canlyniadau wrthym ein bod yn gwerthfawrogi'n fawr ein gallu fel sefydliad i wneud gwahaniaeth a chael pwrpas gwirioneddol yn y sector treftadaeth. Yn benodol, roedd ein staff yn rhannu ein barn fod ymdeimlad y sefydliad o gyfeiriad, gweledigaeth ac uchelgais yn Treftadaeth 2033 yn glir. Amlygodd yr arolwg hefyd fod dealltwriaeth o sut yr ydym i gyd yn cyfrannu at lwyddiant y sefydliad yn gysylltiedig ag ymrwymiad cryf a diddordeb yn y gwaith a wnawn.

Gwelsom hefyd feysydd clir i'w datblygu. Mae angen ymdrech fwy parhaus i fynd i'r afael â heriau o ran sut y mae cydweithwyr yn profi datblygiad gyrfa ac arweinyddiaeth. At hynny, mae llwythi gwaith, adnoddau a byw ein gwerthoedd yn feysydd mwy penodol i'w datblygu ymhellach. Ymddangosodd rhai o'r themâu hyn hefyd yng nghanlyniadau arolwg 2022. Rydym yn parhau i weithio ar draws pedair thema gweithredu allweddol, a nodwyd yn 2022 ac sy'n adleisio'r adborth o arolwg pwls 2023. Y meysydd gweithredu hyn yw:

- gwelededd ac ymddygiadau arweinwyr

- datblygu gyrfa a sgiliau
- sgiliau arweinyddiaeth
- rheoli perfformiad

Bydd llawer o gamau gweithredu yn parhau dros sawl blwyddyn gan fod angen i ni sicrhau digon o amser ar gyfer dylunio, gweithredu, ymwreiddio a gwerthuso. Mae ein sesiynau briffio gwybodaeth, vlogs arweinwyr, fideos cynefino a blogiau wedi cynyddu amlygrwydd arweinwyr, a byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd newydd o ymgysylltu â staff. Cynyddwyd ein cyllideb ddysgu a'r flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i archwilio sut rydym yn sicrhau bod gennym y sgiliau cywir yn y sefydliad. Rydym yn cydnabod bod angen cynnal y mentrau hyn a'u datblygu'n barhaus.

## Rhwydweithiau staff

Fe wnaethom barhau i gefnogi ein pum rhwydwaith staff mewnol. sy'n darparu cyfleoedd cefnogaeth gan gymheiriaid, ac yn gweithredu fel sianel ddefnyddiol i ymgysylltu ac ymgynghori â chyflogeion. Mae ein harweinwyr rhwydwaith yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr. Ein rhwydweithiau yw:

- Rhwydwaith Mwyafrif Byd-eang
- Rhwydwaith Rhywedd
- Rhwydwaith LHDT+
- Rhwydwaith Niwroamrywiaeth
- Rhwydwaith Anabledau

## Hyrwyddwyr diwylliant

Mae ein hyrwyddwyr diwylliant yn rhwydwaith cymheiriaid gwirfoddol o staff sy'n cefnogi ein gwaith o ymwreiddio ein gwerthoedd, ein hymddygiad a'n diwylliant ar draws y Gronfa Treftadaeth. Maent yn dod â llais y staff a'u profiadau eu hunain i sgysrsiau am gynlluniau a gweithgareddau sefydliadol. Teimlant eu bod wedi'u grymuso i fod yn agored ac yn onest, i herio'r sefyllfa bresennol ac i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd gydag adnoddau dynol ac arweinwyr.

Yn ogystal â chynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'n hyrwyddwyr diwylliant, yn 2023–2024 fe wnaethom drefnu sawl diwrnod cwrdd i ffwrdd llwyddiannus i

'ymchwilio'n ddwfn' i themâu pwysig. Ymhlith pynciau eraill, bu i'n hyrwyddwyr diwylliant roi mewnbwn i drafodaethau ar gyflog a gwobr, lles a llwythi gwaith, ymwreiddio Treftadaeth 2033, a llunio camau gweithredu sy'n deillio o ganlyniadau ein harolwg staff. Parhaodd aelodaeth o'r grŵp i ehangu yn ystod y flwyddyn.

## Undebau llafur

Mae'r Gronfa'n cydnabod dau Undeb Llafur, PCS a FDA, yr ydym yn cynnal cyfarfodydd chwarterol ffurfiol a chyfarfodydd misol anffurfiol â nhw. Rydym wedi'n hymrwymo'n gryf i waith partneriaeth a chefnogi aelodaeth o undebau llafur. Mae'r holl gynrychiolwyr undebau llafur yn chwarae rolau gwerthfawr yn y gweithle ac mae ganddynt hawl statudol i amser rhesymol i ffwrdd â thâl yn ystod oriau gwaith arferol i gwblhau dyletswyddau undeb, yn unol â'u rôl yn yr undebau llafur ac i ymgymryd â gweithgareddau undeb llafur. Mae'n ofyniad statudol arnom hefyd i ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undeb llafur a gwariant perthnasol.

## Cynrychiolwyr undeb llafur a chyfwerth ag amser llawn

Nifer y cynrychiolwyr

Cynrychiolwyr undeb llafur	<b>23</b>
Cynrychiolwyr undeb llafur CaALI	<b>21.31</b>

## Canran o oriau gwaith a dreuliyd ar amser cyfleuster

Canran o oriau gwaith	Nifer y cynrychiolwyr
0%	<b>0</b>
1–50%	<b>23</b>
51%–99%	<b>0</b>
100%	<b>0</b>

## Cyfanswm bil tâl a chostau amser cyfleuster

Cyfanswm cost yr amser cyfleuster	<b>£30,150</b>
Cyfanswm bil tâl	<b>£18,817,169</b>
Canran y tâl a dreuliyd ar amser cyfleuster	<b>0.16%</b>

## Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Oriau a dreuliyd ar amser gweithgareddau ULI â thâl	<b>0</b>
Canran y cyfanswm amser cyfleuster â thâl a dreuliyd ar weithgareddau ULI â thâl	<b>0%</b>

## Monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI) yn parhau i fod yn rhan annatod o'n gwaith o roi grantiau ac o'n llywodraethu, ein gweithlu, ein gwerthoedd a'n hymddygiadau. Mae ein strategaeth newydd, Treftadaeth 2033, yn rhoi cynhwysiad wrth wraidd popeth a wnawn.

## Dadansoddiad o amrywiaeth y gweithlu


Mae'r siartiau isod yn dangos amrywiaeth y gweithlu, o ran ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd. Dangosir data meincnod cymharol hefyd (yn seiliedig ar lefelau poblogaeth weithio'r DU). Er i ni weld cynrychiolaeth gynyddol o anabledd a chyfeiriadedd rhywiol amrywiol yn y gweithlu, rydym yn cydnabod bod yna grwpiau staff heb gynrychiolaeth ddigonol o hyd. Rydym yn cydnabod tueddiadau ehangach y sector treftadaeth a rhwystrau mynediad sy'n effeithio ar gyfansoddiad ein gweithlu ac yn parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau gweithredu cadarnhaol i helpu mynd i'r afael â hyn, yn ogystal â pharhau i hyrwyddo recriwtio ar sail gwerthoedd.

## Amrywiaeth ethnig yn y gweithlu

Gostyngodd cynrychiolaeth grwpiau ethnig amrywiol yn ein gweithlu i 9% yn 2023–2024, yr ydym yn cydnabod ei fod yn is na lefelau meincnod cenedlaethol ar gyfer amrywiaeth yn y DU ehangach. Mae grwpiau ethnig amrywiol wedi'u tangynrychioli ar draws y sector treftadaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yna heriau y gallwn fynd i'r afael â hwy yn ein gweithlu ein hunain, gan gynnwys rhwystrau posibl i ymgeiswyr newydd.

Bu i ni adolygu ein harferion recriwtio yn 2023–2024, i'n helpu deall y rhwystrau posibl i fynediad yn well. Fe wnaethom hefyd barhau i fuddsoddi mewn gweithredu cadarnhaol gyda'n partneriaid hirdymor, Cymrodoriaeth Windsor. Rydym yn darparu pedair interniaeth â thâl bob blwyddyn ar gyfer ymgeiswyr ethnig amrywiol i'w helpu i ddilyn cyfleoedd gyrfa yn y byd treftadaeth.

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)




Ffynhonnell: Grŵp ethnig, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

## Anabledd yn y gweithlu

Parhaodd canran ein gweithlu ag anabledd i gynyddu, gan godi i 16% yn 2023–2024. Er bod gennym ychydig o dangynrychiolaeth o gymharu â chynrychiolaeth pobl anabl yn y DU, mae canran ein gweithlu ag anabledd bellach yn cyfateb i lefelau anabledd yn y Gwasanaeth Sifil.


Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd a byddwn yn adnewyddu ein hymrwymiad i'r cynllun pwysig hwn yn 2024–2025. Fel rhan o'n hymrwymiad i weithredu cadarnhaol, rydym yn parhau i gymryd rhan yn rhaglen 'Change 100' Leonard Cheshire. Bob blwyddyn rydym yn darparu dwy interniaeth â thâl i fyfyrwyr neu raddedigion ag anabledau/cyflyrau iechyd hirdymor.



Ffynhonnell: Anabledd, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

## Amrywiaeth rhywedd yn y gweithlu treftadaeth


Canran y menywod yn ein gweithlu yn 2023–2024 oedd 74%. Mae hyn yn parhau i fod yn sylweddol uwch na meincnod y DU o fenywod yng ngweithlu ehangach y DU a chymhariaeth meincnod y Gwasanaeth Sifil o 54.2%. Rydym yn cydnabod bod gan lawer o sefydliadau eraill yn y sectorau treftadaeth ac elusennol lefelau uwch o gynrychiolaeth fenywaidd yn eu gweithlu.



Ffynhonnell: Dangosfwrdd Amrywiaeth a Chynhwysiad y Gwasanaeth Sifil – GOV.UK (www.gov.uk)

## Cyfeiriadedd rhywiol yn y gweithlu

Cynyddodd canran y cydweithwyr sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol, cwâr neu gyfeiriadedd rhywiol arall (LHDT+) i 7%. Mae hyn yn parhau i fod yn uwch na meincnod y DU a sefydliadau cymheiriaid eraill. Er bod cyfraddau datgan wedi codi ychydig yn 2023–2024, rydym yn cydnabod bod gennym weithwyr o hyd sy'n dewis peidio â rhannu eu data cyfeiriadedd rhywiol. Mae hyn yn dangos bod angen i ni wneud ymdrechion parhaus i wella cynhwysiad cydweithwyr LHDT+.



Ffynhonnell: Cyfeiriadedd rhywiol, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

## Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Er bod heriau llesiant yn y gweithle i lawer o staff wedi lleihau yn y byd ar ôl y pandemig, rydym yn cydnabod yr angen am barhau i flaenoriaethu cymorth lles cyflogeion ac iechyd a diogelwch ein staff. Amlygodd ein Harolwg Pwls Cyflogeion 2023–2024 yr heriau parhaus o ran llwyth gwaith a llesiant y mae rhai staff yn eu hwynebu, ac rydym wedi ymrwymo'n frwd i ddarparu cymorth i'r rhai sydd ei angen. Fe wnaethom ddarparu mynediad i raglen cymorth i gyflogeion sydd wedi ennill gwobrau, gydag adnoddau a chanllawiau ar-lein a mynediad at wasanaethau cwnsela. Fe wnaethom hefyd gynnig mynediad i:

- ioga a tai chi am ddim
- asesiad iechyd cyn-gyflogaeth ar gyfer recriwtiaid newydd
- sgriniad Nuffield Health
- cymorth iechyd galwedigaethol ac addasiadau rhesymol i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor
- cynllun ffitrwydd a lles
- gwell cyfleoedd ar gyfer cymorth drwy ein trefniadau absenoldeb arbennig newydd ac estynedig

Ymhlith gofynion eraill, mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff ddilyn hyfforddiant iechyd a diogelwch gorfodol gan gynnwys hyfforddiant tân, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, offer sgrîn arddangos a chodi a chario.

## Rheoli cyfalaf dynol

Mae gan ein Strategaeth Pobl 2023–2026 bum thema: rheoli perfformiad; arweinyddiaeth a rheolaeth; lle gwych i weithio; cynyddu sgiliau a hyder; a gwasanaethau AD a phobl ymatebol.


Parhawyd i gydnabod a chefnogi ein gweithlu fel ein hased allweddol wrth gyflawni ein hamcanion busnes trwy gynnig ystod gynhwysfawr o sesiynau hyfforddi a gweithdai i wella effeithiolrwydd y gweithlu. Roedd hyn yn cynnwys datblygiad personol a phroffesiynol. Roedd ein rhaglenni 'Be Remarkable' a ailddyluniwyd yn ddiweddar hefyd yn cefnogi cyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol parhaus i gyflogeion ar bob lefel o'r Gronfa Treftadaeth a chafwyd adborth ardderchog. Ar ben hynny, roedd ein darpariaeth ddysgu'n cwmpasu datblygiad gweithredol ac arweinyddiaeth, sgiliau rheoli, sgiliau craidd i bawb a hyfforddiant ac ymwybyddiaeth EDI.

Roedd gan ein staff fynediad hefyd at gannoedd o adnoddau dysgu ar-lein i gefnogi cyfleoedd dysgu o bell/hybrid. Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ddatblygu rheolwyr ac arweinwyr, parhaodd ein tîm Gweithredol a'n Grŵp Strategaeth a Pherfformiad i gydweithio'n agos â hyfforddwyr profiadol i drosoli eu cryfderau a sbarduno perfformiad busnes.

## Trosiant staff

Trosiant staff yn ystod y flwyddyn oedd 19%, a oedd yn is na meincnod cyflogwyr y DU o 22.5%. Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a welodd uchafbwynt ôl-bandemig o 27% (nad oedd ei hun yn anghydnaws â'r rhan fwyaf o gyflogwyr eraill y DU y flwyddyn honno). Roedd y gyfradd trosiant yn dangos gostyngiad cyson drwy gydol y flwyddyn, gan gyrraedd 13% ar gyfer staff parhaol erbyn mis Ebrill 2024, heb gynnwys ymadawiadau gweithwyr contract cyfnod penodol.

Rydym yn parhau i gydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng cyfraddau cadw staff iach a recriwtio doniau newydd. Er mwyn helpu cadw staff, gwnaethom fuddsoddiadau drwy ein prosesau cynllunio busnes i wella sicrwydd swyddi a lleihau ein dibyniaeth yn y gorffennol ar gcontractau cyfnod penodol i reoli cyfnodau prysur o lwyth gwaith. Fe wnaethom hefyd wella ein gallu i recriwtio ac mae 85% o'n hymgyrchoedd recriwtio bellach yn llwyddiannus y tro cyntaf i ni hysbysebu. Fe wnaethom barhau i fuddsoddi yn ein gweithlu i gefnogi ymgysylltu a chadw trwy gyfleoedd datblygu gweithlu a buddion gwell a chefnogaeth lles.



Ffynhonnell: Cyfraddau trosiant llafur: Data XpertHR 2023 | Dadansoddiad arolwg | Offer | XpertHR.co.uk

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Gwariodd y Gronfa Treftadaeth £59,780 ar wasanaethau ymgynghori yn 2023–2024 (2022–2023: £173,513) fel rhan o'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol mewn perthynas â darparu cyngor ac arbenigedd i gefnogi ein gweithrediadau. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r System Gwybodaeth Ddaeyyddol (GIS) newydd.

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

## Chwythu'r chwiban


Mae gan y Gronfa bolisi chwythu'r chwiban clir i alluogi staff i godi pryderon a datgelu gwybodaeth y mae'r unigolyn yn tybio ei bod yn dangos camarfer neu amhriodoldeb. Mae hyn yn cynnwys materion sydd er lles y cyhoedd ac yn cynnwys y materion (anghynhwysol) a ganlyn:

- camarfer neu amhriodoldeb neu dwyll o ran cyllid
- methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth neu statudau cyfreithiol
- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgarwch troseddol
- ymddygiad amhriodol neu anfoesegol
- ymgeisiau i guddio unrhyw un o'r uchod

Nid oedd unrhyw achosion o ddatgelu camarfer yn ystod y flwyddyn.

## Cyflogi oddi ar y gyflogres

Yn ystod 2022–2023 nid yw'r Gronfa Treftadaeth wedi cyflogi unrhyw unigolion drwy gcontractau oddi ar y gyflogres sydd â goblygiad IR35 (2022–2023: dim byd).



### **Eilish McGuinness**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

23 Gorffennaf 2024



## Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol

### Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ Senedd y DU, Senedd Yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon

#### Barn am ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan Gronfa Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024;
- Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith berthnasol ac yn Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2024 ac am ei gyfanswm incwm cynhwysfawr net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd oddi tani.

#### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

#### Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs UK), cyfraith berthnasol a Nodyn Arfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol 2019 diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwy'n annibynnol i Gyfrif Dosbarthiad Loteri Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

#### Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol;

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol mewn perthynas â digwyddiadau neu gyflyrau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuan sylweddol ar allu Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadwyd y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wrth ystyried y gofynion a nodir yng Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol nag ychwaith fy nhystysgrif ac adroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld yn cael ei chamddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi'r cyfryw anghysondebau materol neu gamddatganiadau materol tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn achosi camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon yn bodoli, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1993.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Sail baratoi; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cydweddu â'r datganiadau ariannol ac yn cyfateb i'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o Gyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau materol yn yr Wybodaeth Arall Statudol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- Nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan Gyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol neu nad yw dychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun yr archwiliad yn cyfateb i'r cofnodion a dychweliadau cyfrifyddu; neu
- os nad yw datgeliadau tâl cydnabyddiaeth penodol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF wedi'u gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w archwilio'n cydweddu â'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifyddu; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- darparu mynediad ar gyfer yr Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- darparu gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu harchwiliad;

- darparu mynediad anghyfyngedig ar gyfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at bersonau o fewn Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol y mae'r archwilydd yn pennu ei bod yn angenrheidiol dderbyn tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath fesurau rheoli mewnol yn bodoli y bernir eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatgan perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n darparu barn wir a theg yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1980;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1980; ac
- asesu gallu Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol

### **Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Fy amcanion yw dod o hyd i sicrwydd rhesymol ynglŷn â pha un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag camddatgan materol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad, ai beidio, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol â SARh (Deyrnas Unedig) bob amser yn datgelu camddatganiad materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd

defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### **I ba raddau yr ystyriwyd yr oedd yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll**

Dyluniai weithdrefnau'n unol â fy nghyfrifoldebau, sydd wedi'u hamlinellu uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy gweithdrefnau yn gallu canfod methiant i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### **Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatgan materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, bu i mi:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisiau cyfrifyddu Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys derbyn ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar:
  - inodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll; a
  - mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys mesurau rheoli Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn perthynas â chydymffurfiaeth Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw

# Adroddiad atebolrwydd (parhad)

achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau;

- a oeddent yn ymwybodol o unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu honiadau o dwyll;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer twyll gan nodi'r potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod reffeniw, postio siwrnalau anarferol, trafodion cymhleth, a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un ffordd â'r holl archwiliadau o dan SRhA (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi berfformio gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdodi Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyfrif Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn eu gweithredu. Bu i mi ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd ag effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau materol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Deddf Dosbarthiad Loteri Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1993; Rheoli Arian Cyhoeddus, cyfraith cyflogaeth a deddfwriaeth treth.

## Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Bu i mi adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau gefnogol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Holais reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n

gyfrifol am lywodraethu ac adolygu, ac adroddiadau archwilio mewnol; ac

- Es i'r afael â'r risg o dwyll o ganlyniad i reolwyr ddiystyru mesurau rheoli drwy brofi priodoldeb cofnodion siwrnal ac addasiadau eraill; gan asesu a yw'r barnau a lunnir wrth wneud amcangyfrifon yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol.

Cyfathrebais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, a pharheais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy nhystysgrif.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â gofal llywodraethu mewn perthynas â, ymysg materion eraill, chwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

## Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

24 Gorffennaf 2024

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157–197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol

# Datganiadau ariannol

## Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net

	Nodiadau	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £'000
<b>Incwm</b>			
<b>Incwm gan y Loteri</b>			
Enillion o'r Loteri Genedlaethol	2	<b>344,673</b>	353,619
Incwm Buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	2	<b>16,794</b>	7,096
		<b>361,467</b>	360,715
<b>Incwm arall</b>			
Mân incwm	3	<b>88</b>	30
<b>Cyfanswm incwm</b>		<b>361,555</b>	360,745
<b>Gwariant</b>			
Gwariant grant	4	<b>(338,801)</b>	(199,212)
Llai gwariant grant sydd wedi darfod neu wedi'u diddymu	4	<b>6,616</b>	9,331
Symudiad yn y ddarpariaeth ar gyfer ymrwymadau segur	4	<b>(8,218)</b>	1,628
		<b>(340,403)</b>	(188,253)
<b>Costau gweithredu</b>			
Costau staff	7	<b>(18,128)</b>	(16,127)
Dibrisio ac amorteiddio	10, 11 a 12	<b>(374)</b>	(978)
Costau gweithredu eraill	6	<b>(9,055)</b>	(9,213)
		<b>(27,557)</b>	(26,318)
<b>Cyfanswm gwariant</b>		<b>(367,960)</b>	(214,571)
<b>Cyfanswm (gwariant)/incwm cynhwysfawr net</b>		<b>(6,405)</b>	146,174

Mae'r nodiadau ar dudalennau 45 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.


## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

	Nodiadau	Ar 31 Mawrth 2024 £'000	Ar 31 Mawrth 2023 £'000
<b>Asedau anghyfredol</b>			
Asedau anniriaethol	10	555	870
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	11	33	50
Asedau hawl i ddefnyddio	12	88	–
Masnachu a symiau derbyniadwy eraill	14	349	448
		<b>1,025</b>	1,368
<b>Asedau cyfredol</b>			
Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	2	628,944	526,770
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		1,736	5,077
Masnachu a symiau derbyniadwy eraill	14	3,431	2,417
		<b>634,111</b>	534,264
<b>Cyfanswm asedau</b>		<b>635,136</b>	535,632
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Masnachu a symiau taladwy eraill	15	(2,942)	(3,069)
Rhwymedigaethau les		(40)	–
Rhwymedigaethau grant	4	(220,372)	(188,651)
		<b>(223,354)</b>	(191,720)
<b>Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau net cyfredol</b>		<b>411,782</b>	343,192
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>			
Rhwymedigaethau les		(49)	–
Rhwymedigaethau grant	4	(437,418)	(363,192)
		<b>(437,467)</b>	(363,192)
<b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>		<b>(25,685)</b>	(19,280)
<b>Cynrychiolir gan:</b>			
Ecwiti a ddygwyd ymlaen		(19,280)	(165,454)
Symudiad y cyfanswm (gwariant)/incwm cynhwysfawr net ar gyfer y flwyddyn		(6,405)	146,174
Ecwiti a gariwyd ymlaen		(25,685)	(19,280)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 45 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



**Dr Simon Thurley CBE**  
Cadeirydd



**Eilish McGuinness**  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

23 Gorffennaf 2024

# Datganiadau ariannol (parhad)

## Datganiad Llifoedd Arian Parod

Nodiadau		Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £'000
<b>(Diffyg)/gwarged gweithredu ar gyfer y cyfnod</b>		<b>(6,405)</b>	146,174
Dibrisio ac amorteiddio	10, 11 a 12	374	978
<b>(Diffyg)/gwarged gweithredu wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod</b>		<b>(6,031)</b>	147,152
Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhwymedigaethau grant	4	105,947	(64,432)
Cynnydd yn y balans NLDF	2	(102,174)	(99,682)
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnachu a symiau derbyniadwy eraill	14	(915)	12,278
(Gostyngiad)/cynnydd mewn masnachu a symiau taladwy eraill	15	(127)	73
<b>All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu</b>		<b>(3,300)</b>	(4,611)
<b>Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi</b>			
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol	10	–	(5)
Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar	11	(8)	(34)
Taliad i gaffael ased hawl i ddefnyddio	12	(122)	32
<b>All-lif ariannol net o weithgareddau buddsoddi</b>		<b>(130)</b>	(7)
<b>Llif arian parod o weithgareddau cyllido</b>			
Rhwymedigaethau les		89	(313)
<b>Gostyngiad mewn arian parod</b>		<b>(3,341)</b>	(4,931)
<b>Gostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod</b>			
Balansau arian parod a gariwyd ymlaen		1,736	5,077
Llai balansau arian parod a ddygwyd ymlaen		(5,077)	(10,008)
<b>Gostyngiad mewn arian parod</b>		<b>(3,341)</b>	(4,931)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 45 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £'000
Balans agoriadol	(19,280)	(165,454)
Trosglwyddwyd o'r Datganiad (Gwariant)/Incwm Cynhwysfawr Net	(6,405)	146,174
<b>Balans terfynol</b>	<b>(25,685)</b>	(19,280)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 45 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



## Nodiadau i'r cyfrifon

### 1. Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon ar ffurf a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyda chaniatâd Trysorlys EF yn unol ag Adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb 1993 ac i fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol (LIAA) Llywodraeth y DU.

Mae'r triniaethau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y LIAA yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddasir neu ddehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Pan fydd y LIAA yn caniatáu dewis, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol CGDG at ddiben darparu barn wir a theg. Mae'r polisiau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG wedi'u disgrifio isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon.

Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

#### a) Confensiwn cyfrifyddu

Cafodd y cyfrifon hyn eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol a'u haddasu lle bo'n briodol ar gyfer gwerth teg. Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau, y LIAA a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bo'n briodol.

#### b) Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol; mae hyn yn gweddu i'r canllawiau a nodir yn y LIAA sy'n nodi y dylid "rhoi sylw i'r dybiaeth sylfaenol y bydd datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol". Ymhellach, mae'n datgan y "dylai endidau nodedig y mae eu datganiadau o sefyllfa ariannol yn dangos cyfanswm rhwymedigaethau net baratoi eu datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai, ar ôl trafod gyda'u noddwyr, yr ystyrir bod y sail busnes gweithredol yn amhriodol". Nid oes unrhyw drafodaethau o'r fath wedi'u cynnal. Nad oes gan CGDG unrhyw reswm dros gredu bod gan DCMS gynlluniau i newid trefniadau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer y sector treftadaeth ac felly mae'r ymddiriedolwyr yn tybio y byddant yn parhau i dderbyn cyllid gan Y Loteri Genedlaethol.

O ran gweithgarwch grantiau'r Loteri Genedlaethol, tynnir arian parod i lawr o Gronfa Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) dim ond yn ôl yr angen. Arian parod i bob pwrpas yw balans CGDG yn CDLG. Polisi cydnabod dyfarniadau grant y Gronfa Treftadaeth yw rhoi cyfrif am werth llawn y dyfarniadau a wneir ar y pwynt cymeradwyo a hysbysu.

Mae pob cytundeb grant Loteri Genedlaethol a lofnodir hefyd yn cynnwys cymal sy'n nodi bod gan y Gronfa Treftadaeth yr hawl i beidio â thalu os nad yw cyllid o incwm y Loteri Genedlaethol ar gael.

Nid yw'r ymddiriedolwyr yn ystyried y ceir unrhyw ansicrwydd materol yn eu casgliad ei bod yn briodol i'r cyfrifon gael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

#### c) Cydnabod incwm

Mae'r incwm a dderbynnir gan y Loteri Genedlaethol fel y'i gynghorir i ni gan DCMS, sy'n rheoli Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) – y gronfa y telir yr holl gyllid perthnasol gan y Loteri Genedlaethol iddi gan weithredwr y Loteri Genedlaethol a'r gronfa yr ydym yn tynnu symiau i lawr ohoni yr ydym eu hangen ar gyfer taliadau grant a chostau gweithredu.

Mae DCMS yn darparu adroddiadau misol i ni ar lifoedd arian parod y Loteri Genedlaethol sy'n ddyledus i ni ynghyd â thystysgrif flynyddol i'n galluogi i gynhyrchu rhifau diwedd blwyddyn ar sail croniadau.

#### ch) Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS.

Er hynny, mae cyfran y balans hwn y gellir ei phriodoli i CGDG i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS fel arian sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan CGDG mewn perthynas ag ymrwymadau presennol a'r rhai yn y dyfodol.

#### d) Asedau anghyfredol

Mae asedau anghyfredol wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol am y gost, ac eithrio eitemau â chost o lai na £2,000 sy'n cael eu codi i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu caffael.

# Datganiadau ariannol (parhad)

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddiwyddmu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

Ased hawl i ddefnyddio (lesau eiddo)	– Dros fywyd y les
Cyfarpar swyddfa	– 4–10 mlynedd
Ffitiadau swyddfa	– 4–10 mlynedd
Meddalwedd asesu grantiau a meddalwedd arall	– hyd at 5 mlynedd

Mae dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

## dd) Dyrannu costau

Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, y mae'n ofynnol i'w wneud o dan ei chyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol sy'n cael eu rhannu rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EF. Mae'r dosraniad costau hwn yn ceisio adlewyrchu'r gyfran benodol o amser a threuliau a ymrwymir i bob gweithgaredd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2022–2023: 99%).

## e) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG wedi'i heithrio'n statudol o dan adran 507 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988.

Nid yw CGDG yn gofrestredig ar gyfer Treth ar Werth (TAW), felly mae costau sy'n cynnwys TAW wedi'u cynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

## f) Pensiwn

Codir y gost reolaidd o ddarparu buddiannau i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net dros fywydau gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensynadwy. Mae bron pob un o'n staff yn aelodau o PGPGS neu alpha (y cynllun a ddilynodd PGPGS) ac mae'r ganran o dâl pensynadwy yn cael ei hysbysu gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau bob blwyddyn ariannol.

Gweler yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff am fanylion pellach.

## ff) Lesau

Mae asedau hawl defnyddio yn cael eu nodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar gost a bennir gan werth presennol y taliadau sy'n ddyledus o dan bob les. Caiff y costau eu hamorteiddio dros isafswm cyfnod y les. Mae costau ariannol gwasanaethu'r asedau ar les yn cael eu codi fel llog yn y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net.

## g) Rhwymedigaethau grant

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn bodloni'r diffiniad o rwymedigaethau yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, boed yn deillio o rwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol.

Caiff dyfarniadau grant eu cydnabod fel gwariant a rhoddir cyfrif am ymrwymadau pan:

- fo'r dyfarniad wedi'i benderfynu'n ffurfiol gan y Gronfa Treftadaeth; a
- phan fo'r dyfarniad wedi'i hysbysu i'r derbynnydd arfaethedig; a
- phan fo'r dyfarniad yn rhydd rhag unrhyw amodau perfformiad penodol o dan reolaeth y Gronfa Treftadaeth

Pan nad oes angen cydnabod rhwymedigaethau mwyach, gan nad yw'r prosiect sy'n cael ei ariannu'n gofyn am yr holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract grant, rydym yn lleihau gwerth y rhwymedigaethau sy'n weddill.

Mae'r holl rwymedigaethau grant yn daladwy ar unwaith wrth dderbyn ceisiadau dilys am daliad. Yn ddamcaniaethol, gallai grantion ofyn am eu grant cyfan o fewn y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw.

Mae dau fath o rwymedigaeth grant:

- 1) Pan fydd y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant wedi'i wneud ond nid oes contract wedi'i lofnodi eto gyda'r granti. Pan fydd y granti wedi cael ei hysbysu am ein penderfyniad i ddyfarnu grant iddo, caiff yr ymrwymiad ei drin fel rhwymedigaeth lawn.
- 2) Pan roddir pas rownd gyntaf i brosiect treftadaeth. Yn yr amgylchiadau hyn pan fydd

yr ariannu'n amodol ar ail benderfyniad, rydym yn datgelu'r rhain fel rhwymedigaethau amodol.

Ceir dadymrwymiaidau ar rwymedigaethau amodol pan na throsir ymrwymiad i rwymedigaeth lawn. Fel arfer mae hyn yn digwydd oherwydd i'r granti benderfynu i beidio ag ymgymryd â'i brosiect neu oherwydd y teimla'r ymddiriedolwyr na allant ariannu ceisiadau rownd dau o ganlyniad i'r angen am gynnal cyllid wrth gefn digonol.

### **ng) Benthyciadau**

Mae gan ymddiriedolwyr yr hawl i wneud benthyciadau i gyrrff treftadaeth o dan gyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS. Mae'r cyfraddau llog a thelerau ad-dalu yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu gwneud fel rhan o'n cylch gwaith i wella a diogelu treftadaeth y DU ac nid i gasglu llifoedd arian contract neu i'w hailwerthu. Gan hynny, o dan IFRS 9, Offerynnau Ariannol, bydd benthyciadau'n cael eu prisio ar werth teg pan fydd unrhyw addasiad yn faterol, gyda'r addasiad yn mynd trwy'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net. Pan godir llog, byddwn yn cydnabod y llog yn y flwyddyn y caiff ei gronni er gwaetha'r ffaith y caiff ei dderbyn mewn blwyddyn ddiweddarach o dan delerau'r cytundeb benthyciad.

### **h) Cynlluniau grant ar y cyd**

Pan fydd CGDG yn gweithredu cynllun grant ar y cyd yn rhannol ar ran sefydliadau eraill (ar hyn o bryd Parks for People gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol) nid ydym yn cydnabod symiau a dderbyniwyd gan y cyrff hyn fel incwm. I bob pwrpas, mae'r cyllid a dderbynnir gan y cyrff hyn yn cael ei drosglwyddo i grantion neu gyflenwyr. Gan hynny nid ydym ond wedi cynnwys cyfran CGDG o daliadau grant y cynlluniau yn y cyfrifon hyn gan i ni drosglwyddo cyfran y sefydliadau eraill ymlaen at y granti. Yn yr un modd nid ydym ond wedi datgelu cyfran CGDG o wariant gweithredu ar gyfer y cynlluniau hyn ac wedi trosglwyddo unrhyw gyllid ar gyfer gwariant gweithredu o'r sefydliadau eraill i gyflenwyr.

Rydym yn diffinio cynlluniau grant ar y cyd fel rhaglenni lle mae gan fwy nag un parti ran yn y broses benderfynu ar gyfer gwneud dyfarniad. Yn achos y rhaglen Parks for People, mae cynrychiolwyr CGDG a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ill dau'n penderfynu i bwy y dylid dyfarnu grantiau. Yn y sefyllfaoedd hynny pan roddir cyllid i ni heb

unrhyw gyfranogiad yn y penderfyniad terfynol ar y dyfarniad, rydym yn trin y symiau hyn fel rhoddion. Os yw'r symiau a roddwyd yn deillio o'r Loteri Genedlaethol, yna mae'r rhodd yn cael ei rhoi i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol; fel arall, trinnir y cyllid fel rhodd i CGDG hyd yn oed os caiff ei aseinio i brosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn y pen draw.

### **i) Arian parod a chyfwerth ag arian parod**

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon a ddelir ar alwad gyda banciau masnachol.

### **l) Ansicrwydd amcangyfrif**

Mae paratoi'r cyfrifon hyn yn ei gwneud yn ofynnol i uwch reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau a all effeithio ar fesur incwm, treuliau, asedau, rhwymedigaethau a gofnodir a datgelu rhwymedigaethau wrth gefn. Gall hefyd effeithio ar y dyraniad costau rhwng ein cymorth grant a'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Os yw'r amcangyfrifon a'r thybiaethau hyn, sy'n seiliedig ar amcangyfrif neu farn orau uwch reolwyr ar ddyddiad y datganiadau ariannol, yn gwyro oddi wrth amgylchiadau gwirioneddol yn y dyfodol, caiff yr amcangyfrifon a'r thybiaethau gwreiddiol eu diweddarau yn y cyfnod y bydd yr amgylchiadau'n newid ynddo.

Mae ein hamcangyfrifon a'n dyfarniadau'n cael eu gwerthuso'n barhaus ac maent yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Y barnau mwyaf arwyddocaol yw:

#### **Darpariaeth ar rwymedigaethau grant**

Bob blwyddyn rydym yn gwneud darpariaeth yn erbyn rhwymedigaethau grant a gydnabyddir yn y cyfrifon. Mae hyn yn cynnwys:

- dad-ymrwymiaidau y gwyddys amdanynt ar ôl diwedd y flwyddyn
- rhwymedigaethau a allai fod yn anactif, h.y.: heb dderbyn unrhyw daliadau grant na chyswllt ers nifer o flynyddoedd)

#### **Dyrannu costau rhwng ein dau brif weithgaredd**

Mae gennym system cofnodi amser er mwyn i staff nodi pa raglenni cymorth grant y maent yn gweithio arnynt ac mae costau'n cael eu hailgodi yn seiliedig ar y data hwnnw. Mae'n ofynnol i staff gofnodi faint o amser y maent yn ei dreulio ar bob rhaglen bob mis.

# Datganiadau ariannol (parhad)

## 2. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG)

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Balans a ddygwyd ymlaen	526,770	427,088
Enillion o'r Loteri Genedlaethol	344,673	353,619
Incwm buddsoddi o CDLG	16,794	7,096
Arian a dynnwyd i lawr o CDLG	(259,293)	(261,033)
<b>Balans a gariwyd ymlaen</b>	<b>628,944</b>	<b>526,770</b>

## 3. Mân incwm

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Ad-dalu grantiau	87	29
Mân incwm arall	1	1
	<b>88</b>	<b>30</b>

## 4. Rhwymedigaethau grant

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Rhwymedigaeth a ddygwyd ymlaen	551,843	616,275
Ymrwymadau yn y flwyddyn	338,801	199,212
Dad-ymrwymadau	(6,616)	(9,331)
Symudiad yn y ddarpariaeth ymrwymiad segur	8,218	(1,628)
Ymrwymadau a dalwyd	(234,456)	(252,685)
<b>Rhwymedigaeth a gariwyd ymlaen</b>	<b>657,790</b>	<b>551,843</b>

Mae balans y rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n debygol o gael eu talu i ymgeiswyr yn y cyfnodau a ganlyn:

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>		
Ymhen un flwyddyn	220,372	188,651
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>		
Ymhen dwy flynedd	164,223	131,503
Ymhen tair blynedd	98,870	78,759
Ymhen pedair blynedd	53,230	42,202
Ymhen pum mlynedd	27,951	21,225
Ymhen mwy na phum mlynedd	93,144	89,503
	<b>437,418</b>	<b>363,192</b>
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol ac anghyfredol</b>	<b>657,790</b>	<b>551,843</b>

Ar 31 Mawrth 2024, roedd y symiau uchod yn net o ddarpariaeth o £0.1m (31 Mawrth 2023: £8.3m) am symiau yr ydym yn eu rhagweld efallai na chânt eu talu yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r ddarpariaeth yn 2023-2024 yn seiliedig ar adborth uniongyrchol gan y tîm Cyflwyno Busnes o ran grantiau sydd wedi cau ond heb gael eu cofrestru eto ar y system rheoli buddsoddiadau. Yn 2022-2023, roedd y ddarpariaeth wedi'i harwain yn fwy gan farn ac yn seiliedig ar y tebygolrwydd o grantiau y disgwyliwyd y byddent yn cau ar sail eu hoedran.

## 5. Rhwymedigaethau amodol

Mae rhwymedigaethau amodol yn cynrychioli gwerth dyfarniadau grant posibl y mae'r ymddiriedolwyr wedi rhoi pasys rownd un ar eu cyfer. Pan fydd ymgeisydd yn dychwelyd gyda'r cais rownd dau, bydd yr eitemau hyn naill ai'n mynd yn ddyfarniadau grant neu'n cael eu gwrthod.

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Rhwymedigaeth amodol a ddygwyd ymlaen	330,272	200,993
Ymrwymadau yn y flwyddyn	206,688	201,726
Dad-ymrwymadau	(12,550)	(4,383)
Ymrwymadau a dalwyd	(118,599)	(68,064)
<b>Rhwymedigaeth amodol a gariwyd ymlaen</b>	<b>405,811</b>	<b>330,272</b>

## 6. Costau gweithredu eraill

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Llety	993	834
Post a ffonau	342	267
Nwyddau swyddfa, argraffu a nwyddau papur	4	12
Taliadau o dan lesau gweithredol – hurio cyfarpar swyddfa	15	20
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch – ymddiriedolwyr	82	107
– staff	510	452
Ffioedd proffesiynol – cysylltiedig â grantiau	1,703	1,695
– ddim yn gysylltiedig â grantiau	4,121	4,118
Tâl cydnabyddiaeth archwilwyr	48	45
Cyfathrebu	663	517
Cyfarpar swyddfa	203	714
Hyfforddiant staff	342	320
Mân dreuliau	29	112
	<b>9,055</b>	<b>9,213</b>

Ni thalwyd unrhyw ffioedd am wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio i'r archwilwyr allanol.

## 7. Costau staff

£'000	2023-24 £'000	2022-23
Cyflogau	<b>13,149</b>	11,159
Taliadau YG y Cyflogwr	<b>1,277</b>	1,165
Taliadau i'r cynllun pensiwn	<b>3,104</b>	2,924
Costau staff dros dro	<b>562</b>	879
	<b>18,128</b>	16,127

## 8. Costau a ailgodwyd

Yn ystod 2023-2024, dosbarthodd CGDG symiau o arian gan wahanol sefydliadau llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y gyfran o gostau gweithredu ar y cyd a ddosrannwyd i ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2022-2023: 99%).

Rydym yn nodi cyfran y gwaith a wneir gan staff ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri Genedlaethol ac yn ailgodi hyn ar y rhaglenni amrywiol a gefnogir gan gymorth grant. Rydym hefyd yn cyfrifo dyraniad gorbenion cysylltiedig fel rhan o'r dasg hon o ailgodi costau.

Cyfanswm gwerth y costau wedi'u hailgodi hyn yn 2023-2024 oedd £1.7m ((2022-2023: £2.4m).

## 9. Dangosydd perfformiad ariannol

Ein dangosydd perfformiad ariannol yw'r gyfran o'n hincwm Loteri Genedlaethol a wariwn ar ei ddosbarthu, wedi'i asesu dros gyfnod o dair blynedd. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau yr ydym yn eu hailgodi ar CGDG a chostau buddsoddi untro (eitemau eithriadol) i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Yn 2023-2024, mae'r rhain ar gyfer adnoddau sy'n gysylltiedig â phontio i'r fframwaith strategol newydd (£0.7m); ail-beiriannu proses y System Rheoli Buddsoddiadau (£0.8m); a mesurau effeithlonrwydd cyffredinol systemau TG (£0.5m).

Roedd y gost o ddosbarthu ein cyfran o incwm y Loteri Genedlaethol yn 6.9% o incwm y Loteri Genedlaethol yn y flwyddyn (2022-2023: 6.8%). Wedi'i hasesu dros y cyfnod treigl o dair blynedd, 6.5% oedd y gyfran. Mae hyn o fewn trothwy DCMS o 8.00%.

	2023-24 £'000	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Costau gweithredu	<b>27,577</b>	26,318	21,456
Llai eitemau eithriadol	<b>(1,981)</b>	(1,812)	—
Llai TAW	<b>(750)</b>		
<b>Cyfanswm gwariant cymwys</b>	<b>24,826</b>	24,506	21,456
Enillion o'r Loteri Genedlaethol	<b>344,673</b>	353,619	361,550
Incwm buddsoddi	<b>16,794</b>	7,096	512
<b>Cyfanswm incwm cymwys</b>	<b>361,467</b>	360,715	362,062
<b>Canran</b>	<b>6.87%</b>	6.79%	5.93%

# Datganiadau ariannol (parhad)

## Sefyllfa tair blynedd dreigl

Ar 31 Mawrth 2024  
£'000

Cyfanswm gwariant cymwys	<b>70,788</b>
Cyfanswm incwm cymwys	<b>1,084,244</b>
<b>Canran</b>	<b>6.53%</b>

## 10. Asedau anniriaethol

	Gwefan		Technoleg gwybodaeth		Cyfanswm	
	2023-24 £'000	2022-23 £'000	2023-24 £'000	2022-23 £'000	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Cost ar ddechrau'r flwyddyn	<b>126</b>	582	<b>3,647</b>	3,642	<b>3,773</b>	4,224
Ychwanegiadau				5	-	5
Gwarediadau	-	(456)	<b>(2,196)</b>	-	<b>(2,196)</b>	(456)
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>126</b>	126	<b>1,451</b>	3,647	<b>1,577</b>	3,773
Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn	<b>107</b>	537	<b>2,796</b>	2,497	<b>2,903</b>	3,034
Gwarediadau		(456)	<b>(2,196)</b>		<b>(2,196)</b>	(456)
Tâl am y flwyddyn	<b>19</b>	26	<b>296</b>	299	<b>315</b>	325
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>126</b>	107	<b>896</b>	2,796	<b>1,022</b>	2,903
Llyfrwerth net						
Ar ddechrau'r flwyddyn	<b>19</b>	45	<b>851</b>	1,145	<b>870</b>	1,190
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>		19	<b>555</b>	851	<b>555</b>	870

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesu ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli costau a anfonebir i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd. Ni chyfalafwyd unrhyw gostau a gynhrychwyd yn fewnol.

## 11. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

	Eiddo prydles fer		TG a chyfarpar arall		Ffitiadau swyddfa		Cyfanswm	
	2023-24 £'000	2022-23 £'000	2023-24 £'000	2022-23 £'000	2023-24 £'000	2022-23 £'000	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Cost ar ddechrau'r flwyddyn	-	1,152	<b>172</b>	1,099	-	59	<b>172</b>	2,310
Ychwanegiadau	-	-	<b>8</b>	34	-	-	<b>8</b>	34
Gwarediadau	-	(1,152)	<b>(48)</b>	(961)	-	(59)	<b>(48)</b>	(2,172)
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	-	-	<b>132</b>	172	-	-	<b>132</b>	172
Dibrisio ar ddechrau'r flwyddyn	-	1,001	<b>122</b>	865	-	48	<b>122</b>	1,914
Gwarediadau	-	(1,152)	<b>(48)</b>	(961)	-	(59)	<b>(48)</b>	(2,172)
Tâl am y flwyddyn	-	151	<b>25</b>	218	-	11	<b>25</b>	380
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	-	-	<b>99</b>	122	-	-	<b>99</b>	122
Llyfrwerth net								
Ar ddechrau'r flwyddyn	-	151	<b>50</b>	234	-	11	<b>50</b>	396
<b>Ar ddiwedd y flwyddyn</b>	-	-	<b>33</b>	50	-	-	<b>33</b>	50

Mae gwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd y rhaniad hwn yw 99% Loteri Genedlaethol ac 1% cymorth grant (gweler nodyn 8).

## 12. Ased hawl i ddefnyddio

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	–	305
Creu'r ased hawl i ddefnyddio	122	–
Gostyngiad yn yr ased hawl i ddefnyddio	–	(32)
Amorteiddiad	(34)	(273)
<b>Balans ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>88</b>	<b>–</b>

## 13. Ymrwymiadau les

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Ddim yn hwyrach nag un flwyddyn	16	16
Yn hwyrach nag un flwyddyn ond ddim yn hwyrach na phum mlynedd	17	33
Yn hwyrach na phum mlynedd	–	–
	<b>33</b>	<b>49</b>

Mae'r lesau hyn yn ymwneud â pheiriannau llungopio.

## 14. Masnachu a symiau derbyniadwy eraill

### Asedau anghyfredol

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth	349	448
	<b>349</b>	<b>448</b>

### Asedau cyfredol

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	2,746	359
Benthyciadau i sefydliadau treftadaeth	106	135
Symiau derbyniadwy eraill	577	1,921
Blaendaliadau i staff	2	2
	<b>3,431</b>	<b>2,417</b>

Mae'r cynnydd mewn rhagdaliadau ac incwm cronedig oherwydd incwm cronedig o £2.3m sy'n dderbyniadwy gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (CGYLG) ar gyfer cyfraniad CGYLG tuag at y grantiau a wneir o dan y rhaglen Parks for People. Codwyd yr anfoneb ar gyfer y swm hwn ym mis Ebrill 2024. Yn y flwyddyn flaenorol, codwyd yr anfoneb am £1.2m cyn diwedd mis Mawrth, sydd hefyd yn esbonio'r gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn mewn symiau derbyniadwy eraill.

## 15. Masnachu a symiau taladwy eraill

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
Symiau gweithredu taladwy	671	1,038
Symiau taladwy eraill gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol	706	624
Croniadau ac incwm gohiriedig	1,565	1,407
	<b>2,942</b>	<b>3,069</b>

Mae'r holl symiau masnachu a symiau taladwy eraill yn ddyledus o fewn blwyddyn ac yn cael eu cynnwys yn y rhwymedigaethau cyfredol.

## 16. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd gan CGDG unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer neu ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd nas contractiwyd ar eu cyfer.

## 17. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan DCMS. Ystyrir bod DCMS yn gorff cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol) wedi cynnal trafodion materol amrywiol, ar wahân i ddyfarniadau grant, gyda DCMS ei hun a gyda phum endid yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sport England, UK Sport, Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Fel y nodir yn y cyfrifon hyn, mae CGDG wedi dosbarthu arian ar ran gwahanol sefydliadau llywodraethol; Defra; a Llywodraeth Cymru. Am wybodaeth bellach, gweler cyfrifon Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gan nad arian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol mo hwn.

Cyfrannodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol at y grantiau a wnaed o dan ein rhaglen Parks for People a hefyd tuag at gostau gweithredu'r rhaglen. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ar Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol £2,308,000 i CGDG, gan gynnwys £11,000 ar gyfer costau gweithredu Parks for People a £2,297,000 ar gyfer ei chyfran o'r taliadau grant Parks for People. Codwyd arnom hefyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a chaffael. Bu trafodiad

# Datganiadau ariannol (parhad)

gwerth £4,000 gan gynrychioli cyfraniad at Fforwm y Loteri ar y cyd.

Bu trafodiad gwerth £18,000 a dalwyd i Gyngor Celfyddydau Lloegr gan gynrychioli'r gost o weinyddu Fforwm y Loteri.

Talwyd £172,000 i Historic England yn ystod y flwyddyn am ofod swyddfa yn Llundain. Nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd £15,000 yn ddyledus i ni ar gyfer aelod o staff a secondiwyd iddynt.

Y tu allan i'r teulu DCMS o gyrff a noddir gan lywodraeth ganolog, bu trafodion hefyd gyda Swyddfa'r Cabinet gwerth £11,000 am wahanol faterion gweinyddol; nid oedd unrhyw beth yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Bu i ni ailgodi costau monitro a mentora prosiectau penodol a oedd wedi derbyn cymorth grant i ganghennau Llywodraeth Yr Alban (Historic Environment Scotland). Roedd biliau gwerth cyfanswm o £4,000 yn y flwyddyn ac roedd £4,000 yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd 28 o brosiectau lle datganodd ymddiriedolwr ac aelodau wrthdaro buddiannau:

## Homotopia

Grant o £142,338 – The Power of Holly Johnson

Datganodd Stephen Welsh fuddiant gan ei fod yn un o ymddiriedolwyr Homotopia ac yn y rôl hon bu'n trafod y cais am grant cyn ei gyflwyno.

## Derby Museums

Grant o £249,795 – #DYC Reimagining with the City

Datganodd Tony Butler fuddiant gan mai ef yw cyfarwyddwr gweithredol Derby Museums.

## Beckford Tower Trust

Cynnydd grant o £244,878 – 'Our Tower' Discovering and reconnecting Beckford's Tower and Landscape

Datganodd Caroline Kay fuddiant gan mai hi oedd Prif Weithredwr Bath Preservation Trust pan wnaed y cais datblygu gwreiddiol. Mae Beckford Tower Trust yn is-gwmni i Bath Preservation Trust. Gadawodd Caroline y rôl ym mis Ebrill 2021.

## Campaign for National Parks

Grant o £199,556 – National Parks: New Perspectives

Datganodd Nick Holliday fuddiant gan yr oedd yn un o ymddiriedolwyr Campaign for National Parks tan fis Tachwedd 2021.

## Urban Green Newcastle

Grant o £221,077 – Growing Urban Green Resilience

Datganodd Carol Pyrah fuddiant gan mai hi yw Prif Weithredwr Urban Green Newcastle.

## Argyll and the Isles Coast and Countryside Trust

Grant o £266,228 – Saving Scotland's Rainforest with Natural Capital Finance

Datganodd Sally Thomas fuddiant gan ei bod yn ymddiriedolwr Plantlife International, un o bartneriaid y prosiect.

## National Trails UK

Grant o £9,012 – Accelerating Fundraising & Delivering Digital

Datganodd Taryn Nixon fuddiant gan ei bod yn un o ymddiriedolwyr National Trails UK.

## Cyngor Bournemouth, Christchurch a Poole

Grant o £84,669 – Heritage Enterprise – Royal

Arcade: work and leisure destination in historic Boscombe

Datganodd Richard Smith wrthdaro gan y bydd y cyfleuster gorffenedig yn cael ei gyd-reoli gan Dorset LEP. Roedd Richard yn gyfarwyddwr Dorset LEP o 2015 tan fis Rhagfyr 2020 ac mae'n dal yn aelod o'u pwyllgor cyllid ac archwilio.

## Cyngor Dosbarth South Hams

Grant o £2,246,965 – Life on the Edge

Datganodd Caroline Kay wrthdaro gan ei bod yn un o ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sef partner a enwir yn y cais.

## Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Grant o £2,997,000 – Divis and Black Mountain – A view to the future

Datganodd Nikki McVeigh wrthdaro gan y bu'n uwch swyddog casgliadau a thŷ yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Fermanagh ar adeg y penderfyniad.



### **Cyngor Dinas Belfast**

A grant of £768,069 – Strand Arts Centre

Datganodd Nikki McVeigh wrthdaro gan y bu'n aelod o bwyllgor Strand Arts Centre ac yn cynorthwyo gyda'r cais rownd gyntaf.

### **Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)**

Grant o £1,054,832 – Climate FORTH (Furthering Our Resilience Through Heritage)

Datganodd Sally Thomas wrthdaro gan y bu'n un o gyfarwyddwyr NatureScot, rhanddeiliad allweddol yn y prosiect, tan 2020.

### **Museums Galleries Scotland**

Grant o £770,000 – Delivering Change: A Participatory Narrative for Scotland's Museums

Datganodd Ray Macfarlane fuddiant fel cadeirydd Museums Galleries Scotland.

Datganodd Mike Benson wrthdaro gan fod The Crannog Centre, y mae'n gyfarwyddwr arni, wedi cael cais i fod yn bartner yn y prosiect.

### **Urras nan Tursachan**

Grant o £2,966,731 – Calanais 2025

Datganodd Fiona McLean wrthdaro oherwydd tan yn ddiweddar y bu'n un o ymddiriedolwyr Historic Environment Scotland, a oedd wedi cefnogi datblygiad y cais.

### **Next Step Initiative**

Grant o £687,806 – The Heritage Leader Traineeship Programme

Datganodd Ray Macfarlane wrthdaro fel cadeirydd Museums Galleries Scotland, partner yn y prosiect.

### **Coed Cadw**

Grant o £686,768 – Building capacity to save Scotland's rainforest

Datganodd Sally Thomas wrthdaro fel un o ymddiriedolwyr Plantlife International, un o bartneriaid y prosiect. Bu Sally hefyd yn un o gyfarwyddwyr NatureScot, un o arianwyr y prosiect.

### **Y Brifysgol Agored**

Grant o £382,797 – Wales Residents Engaging in Arts, Culture and Heritage (Wales REACH)

Datganodd Denise Lewis-Poulton wrthdaro gan ei bod yn gyfaill hirsefydlog i gadeirydd y Brifysgol Agored.

### **Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)**

Grant o £451,374 – Ein Lefelau Byw: Dyfodol cynaliadwy i Wastadeddau Gwent

Datganodd Shaheen Sutton ac Abigail Tweed fuddiant gan fod eu cyflogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn bartner yn y prosiect.

### **Menter Tŷ'n Llan Cyfyngedig**

Grant o £1,510,196 – Menter Tŷ'n Llan

Datganodd Emyr Roberts wrthdaro gan iddo ddal cyfranddaliadau yn y Fenter.

### **Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru**

Grant o £362,691 – Corsydd i bawb, am byth

Datganodd Shaheen Sutton fuddiant gan fod ei chyflogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn bartner yn y prosiect.

### **Northumberland Wildlife Trust**

Grant o £158,600 – Red Squirrel Recovery Network (RSRN)

Datganodd Tony Gates oherwydd y tebygolrwydd y bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Northumberland, y mae'n brif weithredwr arno, yn gweithio gyda RSRN yn y dyfodol.

### **Cyngor Trafford**

Grant o £3,218,160 – Longford Park

Datganodd Stephen Welsh wrthdaro buddiannau oherwydd agosrwydd ei gartref i Longford Park.

### **Durham Wildlife Trust**

Grant o £915,266 – LinkTogether

Datganodd Jim Cokill wrthdaro gan mai ef yw prif weithredwr Durham Wildlife Trust.

### **Cyngor Swydd Henffordd**

Grant o £5,084,465 – Hereford Museum and Art Gallery Redevelopment

Datganodd Glyn Morgan fuddiant oherwydd ei gysylltiadau ag aelodau allweddol o'r tîm sy'n ymwneud â'r prosiect.

### **Suffolk Wildlife Trust**

Grant o £1,999,832 – Worlingham Marshes

Datganodd Robyn Llewellyn wrthdaro gan ei bod yn un o ymddiriedolwyr Suffolk Wildlife Trust.

# Datganiadau ariannol (parhad)

## The Cathedral Church of Saint James and Saint Edmund, Bury St Edmunds

Grant o £729,553 – The Abbey of St Edmund: A Millennium of English History in West Suffolk

Datganodd Jonathan Clarke wrthdaro oherwydd cyfranogiad Historic England yn y prosiect. Mae Jonathan yn gweithio'n llawrydd i Historic England.

## The Parochial Church Council of Badingham

Grant o £42,876 – Hammerbeams, Heritage and Health – Restoration at St John's, Badingham

Datganodd Jonathan Clarke wrthdaro oherwydd cyfranogiad Historic England yn y prosiect. Mae Jonathan yn gweithio'n llawrydd i Historic England.

## The Churches Conservation Trust

Grant o £395,269 – St. Peter and the Old Black Lion, Northampton

Datganodd Carol Pyrah fuddiant gan ei bod yn un o ymddiriedolwyr Churches Conservation Trust.

## 18. Offerynnau ariannol

IFRS 7, Offerynnau Ariannol: Datgeliadau yn mynnu datgeliad o'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl mwy cyfyngedig o lawer wrth greu neu newid risgiau ar gyfer CGDG na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf.

Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael eu cadw i reoli'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

### Risg hylifedd

Yn 2023–2024, deilliodd £345m (95%) o incwm dosbarthu Loteri Genedlaethol CGDG o'r Loteri Genedlaethol. Mae'r incwm sy'n weddill yn deillio o enillion buddsoddi ar y balans a gedwir gyda CDLG o £17m (5%) ynghyd â swm bach o ad-daliadau grant.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y bu eu rhwymedigaethau grant (gan gynnwys symiau amodol) a symiau taladwy eraill yn sylweddol uwch na gwerth yr arian yn CDLG ar 31 Mawrth 2024.

Er hynny, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried nad yw eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau hylifedd sylweddol gan eu bod yn fodlon y bydd ganddynt adnoddau hylif digonol o fewn CDLG a'r banc i dalu pob cais tebygol am daliad grant dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r ymddiriedolwyr wedi pennu strategaeth dyfarnu grantiau tymor hir i sicrhau bod rhwymedigaethau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cydweddu â'r asedau, ac y gall yr ymddiriedolwyr fodloni eu rhwymedigaethau'n llawn. Gan hynny, hyd yn oed os bu dirywiad tymor hir mewn incwm gan y Loteri Genedlaethol, byddai'n dasg syml i'r ymddiriedolwyr addasu cyllidebau grant i wneud iawn am hynny. Awgryma rhagamcaniadau o incwm gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer 2024–2025 y bydd yr incwm ar lefelau boddhaol.

### Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Buddsoddir asedau ariannol gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn CDLG, sy'n buddsoddi o fewn amrediad cul o asedau risg isel megis bondiau ac arian parod llywodraeth y DU. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddiad y cyllid hwn. Ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, £629m oedd gwerth ein buddsoddiadau yn CDLG ar y farchnad.

Ar gyfartaledd enillodd arian NLDF 5.16% yn ystod y flwyddyn (2022–2023: 2.32%). Delir ein balansau arian parod, sy'n symiau a dynnir i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) i alluogi ni i dalu grantiau a chostau gweithredu, mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol, yr oedd ganddynt gyfradd llog gyfartalog o 0% yn y flwyddyn.

	2023–24 £'000	2022–23 £'000
<b>Balansau arian parod</b>		
– Arian parod a chyfwerth ag arian parod	1,736	5,077
– Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	628,944	526,770
	<b>630,680</b>	<b>531,847</b>

### Risg credyd

Mae'r ffigur ar gyfer symiau derbyniadwy yn cynnwys, bron yn gyfan gwbl, rhagdaliadau, incwm cronedig (yn bennaf ar lesau eiddo a chyfraddau busnes) a balansau rhynglywodraethol.

Yn bennaf mae'r balansau rhynglywodraethol gyda chyrrff a noddir gan DCMS. Ac eithrio blaendaliadau ar swyddfeydd â gwasanaeth a benthyciadau nad ydynt yn ddyledus i gael eu had-dalu am nifer o flynyddoedd, roeddent oll wedi cael eu talu erbyn adeg llofnodi'r cyfrifon. Nid yw'r ymddiriedolwyr yn ystyried bod eu gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn agored i risgiau credyd arwyddocaol.

### Risgiau arian tramor

Nid yw gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG yn agored i unrhyw risgiau arian tramor.

### Asedau ariannol yn ôl categori

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
<b>Asedau yn unol â'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol</b>		
– Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	628,944	526,770
– arian parod a chyfwerth ag arian parod	1,736	5,077
– masnachu a symiau derbyniadwy eraill	3,780	2,865
	<b>634,460</b>	<b>534,712</b>

### Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori

	2023-24 £'000	2022-23 £'000
<b>Rhwymedigaethau yn unol â'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol</b>		
– symiau grant taladwy	657,790	551,843
– symiau masnachu taladwy	671	1,038
– symiau taladwy eraill	706	624
– croniadau	1,565	1,407
	<b>660,732</b>	<b>554,912</b>

### Gwerthoedd teg

1. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried bod y llyfrwerth o'r unfaint â'r gwerth teg ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol.
2. Mae'r holl adneuron arian parod gyda banciau masnachol seiliedig yn y DU..
3. Mae buddsoddiadau (CDLG) wedi'u rheoli gan Ysgrifennydd Gwladol DCMS, sy'n darparu manylion llyfrwerth a gwerth teg ein balansau ar gyfer yr ymddiriedolwyr ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

4. Ni phennir bod angen darpariaeth ar gyfer drwgddyled. Nid yw unrhyw un o'r dyledion yn rhai tymor hir ar wahân i'r benthyciadau tymor hir.
5. Er i ni ddatgelu gwerth £437m o symiau grant taladwy nad ydynt yn ddyledus i'w talu tan ar ôl un flwyddyn yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r ymddiriedolwyr o dan rwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf os bydd y prosiectau treftadaeth sylfaenol yn gwneud cynnydd cyflymach na'r hyn a ddisgwylir.
6. Mae'r holl symiau taladwy nad ydynt yn ymwneud â grantiau'n ddyledus o fewn telerau contract arferol, 14–30 niwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng llyfrwerth a gwerth teg.

### Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

Mae'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn datgelu'r rhwymedigaethau ariannol wedi'u gwahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a symiau sy'n ddyledus ymhen mwy nag un flwyddyn. Nid yw ein contractau gyda grantion yn cynnwys unrhyw raniad rhwng symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a'r tu hwnt i un flwyddyn. Mae'r rhaniad a adroddir yn y cyfrifon hyn yn seiliedig yn gyfan gwbl ar ein profiad blaenorol o symiau a dynnwyd i lawr gan grantion i ariannu eu prosiectau.

## 19. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn 2022–2023, diddymodd y Gronfa Treftadaeth bedwar grant gwerth cyfanswm o £48,490. (2022–2023: 10 grant gwerth cyfanswm o £62,013).

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i sefydliad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn yn ôl y gyfraith ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol
- cymeradwyir taliadau ex gratia

Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig yn 2023–2024 nac yn 2022–2023.

# Datganiadau ariannol (parhad)

## 20. Asedau amodol

Mae gan ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol hawl i dderbyn cyfran o'r derbyniadau o werthu tir ar Parc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn gyfnewid am eu cyfraniad o £675m ychwanegol i ariannu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Cyhoeddwyd hyn yn 2007. Mae'r trefniadau wedi'u nodi mewn cytundeb cyfreithiol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Awdurdod Llundain Fwyaf (GLA) dyddiedig 29 Mawrth 2012 sy'n nodi'r dosbarthiad arian rhwng GLA a dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol (drwy DCMS). Rydym yn parhau i ymgysylltu â GLA ar ragolygon ar gyfer gwerthiannau tir yn y Parc Olympaidd.

## 21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon y mae angen addasu'r datganiadau ariannol ar eu cyfer. Dehonglir y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

# Cyfarwyddiadau polisi

# Cyfarwyddiadau polisi

## Llywodraeth y DU

Rhoddir cyfarwyddiadau polisi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan ddefnyddio eu pwerau o dan adrannau 26(1) a (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 mewn perthynas â dosbarthu arian o dan Adran 25(4) y Ddeddf honno. Mae'r cyfarwyddiadau DU yn berthnasol i'r holl grantiau ariannu a wneir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Treftadaeth). Mae cyfarwyddiadau ychwanegol yn berthnasol ar gyfer pob un o wledydd y DU. Wrth benderfynu i bwy y mae'n dosbarthu arian, at ba ddiben, ac o dan ba amodau, bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn cymryd y materion a ganlyn i ystyriaeth:

**1. Mewn partneriaeth ag arianwyr a rhanddeiliaid eraill, asesu anghenion treftadaeth y DU i gyfeirio dyfarnu arian, gan gymryd unrhyw ddynodiad a threftadaeth mewn perygl i ystyriaeth benodol.**

Rydym wedi adeiladu ar lwyddiant ein panel ymchwil – Pwls Treftadaeth y DU, sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â Historic England a DCMS – i ddeall anghenion cefnogi treftadaeth a'r sefydliadau sy'n ei rheoli ac yn gofalu amdani. Mae'r panel yn cyfuno cyrhaeddiad ac arbenigedd amrywiaeth o arianwyr a rhanddeiliaid i gyfeirio ein dealltwriaeth o'r cyd-destun ar gyfer ein prosiectau. Mae amrywiaeth o rhanddeiliaid yn cymryd rhan fel partneriaid a chefnogwyr gan gynnwys Historic England, y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, Built Environment Forum Scotland, Adran Cymunedau Llywodraeth Gogledd Iwerddon, Historic Environment Scotland a NatureScot.

Yn 2023–2024 bu i ni gynnal gweminar ar AI a gofyn am farn panelwyr ar ystod o bynciau, gan gynnwys pwysau cyllidebol, sgiliau a llywodraethu.

Fe wnaethom gefnogi 586 o brosiectau ar draws y DU a oedd yn ystyried bod eu treftadaeth mewn perygl o gael ei cholli neu ei difrodi. Mae hyn yn 44.2% o gyfanswm y dyfarniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o gyfartaledd o 39.9% dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

**2. Cynnwys y cyhoedd a chymunedau lleol wrth lunio polisiau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu arian.**

Fel rhan adolygu ac ail-gaffael ein Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi, yng ngwanwyn 2023 fe wnaethom ofyn i naw sefydliad cymunedol weithredu fel cyfeillion beirniadol i'r broses, gan roi llais i sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ifanc a phobl anabl, er mwyn sicrhau y gall ein rhwydwaith cefnogi arbenigol ar gyfer prosiectau fod mor effeithiol â phosibl.

O fewn ein strategaeth Treftadaeth 2033, Lleoedd Treftadaeth yw ein menter strategol newydd a chyffrous i dargedu buddsoddi seiliedig ar le sy'n rhoi hwb i falchder mewn lleoedd ac yn cysylltu cymunedau ac ymwelwyr â threftadaeth. Mae Lleoedd Treftadaeth yn sefydlu perthnasoedd

o bartneriaid tymor hwy mewn nifer fach o drefi, dinasoedd ac ardaloedd i fynd i'r afael â heriau treftadaeth hirsefydlog y tu hwnt i gylch bywyd prosiect unigol. Yn ôl y dystiolaeth, pan fydd ein buddsoddiadau'n cyfrannu at y weledigaeth hirdymor ar gyfer lle, gall y buddion fod yn bendant ac maent yn para'n hir. Bydd y dull yn un hirdymor i dargedu buddsoddiad daeryddol yn rhagweithiol ac ymateb i anghenion lleol, gan ddangos effaith dros amser a all annog mwy o ymgeiswyr i fynd ar drywydd cynlluniau seiliedig ar le. Lanswyd naw Lle Treftadaeth cychwynnol ym mis Hydref 2023. Erbyn 2033, ein nod yw cael 20 o brosiectau hir dymor seiliedig ar le sy'n trawsnewid ardaloedd lleol o fewn trefi, dinasoedd a thirweddau. Bydd y fenter llawr gwlad hon yn targedu buddsoddiad i gysylltu treftadaeth â chyfleoedd a chyflawni'r gwelliannau y mae pobl am eu gweld yn eu hardal.

### 3. Ehangu mynediad a chyfranogiad ar gyfer y rhai nad ydynt yn elwa o'r cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Rydym yn rhannu dysgu, tystiolaeth ac enghreifftiau o brosiectau treftadaeth sy'n gwella mynediad, yn adeiladu cysylltiadau cymdeithasol, ac yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth cymunedol gyda'n partneriaid, ein rhanddeiliaid ac arianwyr eraill.

Fel rhan o gyfrannu at Tackling Loneliness Network a gynullwyd gan DCMS a Social Connection Funders, cynyddwyd ein buddsoddiad mewn Newydd i Natur o £2m i £3m. Mae'r prosiect partneriaeth hwn, gyda Groundwork a sefydliadau tirwedd a natur y DU gyfan, yn darparu lleoliadau gwaith 12 mis â thâl ar gyfer ystod amrywiol o bobl o grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol gan y sector treftadaeth, gan gynnwys pobl o gymunedau ethnig amrywiol, pobl anabl a phobl o cyd-destunau economaidd ddifreintiedig. Yn 2023–2024 bu i Newydd i Natur hyrwyddo sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i 96 o hyfforddeion rhwng 18 a 25 oed. Parhaodd y rhaglen tan fis Mai 2024, ac roedd yn llwyddiant sylweddol i bawb dan sylw, gyda sefydliadau'n elwa o ymrwymiad a brwdfrydedd yr holl hyfforddeion.

Darparodd Curating for Change, rhaglen a arweinir gan anabledau a drefnwyd gan Accentuate, 16 o leoliadau hyfforddeiaeth a chymrodoriaeth â thâl ar gyfer pobl F/fyddar, anabl a niwrowahanol ar

draws amgueddfeydd yn Lloegr.

Cyflwynodd timau ardal a gwlad y Gronfa Treftadaeth weithgareddau wedi'u targedu i wella mynediad at ariannu ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio'n bennaf gyda'r rhai sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol gan dreftadaeth yn eu hardaloedd, y mae eu prosiectau'n mynd i'r afael â threftadaeth sydd o bosibl wedi'i thangynrychioli yn archifau, casgliadau a rhaglenni'r DU. Mae hyn yn cynnwys gwaith parhaus ar draws y DU i ddarparu mwy o ariannu i sefydliadau mewn 13 o ardaloedd awdurdod lleol a ddewiswyd ar gyfer eu mynegeion amddifadedd lluosog uchel, a gwariant isaf y pen gan y Gronfa Treftadaeth ers 1994. Y rhain yw: Brent, Corby, Enfield, Knowsley, Inverclyde, Luton, Newham, Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln, Gogledd Swydd Lanark, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Tending a Walsall.

### 4. Ysbrydoli plant a phobl ifanc, gan ddefro eu diddordeb a chyfranogiad yn y gweithgareddau o fewn cylch gwaith yr achosion treftadaeth da.

Cwblhawyd pob un o'r 12 o brosiectau a ariannwyd drwy Kick the Dust, ein buddsoddiad strategol mewn chyfranogiad treftadaeth pobl ifanc, a bu i ni rannu'r hyn a ddysgwyd o gyflwyno'r fenter gyda'r sectorau treftadaeth ac ieuencid ehangach. Mae etifeddiaeth y rhaglen yn cynnwys, er enghraifft, timau ymgysylltu ieuencid parhaol mewn sefydliadau treftadaeth, a dylanwad cynyddol pobl ifanc mewn llywodraethu a gwneud penderfyniadau gyda seddau wedi'u neilltuo ar gyfer chyfranogiad ieuencid ar fyrddau a phwyllgorau. Mae gan bobl ifanc well sgiliau, lles ac ymdeimlad o berthyn, ac maent hefyd wedi dod yn weithwyr, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr sefydliadau granti a thu hwnt. Mae gan bartneriaid ifanc well dealltwriaeth o botensial treftadaeth mewn gwaith ieuencid, ac wedi defnyddio hyn mewn gwaith parhaus, er enghraifft, trwy swyddi staff newydd.

Cefnogodd ein tîm Gogledd Iwerddon 11 o gynrychiolwyr i fynychu'r Uwchgynhadledd One Young World yn Belfast ym mis Hydref 2023, i ddod â phersbectif treftadaeth i'r uwchgynhadledd fyd-eang. Galluogodd cyfarfod panel pellach gyda'r cynrychiolwyr i bobl ifanc rannu eu safbwyntiau ar rôl a phwysigrwydd treftadaeth gyda'r Gronfa Treftadaeth. Yn ystod y flwyddyn bu i ni weithio

## Cyfarwyddiadau polisi (parhad)

hefyd gyda chyrrff hyd braich eraill i siapio, hysbysu ac ennyn diddordeb arbenigwyr y sector yn y cynlluniau datblygol a arweiniwyd gan yr Adran Addysg ar gyfer Cynllun Addysg Ddiwylliannol yn Lloegr.

### 5. Maethu mentrau sy'n dod â phobl ynghyd, yn cyfoethogi'r parth cyhoeddus ac yn cryfhau cymunedau.

Yn hydref 2023, gyda grant o bron i £5m, lansiodd partneriaeth gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol i ehangu eu dull ymddiriedolaeth datblygu treftadaeth. Bydd tair ar ddeg o Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth newydd ar draws y DU nawr yn gallu cymryd, gwella a rheoli adeiladau hanesyddol yn eu hardaloedd.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r gwaith o gyflwyno ein rhaglen tair blynedd gwerth £1.9m gyda'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol yn parhau, gan gynnig atebion ymarferol ar gyfer eglwysi a chapeli i wella'r ffordd y gofaliwr am eu hadeiladau a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Mae Prosiect Cherish yn darparu cymorth grant ynghyd ag arbenigedd a chynngor i gryfhau sgiliau rheoli treftadaeth a hyfforddiant i bobl sy'n gofalu am addoldai.

### 6. Cefnogi ac adeiladu gallu ehangder llawn y gweithlu treftadaeth, o wirfoddolwyr i weithwyr proffesiynol, i sicrhau cadwraeth treftadaeth gyda'r sgiliau priodol.

Yn dilyn ein buddsoddiad mewn nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar gefnogi busnes a menter, mae cannoedd o sefydliadau wedi elwa o amrywiaeth o gynigion hyfforddi a dysgu ar gynllunio busnesau, codi arian, sgiliau menter a masnachu. Mae'r rhan fwyaf o'n brosiectau sgiliau busnes a menter bellach wedi'u cwblhau ac yn cyhoeddi gwerthusiadau dysgu i gefnogi gweithlu'r sector drwy'r adferiad ar ôl y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiect Rebuilding Heritage gan y Gynghrair Treftadaeth a'r prosiect Steps to Sustainability gan Social Enterprise Academy.

### 7. Symbylu arloesedd a rhagoriaeth trwy annog arfer da a chyflawni safonau uchel y gellir darparu tystiolaeth ohonynt.

Mae ein Cronfa Arloesedd Treftadaeth yn cefnogi grŵp amrywiol o sefydliadau treftadaeth i brofi a thyfu arloesiadau i ddod o hyd i atebion i heriau gwahanol. Yn ystod y flwyddyn, lansiodd ail gam HIF i annog rhagoriaeth ac arbofi ar draws treftadaeth y DU. Yn y cam hwn, mae 17 o sefydliadau'n rhannu ychydig o dan £1.2m i brofi atebion i heriau gweithlu trwy gymorth strwythuredig a dysgu gan gymheiriaid a ddarperir gan Sefydliad Young. Mae prosiectau'n amrywio o ddod o hyd i offer i fynd i'r afael ag eco-bryder yn y gweithlu i brofi modelau AI i gefnogi a chyflwyno hyfforddiant.

### 8. Sicrhau y dosberthir arian ar gyfer prosiectau sy'n hybu'r budd cyhoeddus yn y tymor hir nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

Dyfernir Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol rhwng £10,000 a £250,000 i sefydliadau nid-er-elw, perchnogion preifat ased treftadaeth, a phartneriaethau. Gall perchnogion preifat wneud cais am grantiau hyd at £250,000. Mae angen i'r prosiectau hyn gyflwyno deilliannau cymdeithasol a chymunedol cadarnhaol a dangos y bydd y budd cyhoeddus yn gorbwyso unrhyw elw preifat. Dyfernir grantiau rhwng £250,000 a £10m i sefydliadau nid-er-elw a phartneriaethau a arweinir gan sefydliadau nid-er-elw.

Mae grantiau Menter Treftadaeth yn cefnogi prosiectau sy'n sicrhau defnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol a danddefnyddir, sy'n adfeiliedig neu mewn perygl, gan gynnwys at ddibenion tai. Rydym yn croesawu elfennau masnachol i'r defnyddiau newydd hyn pan fyddant yn cefnogi dichonoldeb y cynllun arfaethedig. Gall y mathau hyn o brosiectau gael eu harwain gan sefydliadau er-elw mewn cydweithrediad â sefydliadau nid-er-elw.



## 9. Datblygu amcanion datblyg cynaliadwy.

Mae ein strategaeth Treftadaeth 2033 yn cynnwys 'diogelu'r amgylchedd' fel un o'n pedair egwyddor fuddsoddi. Disgwyliwn i bob prosiect a ariannwn helpu diogelu'r amgylchedd. Trwy ofyniad cynaladwyedd amgylcheddol y Gronfa Treftadaeth, rydym yn gosod y safon ar gyfer cynaladwyedd y prosiectau rydym yn eu cefnogi ac rydym hefyd yn cynnig cymorth i brosiectau drwy'r Rhwydwaith Fit for the Future.

Ar ben hynny, rydym yn parhau i gefnogi Gwobr Prosiect Cynaliadwy y Flwyddyn i Amgueddfeydd a Threftadaeth i hyrwyddo ymagweddau y gellir eu trosglwyddo at gynaladwyedd yn ogystal ag arfer mwy arloesol mewn prosiectau cyfalaf amgylcheddol gynaliadwy.

## 10. Gostwng amddifadedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan sicrhau bod gan bob ardal o'r Deyrnas Unedig fynediad i'r arian a ddosberthir.

Rydym yn defnyddio data o fynegeion amddifadedd lluosog pob un o bedair gwlad y DU i olrhain ein dyfarniadau grant i rannau o'r wlad sydd â'r lefelau uchaf o angen cymdeithasol ac economaidd. O gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd gennym yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd 30% i brosiectau yn yr 20% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y wlad. Dyfarnwyd bron hanner y grantiau (49%) i brosiectau yn y 40% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Cymerir y mesuriad ar gyfer y dangosydd hwn o safle cyffredinol pob awdurdod lleol, wedi'i fynegi fel y safle o fewn set ddata Cymru, Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon. O'i fesur yn nhermau'r cyfanswm a ddyfarnwyd, aeth 29% i ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf gyda thros hanner (52%) yn mynd i'r 40% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.

## 11. Gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, i sicrhau effaith gadarnhaol cyllid y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys gwerthuso prosiectau a rhannu data pan fo'n briodol.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gryfhau partneriaethau gyda llywodraethau, awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol, rydym yn ceisio datblygu mentrau sy'n cyfuno adnoddau ac yn gwneud y mwyaf o effaith arian y Loteri Genedlaethol. Yn 2023–2024, roedd ein cydweithrediad hirdymor â Llywodraeth Cymru'n cynnwys darparu arian gan y Loteri Genedlaethol, ochr yn ochr â chyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, i Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, cynllun grant y mai ei nod yw galluogi cymunedau yng Nghymru i adfer a gwella byd natur. Ar ddiwedd 2023, enillodd ein cydweithrediad â Future Parks Accelerator yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Wobr Prosiect Cymdeithasol y Flwyddyn a Gwobr Prosiect Cyffredinol y Flwyddyn yng Ngwobrau Rheoli Prosiectau APM 2023. Bu i'r gwobrau hyn gydnabod effaith ein partneriaeth wrth gefnogi awdurdodau lleol i feddwl yn uchelgeisiol am ffyrdd o ysgogi newid gwirioneddol ar gyfer eu cymunedau lleol.

## 12. Cynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri Genedlaethol gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri Genedlaethol.

Pwysleisiwn bwysigrwydd cydnabod arian y Loteri Genedlaethol yn ein holl gyngor i brosiectau, ac yn ein cydweithrediadau gyda dosbarthwyr loteri eraill.

Cawsom adborth cadarnhaol ar ein harweiniad manwl a phecynnau cymorth sy'n helpu'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu i gydnabod cefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol mewn ffyrdd creadigol a diddorol. Gan weithio gyda dosbarthwyr eraill, fe wnaethom sicrhau bod treftadaeth a phrosiectau treftadaeth yn chwarae rhan ganolog yn natliad pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 29 ar ddiwedd 2023. Hyrwyddwyd ac amlygwyd cyfleoedd i ymweld ac ymgysylltu â phrosiectau a gefnogir gan y Gronfa Treftadaeth drwy gydol Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol 2024.

# Cyfarwyddiadau polisi (parhad)

## 13. Mynnu elfen o gyllid partneriaeth, neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill i'r graddau bod hyn yn rhesymol i'w gyflawni ar gyfer mathau gwahanol o ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol.

Mynnwn fod ymgeiswyr yn sicrhau isafswm lefelau o gyllid partneriaeth gan ddibynnu ar lefel y grant y maent yn ymgeisio amdano. Adolygwyd ein dull fel rhan o'r gwaith o symleiddio ac eglurhau ein hariannu i ymgeiswyr drwy'r strategaeth Treftadaeth 2033. Gellir cynnwys cyfraniad o fewn ceisiadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol ar gyfer grantiau rhwng £10,000 a £250,000. Mae ein hymgeiswyr yn dweud wrthym os a pham na allant godi arian parod neu gyfraniadau anariannol lle bo angen a chaiff hyn ei asesu drwy'r broses ymgeisio.

Mae'n ofynnol cael isafswm o 5% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau rhwng £250,000 ac £1m. Mae'n ofynnol cael isafswm o 10% o gyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau o £1m a mwy. Yn achos yr isafswm gofyniad 5 a 10% gellir darparu'r cyllid partneriaeth ar ffurf arian parod, ar ffurf nad yw'n arian parod neu fel amser gwirfoddolwyr. Fel rhan o'r broses asesu, rydym yn ystyried a yw cyfraniad yr ymgeisydd neu lefelau cyllid partneriaeth yn briodol ar gyfer y prosiect.

## 14. Yr angen i:

- arian sy'n cael ei ddsbarthu gael ei gymhwyso dim ond i brosiectau sydd â diben penodol ac wedi'u cyfyngu gan amser,
- sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a chyngor arbenigol gofynnol i wneud penderfyniadau ar bob cais, ac
- i ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol prosiectau.

Mae'r prosiectau a gefnogwn yn rhai penodol sydd â chyfyngiad amser arnynt. Rydym yn cyfyngu ein cymorth presennol i uchafswm o bum mlynedd ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gweithgareddau. Rydym yn gofyn am wybodaeth gan ymgeiswyr i ba raddau y mae'r prosiectau y maent yn eu cynnig:

- yn cyflwyno achos cadarn dros fuddsoddi
- cymryd ein pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth

- yn ddichonol ac yn ariannol gynaliadwy

Gall ein hasesiad gynnwys cyngor arbenigol ar agweddau allweddol ar y cais os bydd angen. Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth i ni i ddangos dichonoldeb ariannol eu prosiect, wedi'i dorri i lawr i gostau cyfalaf, gweithgareddau a chostau eraill a chan ddangos pa gyfraniad y maent yn bwriadu ei wneud o'u hadnoddau eu hunain neu o grantiau neu roddion o ffynonellau eraill. Rydym yn gofyn am wybodaeth ariannol gan gynnwys rhagamcaniadau llif arian ac, ar gyfer prosiectau mwy sylweddol, incwm a gwariant am bum mlynedd, sy'n dangos sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal y prosiect dros yr hir dymor.

## 15. Pan wneir cais am gyllid cyfalaf yr angen am:

- gynllun busnes clir sy'n dangos sut y bydd unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw yn cael eu talu am gyfnod rhesymol, ac
- am sicrhau bod prosesau gwerthuso a rheoli prosiectau mawr yn adlewyrchu Safonau Adolygiad Porth yr Awdurdod Prosiectau Mawr.

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn mynnu bod pob dyfarniad grant dros £250,000 yn darparu cynllun busnes gyda'u cais cam datblygu, sydd wedyn yn cael ei ddiweddarau gyda'u cais cam cyflwyno. Mae'r cynllun busnes ar gyfer y sefydliad yn hytrach na'r prosiect, gan adlewyrchu ein diddordeb yng ngallu'r sefydliad i gynnal buddion ein buddsoddiad dros y tymor hir. Rydym yn darparu canllawiau i grantion gan gynnwys ar gynnal a chadw adeiladau, cynllunio cadwraeth a rheoli a chynnal a chadw tirweddau, parciau a gerddi i helpu cyfeirio a dylanwadu ar gynllunio busnes.

Mae prosiectau'n cael eu monitro'n unol â'r wybodaeth a ddarparwyd o fewn cais y granti gan gynnwys unrhyw wybodaeth atodol sydd yn y cynllun gweithgareddau, rhagamcaniadau llif arian a thabl incwm a gwariant.

Ar gyfer grantion sy'n derbyn dyfarniadau gwerth dros £2m, rydym yn monitro cynnydd yn erbyn cynllun busnes y prosiect a gyflwynir gyda chais y rownd gyflwyno. At hynny, mae'n ofynnol i brosiectau sydd ag elfen gadwraeth sylweddol gynnwys cynlluniau cadarn ar gyfer cynnal a chadw'r dreftadaeth dros y tymor hir.

Mae'r holl brosiectau'n mynd trwy broses ganiatâd i ddechrau sy'n darparu porth priodol gan ddilyn cymeradwyaeth o'n buddiant yn y prosiect. Ar gyfer prosiectau cyfalaf rydym hefyd yn cynnwys pwyntiau adolygu ffurfiol yn ein prosesau asesu a monitro (sy'n cyfateb i gamau'r Cynllun Gwaith RIBA). Rydym yn cyflogi ymgynghorwyr arbenigol ar gyfran sylweddol o brosiectau sy'n derbyn dros £250,000 i helpu sicrhau bod prosiectau'n cyflwyno yn erbyn y dibenion cymeradwy yn unol â'r contract, bod y risgiau i'r Gronfa Treftadaeth yn cael eu deall a'u rheoli, y cyflawnir arfer gorau ym mhob maes critigol a bod yr adrodd a rheoli ariannol yn gadarn ac yn dryloyw.

## 16. Annog a chefnogi'r defnydd priodol o fodelau ariannu creadigol (benthyciadau, mentrau ariannu cymunedol, ariannu torfol etc) i gynyddu dichonoldeb prosiectau, cynaladwyedd ariannol a'r buddsoddiad cyffredinol mewn treftadaeth.

Dyluniwyd rhaglen Benthyciadau Adfer Treftadaeth a Chydnherthedd y Gronfa Treftadaeth i sefydlogi ac addasu gweithrediadau, cefnogi cynhyrchu incwm, a meithrin cydnherthedd sefydliadol mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r rhaglen hon yn parhau i weithredu'n llwyddiannus.

Cymeradwywyd a manteisiwyd ar saith benthyciad gwerth cyfanswm o £758,500. Buddsoddiadau amyneddgar hirdymor sy'n canolbwyntio ar gynllunio adferiad; addasu ac ail-siapiro modelau gweithredu a chynlluniau busnes; ariannu staff ac adnoddau i gyflymu adferiad; a darparu cyfalaf gweithio. Mae'r rhaglen bellach yn y cyfnod addalu ac mae ad-daliadau'n cael eu derbyn yn unol â'r amserlenni a gymeradwywyd. Drwy'r rhaglen a chan ddysgu ohoni rydym yn datblygu dulliau newydd o wneud a rheoli buddsoddiadau sy'n gallu ymateb i ystod eang o anghenion buddsoddi. Bydd y rhaglen yn parhau tan ddiwedd 2028.

Rydym yn fuddsoddwyr partner mewn dwy gronfa buddsoddi mewn effaith. Mae'r Gronfa Effaith Treftadaeth yn gronfa buddsoddi cymdeithasol DU gyfan gwerth £7m, a reolir gan y Gronfa Treftadaeth Bensaerniol (AHF), sy'n darparu cyllid ar ffurf benthyciadau wedi'u teilwra i sefydliadau nid-er-elw i'w helpu i gyflwyno effaith economaidd

a chymdeithasol o ganlyniad i aildefnyddio adeiladau hanesyddol. Mae'r buddsoddiad fel arfer rhwng £25,000 a £500,000. Hyd yma, cymeradwywyd a manteisiwyd ar ddau ar hugain o fuddsoddiadau gwerth cyfanswm o £6m.

Mae'r Gronfa Effaith Celf a Diwylliant (ACIF) yn gronfa partneriaeth buddsoddi mewn effaith gwerth £20m, a reolir gan Nesta, sy'n dwyn buddsoddwyr cyhoeddus, preifat a dyngarol ynghyd i gefnogi sefydliadau celfyddydol a threftadaeth gyda chyllid ar ffurf benthyciadau. Mae ACIF yn cefnogi ac yn datblygu potensial menter sefydliadau diwylliannol trwy ddarparu cyllid hyblyg a fforddiadwy a thrwy gefnogi sefydliadau i ddangos a gwerthuso eu heffaith yn well, gyda benthyciadau rhwng £150,000 ac £1m.

Rydym yn cefnogi Cyllid Gwyrdd drwy Investment Ready Nature in Scotland (IRNS), cynllun grant ar y cyd gyda Sefydliad Esmée Fairbairn a NatureScot sy'n helpu sefydliadau a phartneriaethau i ddatblygu'r systemau, y prosesau a'r capasiti i ddefnyddio buddsoddiad preifat a mecanweithiau sy'n seiliedig ar y farchnad i helpu ariannu'r gwaith o adfer yr amgylchedd naturiol. Rydym hefyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Yr Alban a NatureScot gyda buddsoddiad sy'n cefnogi Facility for Investment Ready Nature Scotland (FIRNS), a fydd yn helpu sefydliadau i ddatblygu cynigion buddsoddi sy'n addas ar gyfer buddsoddiad Cyllid Gwyrdd o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys marchnadoedd cyfalaf.

## 17. Cynyddu sgiliau digidol, gallu, a defnyddio offer digidol, yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r sector treftadaeth; annog casglu, defnyddio a rhannu deunyddiau treftadaeth ddigidol yn well; ac annog arloesi digidol.

Cwblhawyd y prosiectau terfynol a ariannwyd drwy ein menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth yn 2024. Cefnogodd y fenter hon ystod eang o sgiliau digidol sy'n berthnasol i'r sector treftadaeth, gan gynnwys digideiddio a rheoli casgliadau digidol, gwirfoddoli digidol, creu modelau a gwasanaethau busnes digidol newydd, marchnata a chyfathrebu ar-lein, a hygyrchedd digidol.

## Cyfarwyddiadau polisi (parhad)

Bu i ni gyhoeddi gwerthusiad o Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth yn ddiweddar, a barhaodd i dyfu mewn effaith yn ystod y flwyddyn. Amlygodd y gwerthusiad, a gynhaliwyd gan InFocus, fod y brosiectau y gwnaethom eu cefnogi wedi darparu o leiaf 242,000 o oriau o hyfforddi a datblygu a chreu dros 880 o adnoddau dysgu trwydded agored. O ganlyniad i hyn mae 85% o brosiectau wedi cynyddu eu sgiliau a'u hyder digidol, ac mae adborth ymatebwyr i'r arolwg a chyfweliadau gwerthuso yn nodi eu bod wedi gweld cynnydd mewn mynediad digidol i dreftadaeth a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn well.

Ym mlwyddyn olaf cyflwyno Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth, fe wnaethom ddiweddarau a rhannu adnoddau dysgu newydd ar yr Hyb Treftadaeth Ddigidol a chyhoeddi papur briffio i arweinwyr y sector ar y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial yn nhreftadaeth y DU, ynghyd â chanllaw ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfleoedd a materion yn ymwneud â trwyddedu agored ar draws sector treftadaeth y DU.

Treftadaeth i nodi'r naw Lle Treftadaeth cyntaf. Fe wnaethom ddatblygu Fframwaith Effaith newydd, wedi'i alinio ag ymagwedd gyffredinol DCMS at ddangosyddion perfformiad, y byddwn yn ei gyflwyno fesul cam yn y flwyddyn i ddod.

**18. Cywain, deall a lledaenu data ar gyrhaeddiad, effaith a chynulleidfa gwaith Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a defnyddio'r ddealltwriaeth honno i wella polisïau a gweithdrefnau gwneud grantiau'r Gronfa Treftadaeth, gan gynnwys cefnogi'r gwaith ar gyfranogiad. Dylid gwneud data mor dryloyw a hygyrch â phosibl.**

Rydym yn parhau i gomisiynu a chyhoeddi ymchwil am effaith ein gwaith. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom gyhoeddi saith gwerthusiad ymchwil gan gynnwys gwerthusiadau o'n Cronfa Her Adferiad Gwyrdd, Meysydd Ffocws a'r fenter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth, yn ogystal â mewnwelediadau rheolaidd ar y sector treftadaeth trwy Pwls Treftadaeth y DU. Fe wnaethom barhau hefyd i wneud ein setiau data yn gwbl dryloyw trwy ein gwasanaeth data agored sydd ar gael ar-lein trwy ein gwefan, trwy gronfa ddata Grantiau'r Loteri Genedlaethol DCMS, 360Giving a System Gwybodaeth Grantiau Llywodraeth y DU. Cyhoeddwyd ein hymchwil Data ar gyfer Lleoedd Treftadaeth ac adroddiad cynhwysfawr am y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Gronfa

# Cynnydd ar brosiectau dros £5 miliwn

# Cynnydd ar brosiectau dros £5 miliwn

Mae'r rhestr a ganlyn yn dangos cynnydd ar brosiectau sydd wedi derbyn £5m neu fwy o arian y Loteri Genedlaethol hyd at 31 Mawrth 2024.

## Auckland Castle: Creating Faith in a Better Future

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

Auckland Castle Trust

### Cyfanswm cost y prosiect

£32,734,303

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£1,000,000 (datblygu Ebrill 2013)  
£9,000,000 (cyflwyno Mai 2015)  
£2,400,000 (cynnydd grant Gorffennaf 2016)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 90%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau. Mae'r cais am daliad terfynol yn cael ei adolygu.

## Bath Abbey Footprint

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Bath Abbey Parochial Church Council

### Cyfanswm cost y prosiect

£19,210,499

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£389,000 (datblygu Ebrill 2014)  
£10,725,300 (cyflwyno Mawrth 2016)  
£11,259,300 (cynnydd Capital Kickstart Rhagfyr 2020)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 97%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau yn amodol ar dderbyn y gwaith papur terfynol.

## Black Country Living Museum: Forging Ahead – creating a world-class visitor attraction in the Black Country

### Gwlad neu ardal

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

Black Country Living Museum

### Cyfanswm cost y prosiect

£29,810,000

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£400,000 (datblygu Ebrill 2017)  
£9,400,000 (cyflwyno Mawrth 2019)  
£2,210,000 (cynnydd grant gan gynnwys cynnydd Capital Kickstart Rhagfyr 2020)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 97.5%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Disgwylir i'r prosiect gwblhau'n llwyddiannus ym mis Mawrth 2025.

## Bywyd Newydd i'r Hen Goleg/ Gwlad neu ardal

### Gwlad neu ardal

Cymru

### Ymgeisydd

Prifysgol Aberystwyth (Yr Hen Goleg)

### Cyfanswm cost y prosiect

£30,578,429

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£849,500 (datblygu Ebrill 2017)  
£9,732,300 (cyflwyno Rhagfyr 2019)  
£1,378,700 (cynnydd grant Mehefin 2021)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 35%

### Adroddiad diweddaraf

Mae cynnydd yn cael ei wneud ar waith cyfalaf, mae'r prif gontractwr wedi'i benodi ac mae'r isgontractwyr wedi'u penodi'n bennaf.

## Cairngorms 2030: People and Nature Thriving Together

### Gwlad neu ardal

---

Yr Alban

### Ymgeisydd

---

Awdurdod Parc Cenedlaethol Cairngorms

### Cyfanswm cost y prosiect

---

£43,199,588

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

---

£1,715,500 (datblygu Mehefin 2021)

£10,770,000 (grant cyflwyno posibl)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

---

Datblygu 33%

### Adroddiad diweddaraf

---

Rhodddwyd caniatâd i ddechrau'r cam cyflwyno ym mis Chwefror 2024.

## Celebrating Yr Alban's Art: The Scottish National Gallery Project

### Gwlad neu ardal

---

Yr Alban

### Ymgeisydd

---

National Galleries of Scotland

### Cyfanswm cost y prosiect

---

£33,602,245

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

---

£4,940,000 (cyflwyno Mai 2016)

£975,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2020)

£975,000 (cynnydd grant Mawrth 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

---

Cyflwyno 77%

### Adroddiad diweddaraf

---

Mae'r prosiect bron â gorffen. Agorodd yr orielau ym mis Medi 2023. Mae disgwyl i'r prosiect gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2024.

## Cheshire's Archives: A Story Shared

### Gwlad neu ardal

---

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

---

Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chyngor Caer

### Cyfanswm cost y prosiect

---

£25,688,736

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

---

£544,900 (datblygu Medi 2019)

£4,455,100 (cyflwyno Tachwedd 2022)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

---

Cyflwyno 2%

### Adroddiad diweddaraf

---

Rhodddwyd caniatâd i ddechrau'r cam cyflwyno ym mis Gorffennaf 2023. Mae tendr dau gam ar gyfer y prif gontract yn mynd rhagddo.

## Cotswold Canals Connected

### Gwlad neu ardal

---

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

---

Cyngor Ardal Stroud

### Cyfanswm cost y prosiect

---

£20,126,800

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

---

£842,800 (datblygu Ebrill 2018)

£8,956,200 (cyflwyno Hydref 2020)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

---

Cyflwyno 58%

### Adroddiad diweddaraf

---

Cwblhawyd gwaith ar Bont Rheilffordd Ocean yn llwyddiannus yn 2021. Mae'r gwaith cyfalaf sy'n weddill yn cael ei gyflwyno fesul cam. Mae'r gweithgareddau a gwaith amgylcheddol yn mynd rhagddynt.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5 miliwn (parhad)

## Courtauld Connects

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Courtauld Institute of Art

### Cyfanswm cost y prosiect

£38,378,123

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£650,000 (datblygu Ebrill 2016)

£8,850,000 (cyflwyno Mawrth 2018)

£1,500,000 (cynnydd grant Mawrth 2021)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 100%

### Adroddiad diweddaraf

Adroddiad diweddaraf

## David Livingstone's Birthplace

### Gwlad neu ardal

Yr Alban

### Ymgeisydd

The Scottish National Memorial to David Livingstone Trust

### Cyfanswm cost y prosiect

£9,329,186

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£334,200 (datblygu Mai 2015)

£4,112,900 (cyflwyno Mawrth 2017)

£668,000 (cynnydd grant Tachwedd 2019)

£1,500,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2020)

£250,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2022)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 100%

### Adroddiad diweddaraf

Adroddiad diweddaraf

## Ditherington Flax Mill Maltings – an international heritage site at the heart of the community

### Gwlad neu ardal

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

Historic England

### Cyfanswm cost y prosiect

£30,382,488

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£465,300 (datblygu Ebrill 2012)

£12,832,300 (cyflwyno Gorffennaf 2013)

£7,894,200 (cynnydd grant Ionawr 2017)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 93%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'u cwblhau ac mae gweithgareddau'n mynd rhagddynt.

## Dover's Maison Dieu: Reawakening

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Ardal Dover

### Cyfanswm cost y prosiect

£13,980,700

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£427,400 (datblygu Mehefin 2018)

£4,272,500 (cyflwyno Medi 2020)

£1,054,700 (cynnydd grant Medi 2022)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 10%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r gwaith cyfalaf a'r gweithgareddau'n mynd rhagddynt.



## First Light at Jodrell Bank

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

Prifysgol Manceinion

### Cyfanswm cost y prosiect

£19,841,749

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£784,800 (datblygu Ebrill 2015)

£11,362,400 (cyflwyno Mawrth 2018)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 95%

### Adroddiad diweddaraf

Agorodd First Light Pavilion, yr arddangosfa a'r Space Dome ym mis Mehefin 2022. Mae'r rhaglen weithgareddau'n mynd rhagddi. Bwriedir cwblhau'r prosiect ym mis Rhagfyr 2025.

## Great Yarmouth Winter Gardens: Reimagining the People's Palace

### Gwlad neu ardal

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Bwrdeistref Great Yarmouth

### Cyfanswm cost y prosiect

£18,470,858

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£420,800 (datblygu Mehefin 2021)

£11,845,858.00 (cyflwyno Rhagfyr 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 0%

### Adroddiad diweddaraf

Dyfarnwyd grant cyflwyno Rhagfyr 2023. Mae'r ddogfennaeth caniatâd i ddechrau yn yr arfaeth.

## Heritage Centre Stage: Reawakening Brighton's Royal Estate – Phase One

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Dinas Brighton a Hove

### Cyfanswm cost y prosiect

£30,012,143

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£176,500 (datblygu Tachwedd 2014)

£4,823,400 (cyflwyno Ionawr 2016)

£1,000,000 (cynnydd Capital Kickstart Rhagfyr 2021)

£500,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2022)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 90%

### Adroddiad diweddaraf

Agorodd y Corn Exchange a Studio Theatre i'r cyhoedd ym mis Tachwedd 2023. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2024.

## Heritage Takes Centre Stage at Northern Ireland's Grand Opera House

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegrern

### Ymgeisydd

Grand Opera House Trust

### Cyfanswm cost y prosiect

£10,134,960

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£242,700 (datblygu Rhagfyr 2017)

£4,557,300 (cyflwyno Mawrth 2019)

£232,000 (cynnydd grant Mawrth 2021)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 100%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5 miliwn (parhad)

## HMS Caroline, Belfast

### Gwlad neu ardal

Gogledd Iwerddon

### Ymgeisydd

Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol

### Cyfanswm cost y prosiect

£17,800,732

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£845,600 (datblygu Ebrill 2013)

£11,540,300 (cyflwyno Medi 2014)

£2,700,200 (cynnydd grant Gorffennaf 2016)

£73,645 (cynnydd grant Chwefror 2022)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 100%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect hwn wedi'i gwblhau.

## Hull: Yorkshire's Maritime City

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Dinas Hull

### Cyfanswm cost y prosiect

£28,865,200

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£1,368,400 (datblygu Ebrill 2017)

£13,631,500 (cyflwyno Medi 2019)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 58%

### Adroddiad diweddaraf

Mae gwaith cyfalaf yn gwneud cynnydd da a disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2025. Mae gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu'n gwneud cynnydd da.

## Inspiring People: Transforming Our National Portrait Gallery

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

National Portrait Gallery

### Cyfanswm cost y prosiect

£33,581,972

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£900,000 (datblygu Ebrill 2017)

£8,500,000 (cyflwyno Medi 2019)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 94%

### Adroddiad diweddaraf

Ail-agorodd yr Oriol ym mis Mehefin 2023. Mae'r gweithgareddau'n mynd rhagddynt a rhagwelir cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2024.

## International Slavery Museum: Igniting Ideas and Action

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

National Museums Liverpool

### Cyfanswm cost y prosiect

£28,671,000

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£2,958,900 (datblygu Mehefin 2021)

£288,352 (cynnydd grant Mawrth 2024)

£6,971,100 (grant cyflwyno posibl)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Datblygu 82%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r cam datblygu'n gwneud cynnydd. Disgwylir penderfyniad ar gais y cam cyflwyno ym mis Medi 2024.

## Medicine Galleries Project

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Yr Amgueddfa Wyddoniaeth

### Cyfanswm cost y prosiect

£20,949,628

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£400,000 (datblygu Ebrill 2015)  
£7,600,000 (cyflwyno Medi 2016)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 97%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'u cwblhau ac mae gweithgareddau'n mynd rhagddynt. I'w gwblhau yn 2024.

## Natur am Byth! – Adfer rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru

### Gwlad neu ardal

Cymru

### Ymgeisydd

Cyfoeth Naturiol Cymru

### Cyfanswm cost y prosiect

£7,949,471

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£932,700 (datblygu Mehefin 2021)  
£4,160,388 (cyflwyno Mehefin 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 4%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect yn gwneud cynnydd ac mae gweithgareddau'n mynd rhagddynt.

## Pont Drawsgludo Casnewydd: Atgweirio, Adfer a Dehongli

### Gwlad neu ardal

Cymru

### Ymgeisydd

Cyngor Dinas Casnewydd

### Cyfanswm cost y prosiect

£17,632,590

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£1,052,800 (datblygu Ebrill 2018)  
£8,756,000 (cyflwyno Rhagfyr 2020)  
£1,950,000 (cynnydd grant Mawrth 2022)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 3%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr i fod i agor yn hydref 2024.

## Norwich Castle: Gateway to Medieval England

### Gwlad neu ardal

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Swydd Norfolk

### Cyfanswm cost y prosiect

£20,611,336

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£462,400 (datblygu Ebrill 2016)  
£8,756,800 (cyflwyno Medi 2018)  
£1,372,100 (cynnydd grant Mehefin 2021)  
£2,821,076 (cynnydd grant Rhagfyr 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 73%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r gwaith adeiladu bellach yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn haf 2024. Mae cynigion ar gyfer dehongli ac arddangos yn gwneud cynnydd da.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5 miliwn (parhad)

## Peatland Progress: A New Vision for the Fens

### Gwlad neu ardal

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

The Wildlife Trust for Bedfordshire, Cambridgeshire and Gogledd Lloegrampshire

### Cyfanswm cost y prosiect

£9,715,966

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£207,900 (datblygu Mehefin 2021)  
£8,624,301 (cyflwyno grant Rhagfyr 2022)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 48%

### Adroddiad diweddaraf

Rhoddyd caniatâd i ddechrau ac mae'r prosiect yn gwneud cynnydd. Cwblhawyd caffael Speechley's Farm ym mis Mawrth 2023.

## People's Palace and Winter Garden: Glasgow's Palace of the Imaginations

### Gwlad neu ardal

Yr Alban

### Ymgeisydd

Cyngor Dinas Glasgow

### Cyfanswm cost y prosiect

£35,100,000

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£850,000 (datblygu Rhagfyr 2023)  
£6,650,000 (cais cyflwyno posibl)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Datblygu 0%

### Adroddiad diweddaraf

Disgwylir i'r cam datblygu ddechrau ym mis Mehefin 2024.

## Plymouth Sound National Maritime Park

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Dinas Plymouth

### Cyfanswm cost y prosiect

£22,011,288

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£921,500 (datblygu Mehefin 2021)  
£11,660,600 (cyflwyno Rhagfyr 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 0%

### Adroddiad diweddaraf

Derbyniwyd caniatâd i ddechrau'r cam cyflwyno. Disgwylir i'r gwaith ddechrau yn gynnar yn 2024.

## Remaking Beamish

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

Amgueddfa Beamish

### Cyfanswm cost y prosiect

£20,842,864

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£603,800 (datblygu Gorffennaf 2014)  
£10,891,200 (cyflwyno Hydref 2016)  
£975,500 (cynnydd Capital Kickstart Rhagfyr 2020)  
£1,000,000 (cynnydd grant Mawrth 2024)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 95%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r gwaith cyfalaf yn gwneud cynnydd da.

## Restoring Cleveland Pools to the Heart of the Community

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Cleveland Pools Trust

### Cyfanswm cost y prosiect

£8,214,017

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£5,864,336 (cyflwyno Rhagfyr 2018)  
£290,000 (cynnydd Capital Kickstart Rhagfyr 2020)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 95%

### Adroddiad diweddaraf

Ailgorodd y pyllau yn 2023 ond effeithiwyd arnynt gan amodau tywydd a llifogydd digynsail ym mis Chwefror. Mae'r granti yn gweithio i ddatrys gyda chefnogaeth gan y Gronfa Treftadaeth.

## Revisioing Nottingham Castle: 1,000 Years of History

### Gwlad neu ardal

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Dinas Nottingham

### Cyfanswm cost y prosiect

£29,358,400

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£599,500 (datblygu Ebrill 2014)  
£13,883,400 (cyflwyno Tachwedd 2016)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 98%

### Adroddiad diweddaraf

Ar ôl cyfnod o gau, ailgorodd Cyngor Dinas Nottingham y castell a'r tiroedd ym mis Mehefin 2023. Mae disgwyl i'r prosiect gael ei gwblhau ym Mehefin 2024.

## Revitalisation of the Mining Institute and Creation of the Common Room of the Great Gogledd Lloegr

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

The Common Room of the Great North Ltd

### Cyfanswm cost y prosiect

£9,161,610

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£600,000 (datblygu Tachwedd 2016)  
£4,100,000 (cyflwyno Mehefin 2018)  
£721,000 (cynnydd grant Ionawr 2021)  
£228,100 (cynnydd grant Capital Kickstart Ionawr 2021)  
£249,581 (cynnydd grant Mawrth 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 98%

### Adroddiad diweddaraf

Mae gwaith ailddatblygu cyfalaf ar Neville Hall, Newcastle, bellach wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith o gyflwyno'r cynllun gweithgareddau'n mynd rhagddo. Mae datblygiad y cynllun busnes yn parhau mewn amgylchedd ôl-Covid.

## Reviving an Artist's Birthplace: A National Centre for Gainsborough

### Gwlad neu ardal

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

Gainsborough's House Society

### Cyfanswm cost y prosiect

£8,316,977

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£280,700 (datblygu Medi 2016)  
£4,453,100 (cyflwyno Mehefin 2018)  
£613,100 (cynnydd grant Rhagfyr 2020)  
£689,000 (cynnydd grant Mawrth 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 85%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## Cynnydd ar brosiectau dros £5 miliwn (parhad)

### Rothesay Pavilion

#### Gwlad neu ardal

Yr Alban

#### Ymgeisydd

Cyngor Argyll a Bute

#### Cyfanswm cost y prosiect

£45,916,863

#### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£103,100 (datblygu Tachwedd 2012)

£3,330,000 (cyflwyno Ionawr 2015)

£856,000 (cynnydd grant Medi 2017)

£1,200,000 (cynnydd grant Mawrth 2024)

#### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 67%

#### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect yn y cam cyflwyno ac mae gwaith adeiladu'n gwneud cynnydd..

### Sharing Historic Barts

#### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

#### Ymgeisydd

St Bartholomew's Heritage

#### Cyfanswm cost y prosiect

£9,545,028

#### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£445,731 (datblygu Medi 2021)

£4,926,000 (cyflwyno grant Tachwedd 2022)

#### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 11%

#### Adroddiad diweddaraf

Dechreuodd y cam cyflwyno ym mis Ionawr 2024.

### Silverburn Flax Mill: Heart, Mind & Soul Silverburn

#### Gwlad neu ardal

Yr Alban

#### Ymgeisydd

Fife Employment Access Trust

#### Cyfanswm cost y prosiect

£9,815,738

#### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£374,600 (datblygu)

£3,476,000 (cyflwyno Rhagfyr 2021)

£1,200,000 (cynnydd grant Mehefin 2023)

#### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 12.46%

#### Adroddiad diweddaraf

Mae'r cam cyflwyno'n gwneud cynnydd.

### Tees-Swale: Naturally Connected

#### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

#### Ymgeisydd

Partneriaeth AoHNE North Pennines

#### Cyfanswm cost y prosiect

£8,688,051

#### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£414,200 (datblygu Ebrill 2018)

£5,723,700 (cyflwyno Mehefin 2020)

#### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 44%

#### Adroddiad diweddaraf

Mae'r cam cyflwyno'n gwneud cynnydd.

## The Citizens Theatre Redevelopment

### Gwlad neu ardal

Yr Alban

### Ymgeisydd

Citizens Theatre

### Cyfanswm cost y prosiect

£28,571,118

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£500,000 (datblygu Mai 2014)

£4,795,000 (cyflwyno Rhagfyr 2017)

£2,500,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 68%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r cam cyflwyno'n gwneud cynnydd.

## The Hold: A Suffolk Archives Service for the 21st Century

### Gwlad neu ardal

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Swydd Suffolk

### Cyfanswm cost y prosiect

£19,736,843

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£538,100 (datblygu Ebrill 2016)

£10,363,700 (cyflwyno Mawrth 2018)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 93%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## The North's Greatest 'Cathedral of Commerce': Rochdale Town Hall from Co-operation to Common Wealth

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Bwrdeistref Rochdale

### Cyfanswm cost y prosiect

£14,398,669

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£688,700 (datblygu Ebrill 2018)

£8,256,700 (cyflwyno Medi 2020)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 90%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau. Bydd y rhaglen weithgareddau'n parhau tan 2025.

## The Piece Hall: Halifax Heritage

### Gwlad neu ardal

Gogledd Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Calderdale

### Cyfanswm cost y prosiect

£10,770,888

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£239,700 (datblygu Chwefror 2010)

£7,000,000 (cyflwyno Gorffennaf 2012)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 95%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r cam cyflwyno wedi'i gwblhau i raddau helaeth.

# Cynnydd ar brosiectau dros £5 miliwn (parhad)

## Adfywio Castell Y Gelli

### Gwlad neu ardal

Cymru

### Ymgeisydd

Ymddiriedolaeth Castell Y Gelli

### Cyfanswm cost y prosiect

£8,239,150

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£528,600 (datblygu Mawrth 2014)

£4,467,600 (cyflwyno Mai 2016)

£628,100 (cynnydd grant Mawrth 2021)

£249,822 (cynnydd grant Mawrth 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 98%

### Adroddiad diweddaraf

Disgwylir i'r prosiect gwblhau yn fuan.

## The Restoration of Grade II Listed Broomhill Pool – providing swimming, fitness and community facilities

### Gwlad neu ardal

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

Fusion Lifestyle

### Cyfanswm cost y prosiect

£10,386,145

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£3,496,300 (cyflwyno Rhagfyr 2017)

£3,389,845 (cynnydd grant Rhagfyr 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 1%

### Adroddiad diweddaraf

Disgwylir i'r cam cyflwyno ddechrau'n fuan ar ôl cwblhau'r contract grant.

## Tunbridge Wells Cultural & Learning Hub

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Cyngor Bwrdeistref Tunbridge Wells

### Cyfanswm cost y prosiect

£18,676,120

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£178,900 (datblygu Tachwedd 2015)

£4,294,900 (cyflwyno Mawrth 2018)

£675,000 (Capital Kickstart Rhagfyr 2020)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 95%

### Adroddiad diweddaraf

Cwblhawyd y gwaith cyfalaf ym mis Rhagfyr 2021. Bydd gweithgareddau'n parhau tan fis Mehefin 2025.

## Unlocking the Geffrye

### Gwlad neu ardal

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

Geffrye Museum Trust

### Cyfanswm cost y prosiect

£18,323,366

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

£425,300 (datblygu Ebrill 2015)

£11,941,900 (cyflwyno Mawrth 2017)

£692,000 (cynnydd grant Capital Kickstart Rhagfyr 2020)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

Cyflwyno 100%

### Adroddiad diweddaraf

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.



## Unlocking the Severn for People and Wildlife

### Gwlad neu ardal

---

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

### Ymgeisydd

---

Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

### Cyfanswm cost y prosiect

---

£19,539,350

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

---

£233,100 (datblygu Ebrill 2016)

£10,577,200 (cyflwyno Mehefin 2018)

£590,000 (cynnydd grant Rhagfyr 2020)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

---

Cyflwyno 90%

### Adroddiad diweddaraf

---

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## Unlocking the UK's Sound Heritage

### Gwlad neu ardal

---

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

---

Y Llyfrgell Brydeinig

### Cyfanswm cost y prosiect

---

£18,847,834

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

---

£215,900 (datblygu Ebrill 2015)

£9,353,000 (cyflwyno Ebrill 2017)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

---

Cyflwyno 92%

### Adroddiad diweddaraf

---

Mae'r prosiect wedi'i gwblhau.

## We are London: Collections, Galleries and People in a New Museum at West Smithfield

### Gwlad neu ardal

---

Llundain a De Lloegr

### Ymgeisydd

---

Amgueddfa Llundain

### Cyfanswm cost y prosiect

---

£40,423,900

### Swm y grant (dyddiad dyfarnu)

---

£402,700 (datblygu Mai 2018)

£4,597,300 (cyflwyno Medi 2020)

£5,000,000 (cynnydd grant Mehefin 2023)

### Statws y prosiect a % o'r grant a dalwyd

---

Cyflwyno 29%

### Adroddiad diweddaraf

---

Mae'r cam cyflwyno'n mynd rhagddo, a disgwylir i'r amgueddfa ailagor yn 2025.

## Cynnydd ar brosiectau dros £5 miliwn (parhad)



